

S4C /

**S4C I BAWB**
EVERYONE'S **S4C**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2024—2025

AR GYFER Y CYFNOD 01 EBRILL 2024
TAN 31 MAWRTH 2025

HC 1052

S4C /

S4C I BAWB
EVERYONE'S S4C

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024–25**

**Ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025**

Cyflwynir i'r Senedd yn sgîl paragraffau 13(1) a 13(2) i atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol â phenderfyniad gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

HC 1052

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar ddydd Iau, 17 Gorffennaf 2025.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol hwn ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

(h) **S4C 2025**

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o www.s4c.cymru

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at s4c@s4c.cymru

ISBN 978-1-5286-5681-8
E03350866 07/25

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 06 | **Cyflwyno S4C** |
| 08 | Sut i wylio a chysylltu gydag S4C |
| 09 | **Cyflwyniad y Cadeirydd** |
| 10 | **Adroddiad Cadeirydd 2024–25** |
| 11 | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |
| 13 | **Cynnwys** |
| 23 | Blaenoriaethau Cynnwys 2025–26 |
| 30 | **Strategaeth 2022–27** |
| 38 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** |
| 49 | **Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C** |
| 55 | **Gweithgareddau Masnachol** |
| | **Adroddiadau Gweithredol** |
| 58 | Adroddiad Llywodraethu |
| 76 | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| 80 | Adroddiad Polisi Cyflogaeth |
| | **Cyfrifon 2024–25** |
| 85 | Datganiad Ariannol |
| 86 | Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr |
| 88 | Datganiad o gyfrifoldebau |
| 89 | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Fwrdd Sianel Pedwar Cymru S4C sy'n cydnabod bod dau Dŷ'r Senedd hwythau'n dibynnu ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C |
| 91 | Datganiad cyfun o incwm cynhwysfawr |
| 92 | Mantolen gyfun |
| 93 | Mantolen S4C |
| 94 | Datganiad cyfun o newidiadau mewn ecwiti |
| 95 | Datganiad llif arian cyfun |
| 96 | Nodiadau i'r cyfrifon |

# Cyflwyno **S4C**

**Mae S4C yn bodoli i ddangos ein byd drwy'r Gymraeg — gan wasanaethu'r gynulleidfa gyda chynnwys sy'n diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.**

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mae gennym ddyletswydd i greu'r platfform a'r ecosystem i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio at bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.

Nod S4C yw bod yn gyrchfan ar gyfer cynnwys Cymraeg creadigol, gafaelgar a deniadol sydd ar gael i'w fwynhau ar amryw o lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.





# Hanes S4C

**Cyn sefydlu S4C, roedd rhai rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar BBC 1 ac ITV.**

Yn ystod y 1970au, fe benderfynodd llywodraeth Prydain y byddai pedwaredd sianel deledu yn cael ei sefydlu, i ymuno â BBC 1, BBC 2 ac ITV. Roedd y sianel newydd hon yn cael ei hystyried gan nifer yn gyfle ar gyfer dechreuad newydd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn ymgyrchu dwys, sefydlwyd S4C gan Ddeddfau Darlledu 1980/1981.

Fe ddechreuodd S4C ddarlledu am 18:00 nos Lun, 01 Tachwedd 1982. I ddechrau, 22 awr o raglenni Cymraeg oedd yn cael eu darlledu bob wythnos, ochr yn ochr â rhaglenni Saesneg o wasanaeth Channel 4.

Heddiw, mae S4C yn sianel gyfan gwbl Gymraeg yn darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos ar y gwasanaeth llinol. Mae hefyd yn cyhoeddi cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau eraill.

Mae pencadlys S4C yng Nghanolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, ac mae gan S4C swyddfeydd yn Noc Fictoria, Caernarfon; ac yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

# Sut i wylio a chysylltu gyda S4C

**Mae gwasanaeth S4C ar gael ar ystod eang o lwyfannau a dyfeisiau teledu ac ar-lein – yng Nghymru ac draws y DU.**

## Ar deledu yng Nghymru:

**Freeview: 4**
(gan gynnwys HD ar 104)

**Freely: 4**

**Sky: 104**

**Freesat: 104**

**Virgin TV: 104**

## Ar deledu yn Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon:

**Sky: 134**

**Freesat: 120**

**Virgin TV: 164**

**Freely: 77**
(ar-lein yn unig)

## Ar-lein ar draws y DU:

**S4C Clic:**
s4c.cymru/clic
a thrwy'r ap lle bo un ar gael trwy farchnad apiau eich dyfais

**BBC iPlayer:**
bbc.co.uk/tv/s4c
a thrwy'r ap lle bo un ar gael trwy farchnad apiau eich dyfais

---

**Cysylltu gydag S4C...**

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C dros y ffôn, drwy e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy lythyr

**Gwefan:**
s4c.cymru

**E-bost:**
s4c@s4c.cymru

**Ffôn:**
0370 600 4141

**WhatsApp:**
+44 7900 588261

Swyddfa Caerfyrddin:
Canolfan S4C Yr Egin, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Swyddfa Caernarfon:
S4C, Doc Fictoria, Caernarfon, LL55 1TH

Swyddfa Caerdydd:
S4C, 3 Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1FS

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

# Gair o groeso gan y Cadeirydd newydd

## Delyth Evans



**Dechreuais fy ngyrfa fel newyddiadurwr yn gweithio ar raglenni materion cyfoes S4C, ac rwy'n cofio'n glir yr ymrwymiad dwfn a'r balchder sydd ynghlwm â'r gwaith o greu rhaglenni o safon ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg.**

Er bod llawer wedi newid ers hynny – y dechnoleg, y dirwedd gyfryngol, a'r ffordd y mae pobl yn gwylio cynnwys – mae pwrpas creiddiol S4C yr un fath a'r iaith Gymraeg wrth galon ei chenhadaeth o hyd.

Mae'n fraint cael arwain Bwrdd S4C ar adeg mor allweddol yn ei hanes. Mae'r sefydliad yn wynebu heriau sylweddol – gan gynnwys cwestiynau mawr am ddyfodol ariannu cyfryngau gwasanaethau cyhoeddus a goblygiadau newid ymddygiad cynulleidfaoedd yn y byd digidol. Serch hynny, mae hefyd gyfleoedd cyffrous i ail-ddiffinio rôl y sianel, i groesawu cynulleidfaoedd allweddol at y Gymraeg, a chryfhau ein heffaith ddiwylliannol a chymdeithasol.

**Rwy'n falch bod y sefydliad wedi parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid yn y sector gynhyrchu yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan ddarparu cynnwys o safon sy'n ysbrydoli ac yn adlewyrchu Cymru.**

Gyda'r gwaith o ddatblygu strategaeth gorfforaethol newydd hyd at 2030 bellach ar y gweill, rydym nawr yn edrych ymlaen at adeiladu ar y seiliau cadarn sydd eisoes yn eu lle.

Ers ymuno â S4C fel Cadeirydd ym mis Mai 2025, rwyf wedi cael fy nghroesawu'n gynnes gan aelodau'r Bwrdd, yr Uwch Dîm Arwain, a staff ar draws y sefydliad. Hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd, Guto Bebb, am ei wasanaeth fel Cadeirydd dros dro, ac i'r Bwrdd a holl staff S4C am eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda thîm S4C, y sector gynhyrchu, a'n rhanddeiliaid wrth inni ddechrau ar y bennod nesaf yn hanes S4C. Rydym yn edrych tua'r dyfodol gyda chreadigrwydd, hyder a phwrpas.

# Adroddiad y Cadeirydd dros dro

## Guto Bebb




**Fel Cadeirydd dros dro y cyfnod adrodd, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.**

Bu'r flwyddyn yn un brysur a phwysig yn natblygiad diweddar S4C – ac yn flwyddyn lle cefais y fraint o weithredu fel Cadeirydd dros dro. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan gryfhau ei sylfeini a gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n dymuno diolch o galon i Sioned Wiliam am ei harweinyddiaeth fel Prif Weithredwr dros dro am gyfnod o naw mis. Yn ystod ei chyfnod, bu'n gyfrifol am lywio'r cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad Capital Law, gan arwain ar waith manwl i gryfhau diwylliant sefydliadol S4C. Diolch hefyd i bawb ar draws y sefydliad am eu hymrwymiad i'r broses hon – mae'n destun balchder fod S4C mewn lle llawer gwell erbyn hyn.

Roedd pasio Deddf Cyfryngau 2024 ym mis Mai y llynedd yn garreg filltir hanesyddol i S4C. Mae'r Ddeddf yn rhoi statws cyfreithiol i'r strwythur llywodraethiant cyfredol o fwrdd unedol, yn ymestyn cylch gwaith S4C i gynnwys gwasanaethau ar-lein, ac yn cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd sy'n gwbl allweddol i gefnogi ein rôl fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y byd digidol. Yn fwy na hynny, mae'n gadarnhad clir o'r angen parhaus am wasanaeth Cymraeg annibynnol, ac o le canolog S4C yn y dirwedd gyfryngol gyfoes.

Rydym wedi croesawu penodiadau allweddol i'r sefydliad yn ystod y flwyddyn. Roeddwn yn falch o benodi Geraint Evans fel Prif Weithredwr ddiwedd y llynedd, a chroesawu Llion Iwan fel Prif Swyddog Cynnwys ym mis Mawrth 2025. Mae'r ddau'n gwasanaethu fel aelodau gweithredol o'r Bwrdd, ac mae'r penodiadau hyn yn rhoi sail gadarn i arwain datblygiad strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer cyfnod 2025–30.

Hoffwn hefyd longyfarch Delyth Evans ar ei phenodiad fel Cadeirydd S4C o 01 Mai 2025, ac estyn croeso cynnes i'n haelodau anweithredol newydd, Dyfrig Davies, Wyn Innes, Gwenllian Lansdown Davies, Betsan Powys, a Catryn Ramasut. Ar yr un pryd, rydym yn ffarwelio ag Adele Gritten a Chris Jones, gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth gwerthfawr fel aelodau anweithredol dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd cwmni Darwin Gray i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu S4C, gan sicrhau bod ein strwythurau a'n prosesau yn addas at ddiben ac yn adlewyrchu arfer gorau. Mae'r Bwrdd bellach wedi gweithredu nifer o argymhellion yr adolygiad, gan gryfhau atebolrwydd a thryloywder ein gwaith. Mae'r camau hyn yn cyd-fynd yn naturiol â'r newidiadau ffurfiol i drefniadau llywodraethiant S4C a gadarnhawyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024, ac yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer ein gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

Rwy'n ddiolchgar iawn i staff S4C am eu hymroddiad parhaus i'n cenhadaeth, a'u cyfraniad at gryfhau ein gwerthoedd craidd ar draws y sefydliad. Mae eu gwaith yn ganolog i'n llwyddiant wrth i ni barhau i addasu ac ymateb i anghenion ein cynulleidfaoedd.

Wrth gwrs, nid oes amser i orffwys ar ein rhwyfau yn y dirwedd gyfryngol sydd ohoni, ond gydag Uwch Dîm Arwain ar ei newydd wedd, sylfeini sefydlog, a chefnogaeth barhaus ein partneriaid, mae S4C mewn sefyllfa gref i wynebu'r dyfodol gyda hyder.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Geraint Evans

**Mae'n fraint cyflwyno fy adroddiad cyntaf fel Prif Weithredwr S4C ar ddiwedd blwyddyn lle rydym wedi datblygu ein harlwy a'n gwasanaeth i'r gwylwyr, wedi ehangu ein presenoldeb ar lwyfannau digidol, ac atgyfnerthu ein hunaniaeth fewnol a'n ffyrdd o weithio.**

Ar ôl 35 mlynedd o brofiad yn y byd darlledu yng Nghymru – fel newyddiadurwr, golygydd, comisiynydd ac, yn fwy diweddar, fel Prif Swyddog Cynnwys dros dro, rwy'n falch iawn o'r cyfle i arwain S4C ac yn benderfynol o wneud fy ngorau glas dros sefydliad sydd yn rhan annatod o wead diwylliannol Cymru, yn gonglfaen i'r economi greadigol, ac yn arf hollbwysig yn nyfodol yr iaith Gymraeg.

Hoffwn estyn diolch diffuant i Sioned Wiliam, Prif Weithredwr dros dro S4C am gyfnod o naw mis y llynedd, a fu'n arweinydd doeth, agored, hwyliog, a oedd wastad yn barod i wrando. Drwy ei gwaith diwyd i sicrhau newid diwylliant cadarnhaol o fewn S4C, gosodwyd sylfeini da iawn ar gyfer y cyfnod nesaf hwn.

Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar i gydweithwyr ar draws y sefydliad am eu cefnogaeth a'u gwaith diflino yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae eu hymroddiad i genhadaeth a gwerthoedd S4C – yn enwedig ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, cyfoes, o ansawdd uchel i'n cynulleidfaoedd – yn ganolog i'n llwyddiant ac yn sail i'n huchelgais wrth edrych tua'r dyfodol.

Un o'r datblygiadau pwysicaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd ein gwaith i gryfhau diwylliant mewnol S4C. Ers Gorffennaf 2024, rydym wedi bod yn cydweithio â Dr Ioan Rees o gwmni Sycol i ddatblygu ac, erbyn hyn, gweithredu ein Côd Diwylliant newydd.

Mae'r côd hwn yn crynhoi'n glir y safonau a'r disgwyliadau a rennir ar draws y sefydliad sydd wedi ei seilio ar bedwar gwerth craidd:



- **Ar Dy Orau:**
  Rydym yn annog ein gilydd i dyfu, datblygu a chyflawni hyd yr eithaf. Rydym yn cefnogi'n gilydd i fod yn rhagweithiol, yn gryf ein cymhelliad, ac yn ymroddedig.

- **Balch o S4C:**
  Rydym yn credu yng nghenhadaeth S4C ac yn falch o'r llwyfan rydym yn ei ddarparu i'r Gymraeg a'i diwylliant. Rydym oll yn llysgenhadon i'r sianel a'r gwaith rydym yn ei gyflawni.

- **Dathlu Pawb:**
  Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u gwerthfawrogi. Rydym yn cofleidio gwahanol leisiau a phrofiadau, ac yn ymfalchïo yn llwyddiannau ein gilydd.

- **Cer Amdani:**
  Rydym yn ddewr, yn greadigol ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd. Rydym yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, ac yn benderfynol o wneud gwahaniaeth i'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau.

**Mae'r gwerthoedd hyn yn sail i'n ffyrdd o weithio – gan lywio ein penderfyniadau, ein dulliau arwain, a'r modd rydym yn ymgysylltu â'n gilydd a'n rhanddeiliaid o ddydd i ddydd. Mae'r adran Pobl a Diwylliant ar ei newydd wedd yn chwarae rhan allweddol wrth inni wreiddio'n gwerthoedd i weithgarwch sefydliadol dydd-i-ddydd; ond mae'r cyfrifoldeb dros eu gwireddu yn perthyn i bob un ohonom.**

Pobol y Cwm



Mae'r un egwyddorion yn llywio'r hyn a welir ar y sgrîn hefyd. Wrth edrych ar ein cynnwys, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un gyfoethog, gydag arlwy amrywiol sydd wedi apelio at gynulleidfaoedd helaeth ar draws pob platfform. Mae gwybodaeth fanwl am berfformiad ein cynnwys ar gael ar wahân yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, ond mae nifer o enghreifftiau'n sefyll allan i mi sy'n dangos gwerthfawrogiad eang i wasanaeth S4C.

Mewn amodau digon heriol i ddarlledwyr yn gyffredinol, llwyddom i gynnal nifer y bobl wnaeth wylio'r sianel rhyw ben bob wythnos y llynedd (ein cyrhaeddiad wythnosol), gyda chynnydd nodedig ymhlith gwylwyr yn y carfannau dosbarthiadau cymdeithasol C2DE a 45–64 oed. Dyma ddwy garfan darged benodol i S4C yn y cyfnod i ddod.

Lansiwyd cyfres Y Llais ym mis Chwefror, ac fe lwyddodd yn arbennig i apelio at gynulleidfa ifanc a siaradwyr newydd. Yn drawiadol, roedd dros hanner y gynulleidfa o dan 45 oed – un o'r cyfresi prin iawn i gyflawni hynny yn yr oriau brig yn ystod 2024–25 ar draws yr holl ddarlledwyr cyhoeddus. Llwyddodd y gyfres garu newydd sbon Amour a Mynydd hefyd i ddenu cynulleidfaoedd iau ar draws y platfformau, gyda dros hanner y gynulleidfa eto o dan 45 oed, ac yn mwynhau'r fodcast digidol Après i gyd-fynd gyda'r gyfres yn arbennig.

Uchafbwynt arall oedd cyfres ddrama, Cleddau, a gafodd y nifer mwyaf erioed o sesiynau gwylio ar gyfer drama Gymraeg ar iPlayer. Roedd ei phatrwm gwylio – cyfuniad o wylio cyn, yn ystod, ac ar ôl darllediad llinol – yn nodweddiadol iawn o'r ffordd mae cynulleidfaoedd heddiw yn mwynhau cynnwys.

Ac wrth i ni ehangu ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol, gwych oedd gweld darn o gynnwys o Eisteddfod yr Urdd, gyda chystadleuydd ifanc o'r enw Ruby, yn cael ei wylio dros ddwy filiwn o weithau.

Pleser oedd dathlu pen-blwydd Pobol y Cwm yn 50 oed fis Hydref. Roedd yn garreg filltir arwyddocaol i'r opera sebon, ac fe ddenodd y penodau arbennig a'r cynnwys ychwanegol o amgylch y dathliad werthfawrogiad uchel gan y gynulleidfa.

Roedd gwerthfawrogiad arbennig i'r rhaglen Cofio Dewi Pws, oedd yn deyrnged deilwng i un o'n talentau mwyaf unigryw. Mae'r data hefyd yn dangos cynnydd sylweddol mewn gwerthfawrogiad o gynnwys S4C ymhlith gwylwyr iau.

Ar y platfformau digidol, gwelsom gynnydd sylweddol yn y defnydd o iPlayer, gyda'r platfform hwn bellach yn cyfrif am dros 10% o holl oriau gwylio S4C – ac erbyn hyn mae 14% o'n holl wylio'n digwydd ar draws Clic, iPlayer ac YouTube. Mae hyn yn adlewyrchu newid parhaus o ran arferion gwylio, ac yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddi mewn presenoldeb cryf ar y platfformau digidol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol.

Nid yw'r llwyddiant hwn yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae'n adlewyrchu'r bartneriaeth gref rhwng S4C a'r sector gynhyrchu. Mawr yw ein diolch am ddychymyg, dawn a phroffesiynoldeb cwmnïau creadigol sy'n cynnig syniadau arloesol ac yn cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Er gwaetha'r pwysau cynyddol sy'n wynebu'r diwydiant, mae S4C yn falch o fod wedi parhau i gomisiynu ar raddfa debyg i flynyddoedd blaenorol, gan barhau i fuddsoddi'n sylweddol yn y sector greadigol yng Nghymru.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n glir bod S4C, fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym – o ran cyllid, ymddygiad cynulleidfaoedd, a datblygiadau technolegol. Mae ein strategaeth 2022–27 wedi darparu cyfeiriad cadarn hyd yma, ond rydym bellach wedi dechrau'r gwaith o lunio strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer cyfnod 2025–30.

Ein nod yw datblygu strategaeth sy'n uchelgeisiol ac ymarferol – un sy'n adeiladu ar ein cryfderau ac yn sicrhau bod S4C yn barod i wasanaethu Cymru a'r Gymraeg am y bum mlynedd nesaf mewn ffordd berthnasol, effeithiol a chynhwysol. Bydd y strategaeth newydd hon yn canolbwyntio ar dri phrif amcan: ehangu gwylio gyda'n cynnwys; trawsnewid i fod yn gyhoeddwr digidol-yn-gyntaf; a chydweithio i weld Cymru'n ffynnu.

Bydd ein cynulleidfaoedd wrth galon pob penderfyniad a wnawn. Byddwn yn sicrhau effaith gymdeithasol a diwylliannol amlwg, ac yn adeiladu model busnes cynaliadwy sy'n edrych tua'r dyfodol. Ein huchelgais yw sicrhau bod S4C mor berthnasol ag erioed, gyda'n pwrpas craidd yn parhau i arwain pob agwedd ar ein gwaith, sef i ddangos ein byd drwy'r Gymraeg.

Mae S4C yn fwy na sianel deledu. Mae'n adlewyrchu ein cymunedau, yn creu gwaith a thwf economaidd dros Gymru, ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw a pherthnasol heddiw ac i'r dyfodol. Adeg sefydlu S4C, teledu, sef cyfrwng mwyaf poblogaidd yr oes, oedd maes y gad i'r Gymraeg ar y pryd. Gyda Chymry o bob oed nawr yn byw a bod ar gyfryngau cymdetghasol, mae angen ymladd brwydr yr iaith ar sawl platfform erbyn hyn, ac mae gan S4C rôl allweddol i sicrhau fod cynnwys Cymraeg gafaelgar yn creu swn ar sgriniau symudol yn ogystal a'r 'stafell fyw.

Wrth inni edrych ymlaen, rwy'n llawn balchder yn ein sefydliad, a hyder yn y bobl sy'n rhan ohono. Gyda'n gwerthoedd yn ein harwain, rwy'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda thîm S4C, y sector, a'n rhanddeiliaid dros y blynyddoedd i ddod wrth inni ysbrydoli, diddanu ac adlewyrchu Cymru gyda chynnwys gwych i bawb.

# Cynnwys

# Diolch i'n partneriaid yn y sector gynhyrchu!

**Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid yn y sector gynhyrchu am eu cefnogaeth barhaol i S4C.**

**Yn ystod 2024–25, fe weithiom gyda'r cyflenwir canlynol i gynhyrchu cynnwys ar draws ein gwahanol lwyfannau:**

- Aden Productions Ltd
- Afanti Media Limited
- Barn Media Ltd
- BBC Studios Productions Ltd
- Beastly Media Ltd
- Blacklight Television Limited
- Boom Pictures Productions Ltd
- British Broadcasting Corporation
- Captain Jac Ltd
- Cardiff Productions Ltd
- Carlam Ltd
- Ceidiog Cyf
- Chwarel Cyf
- Cwmni Da
- Cynefin Films Ltd
- Cynhyrchiadau Alpha Productions Ltd
- Cynyrchiadau Twt Productions Ltd
- Dal Y Mellt Cyfyngedig
- Darlun Cyf
- Dream Team Television Ltd
- Docshed Ltd
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Ffilmiau Twm Twm Cyf
- FOCUS Music Cymru Cyf
- Gav Murphy
- Gogglebocs Cymru Cyf
- Grandpa Productions Ltd
- Gritty Productions Ltd
- Hall of Mirrors Ltd
- Hoho Rights Ltd
- Ie Ie Productions Limited
- It's My Shout
- ITV Broadcasting Ltd
- ITV Services Ltd
- Jet TV Limited
- Kailash Films Limited
- Lefel Dau Cyf
- Little Bird Films Ltd
- Media Atom Ltd
- Mojo Productions Limited
- Nimble Dragon Ltd
- Octagon Content Ltd
- On Par Productions Ltd
- Opra Avanti Ltd
- Orchard Media & Events Group Limited
- Pixie Creative Limited
- Pyst Cyf
- Ride it out Ltd
- Rondo Media Cyf
- Sain Cyf
- Severn Screen Ltd
- Slam Media Limited
- South Wind Blows Ltd
- Sunset & Vine Productions Ltd
- Swnllyd Cyfyngedig
- Telesgop Media Cyf
- Tinopolis Ltd
- Tinopolis Interactive Ltd
- Tree on the Hill Films Ltd
- Tweedy & Fluff Ltd.
- Vox Pictures Limited
- Whisper Films Ltd
- Wildflame Productions Ltd
- Y Golau Cyf
- Yellow Barrels Ltd
- Yeti Media Limited
- Zwwm Films

Gwnaed pob ymdrech i adnabod a rhestru pob cyflenwr a weithiodd gyda ni – ar gynnwys a gyhoeddwyd yn ystod 2024–25, neu sydd i ddod dros y cyfnod nesaf – ac fe ymddiheurwn os oes unrhyw esgeulustod.

# Gwobrau Ffilm a Theledu 2024–25

Mae cynnwys S4C yn ennill gwobrau ac enwebiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae ennill, neu dderbyn enwebiad ar gyfer gwobr mewn gŵyl ffilm neu deledu yn arwydd o werthfawrogiad o ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir gan y cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C.

## Gwobrau RTS Cymru 2025

### ENILLWYR

Plant
**Itopia (Boom Cymru)**

Digidol Gwreiddiol
**Colli Dy Dafod (Boom Cymru)**

Drama
**Cleddau (Blacklight & Banijay Rights)**

Adloniant Ffeithiol
**Cyfrinachau'r Llyfrgell (Slam)**

Newyddion a Materion Cyfoes (cyfres)
**Y Byd ar Bedwar: Y Daith i Rwanda (ITV Cymru)**

Cyflwynydd y Flwyddyn
**Kristoffer Hughes [Marw gyda Kris (Twm Twm)]**

### Enwebiadau

Plant
**Deian a Loli a Siwan Swper Smart (Cwmni Da)**

Plant
**Ne-wff-io (Ceidiog)**

Drama
**Bariau (Rondo)**

Newyddion a Materion Cyfoes (eitem)
**Newyddion S4C: Ffin Israel-Libanus (BBC Cymru)**

Newyddion a Materion Cyfoes (cyfres)
**Byd Eithafol: Chware Teg? (Wildflame Productions)**

Rhaglen Ddogfen Chwaraeon
**Yr Hawl i Chwarae (Whisper)**

Gwreiddiol Digidol
**Carufanio (Carlam)**

### Enwebiadau

Cyflwynydd y Flwyddyn
**Elin Fflur**

Rhaglen Ddogfen Chwaraeon
**Cofis yn Ewrop (Rondo)**

Dogfen Ffeithiol
**Y Llinell Las - Mwy Na Job (Slam)**

Perfformiad Drama
**Gwydion Rhys [Creisis (Boom Cymru)]**

Adloniant Ffeithiol
**Heno: Cofio Dewi Pws (Tinopolis)**

## Gwobrau BAFTA Cymru 2024

### ENILLWYR

Actores
**Annes Elwy [Bariau (Rondo)]**

Rhaglen blant
**Sêr Steilio (Yeti Television)**

Cyfres ffeithiol
**Y Frwydr: Stori Anabledd (Cardiff Productions)**

Colur a Gwallt
**James Spinks [Y Sŵn (Swnllyd / Joio)]**

Dylunio cynhyrchu
**Gerwyn Lloyd [Pren ar y Bryn (Fiction Factory)]**

### Enwebiadau

Dylinio gwisgoedd
**Ffion Elinor [Pren ar y Bryn (Fiction Factory)]**

Actores
**Nia Roberts [Pren ar y Bryn (Fiction Factory)]**

Rhaglen blant
**Newyddion Ni (BBC Cymru)**

Actor
**Rhodri Meilir [Pren ar y Bryn (Fiction Factory)]**

Cyfarwyddwr: ffeithiol
**Caryl Ebenezer [Siân Phillips yn 90 (Rondo)]**

Rhaglen adloniant
**Can i Gymru 2024 (Afanti)**

Rhaglen adloniant
**Iaith ar Daith (Boom Cymru)**

Cyfres ffeithiol
**Siwrna Scandi Chris (Cwmni Da)**

### Enwebiadau

Ffotograffiaeth ffeithiol
**Haydn Denman [Siân Phillips yn 90 (Rondo)]**

Cyflwynydd
**Chris Roberts [Siwrna Scandi Chris (Cwmni Da)]**

Cyflwynydd
**Stifyn Parri [Paid â Dweud Hoyw (Rondo)]**

Rhaglen ddogfen sengl
**Paid â Dweud Hoyw (Rondo)**

Rhaglen ddogfen sengl
**Siân Phillips yn 90 (Rondo)**

Drama teledu
**Pren ar y Bryn (Fiction Factory)**

Breakthrough Cymru
**Alaw Llewelyn Roberts [Bariau (Rondo)]**

## Gwobrau Digidol Broadcast 2024

### Enwebiadau

Dogfen ffurf fer orau
**Dom a Lloyd: Cymru Heddiw (Carlam)**

## Gwobrau Broadcast Chwaraeon 2024

### Enwebiadau

Darlledwr Chwaraeon y Flwyddyn
**S4C**

Cynhyrchiad y Flwyddyn (Chwarterol)
**Cwpan Rygbi'r Byd 2023**

Rhaglen Adloniant Chwaraeon y Flwyddyn
**O'r Stryd i'r Sgrym (Whisper Cymru)**

## Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2024

### ENILLWYR

Adloniant ffeithiol
**Chris a'r Afal Mawr (Cwmni Da)**

### Enwebiadau

Comedi
**Dim Byd fel Dim Byd (Cwmni Da)**

Rhaglen i Blant
**Y Goleudy (Boom Cymru)**

Cyfres ffeithiol
**Stori'r Iaith (Rondo)**

Ffilm Ddogfen Nodwedd
**Y Tad, y Mab a'r Côr (Backflip Media / Cwmni Da)**

Rhaglen gerddorol fyw
**Tafwyl – yn fwy ac yn fwy (Orchard)**

Drama sengl
**Y Sŵn (Swnllyd / Joio)**

## CIRCOM 2025

### ENILLWYR

Talent Ifanc Ar y Sgrin
**Nest Jenkins**

## C21 Media 2024

### Enwebiadau

Cyfres Ddrama Di-Saesneg
**Bariau (Rondo)**

Drama Fer
**Bariau (Rondo)**

## New Voice Awards (Gŵyl Gaeredin) 2025

### Enwebiadau

Cyflwynydd Newydd
**Iwan Steffan ac Aimee Fox [Hansh: Cysgu efo Ysbrydion (Cwmni Da)]**

## Gwobrau Cyfryngau Cymru 2024

### Enwebiadau

Newyddiadurwraig deledu y Flwyddyn
**Elen Wyn (BBC Cymru)**

Rhaglen Newyddion a Materion Cyfoes y Flwyddyn
**Y Byd ar Bedwar - Y Daith i Rwanda (ITV Cymru)**

Rhaglen Newyddion a Materion Cyfoes y Flwyddyn
**Rhaglen Newyddion: Neil Foden (BBC Cymru)**

# Gwrando ar ein Gwylwyr

**Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.**

**Ceir ymwneud drwy gydol y flwyddyn gyda'r gynulleidfa am raglenni S4C ar gyfryngau cymdeithasol a gyda Gwifren Gwylwyr, llinell gymorth S4C.**



Am dro

Bariau



**Llinell gymorth Gwifren Gwylwyr**
Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, ar gyfryngau cymdeithasol, trwy WhatsApp, neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae'r gwasanaeth dwyieithog ar gael o 09:00 tan 22:00 saith diwrnod yr wythnos.

Mae tîm Gwifren Gwylwyr S4C fel arfer yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r holl sylwadau sy'n ein cyrraedd am gynnwys a gwasanaethau S4C yn cael eu cofnodi a'u cadw. Mae'r tîm yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Bwrdd.

Cafwyd 5,184 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng y Wifren yn 2024–25. Roedd 2,236 o'r rhain yn canmol rhaglenni tra bod 810 yn gwynion neu'n feirniadaeth o ryw fath.

**Panel Ymateb Cynulleidfa**
Yn ogystal â derbyn adborth y gynulleidfa trwy'r Wifren Gwylwyr, mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,400 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru.

Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.

# Sicrhau gwerth i'r gynulleidfa

**Mae S4C yn anelu i sicrhau fod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar gynnwys sy'n gymharus o ran ansawdd gyda chynnwys rhaglenni rhwydwaith eraill y DU, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod rhaglenni yn cael eu cynhyrchu yn y modd fwyaf effeithlon a bod cost gorbenion S4C yn parhau yn isel.**

Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol.

Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar deledu ac ar lwyfannau digidol perthnasol, sy'n cwrdd ag anghenion ei chynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y buddsoddiad yng ngwasanaethau S4C yn rhoi gwerth priodol am arian. Mae sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys felly'n amcan bwysig.

Elfen arall o hyn yw sicrhau fod costau rhedeg sefydliad S4C yn parhau i fod yn ganran fechan o wariant S4C.

Mae S4C wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ariannol. O ganlyniad, 3.4% o gyfanswm gwariant S4C sy'n cael ei wario ar weinyddiaeth a gorbenion, gyda gweddill y gwariant yn cefnogi creu a dosbarthu cynnwys.


**Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys – dosraniad gwariant S4C**

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys.

Mae dyraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2024–25 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn ei rhaglenni a'i chynnwys, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **1. Costau'r gwasanaeth rhaglenni (gan gynnwys cynnwys digidol)** | **77.3%** |
| **2. Costau'n ymwneud â darlledu a dosbarthu gwasanaeth rhaglenni S4C** | **19.3%** |
| **3. Costau gweithredu a gweinyddu** | **3.4%** |

Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Ariannol.



## S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU

Trwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr i reoli cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, mae gan S4C record falch o gomisiynu rhaglenni cost-effeithiol ac mae S4C wedi llwyddo i warchod nifer yr oriau a ddarlledwyd, yn ogystal ag ystod, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaeth.


S4C yw un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cost-effeithlon yn y DU gyda chost yr awr yn sylweddol is na darlledwyr eraill, gan gomisiynu ar ffracsiwn (25-33% fel arfer) o'r cyfraddau genre tebyg a ddefnyddir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Fodd bynnag, mae cost gwneud rhaglenni wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gwariant byd-eang ar rai genres – yn enwedig drama wedi'i sgriptio – yn codi i lefelau digynsail. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r dyfodol wrth i ni gystadlu am dalent ar a thu ôl i'r sgrin. Mae tueddiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol hefyd wedi cael effeithiau chwyddiant ar gostau cynhyrchu.


Rydym yn parhau i weithio gyda TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) a chwmnïoedd cynhyrchu unigol i sicrhau'r gwerth gorau i gynulleidfaoedd o'n cyllid cyhoeddus.




**Cost yr awr – rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C (ag eithrio cynnwys digidol-yn-unig a digidol-yn-gyntaf)**



**Cost yr awr – cynnwys digidol-yn-unig a digidol-yn-gyntaf a gomisiynwyd gan S4C (ag eithrio cynnwys cyfryngau cymdeithasol)**




Gogglebocs Cymru




# Croesawu pawb i wylio S4C – Gwasanaethau Cymorth i'n Cynulleidfa

**Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posib yn bwysig iawn i S4C.**

Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.

Mae is-deitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob lefel rhugldeb a'r di-Gymraeg.

Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn 2024–25:



### Is-deitlau Cymraeg

Mae'r is-deitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Darparwyd is-deitlau Cymraeg ar 67.42% o raglenni – cynnydd sylweddol ar y 45% o raglenni oedd ag is-deitlau Cymraeg yn 2022–23, ddaeth yn sgil buddsoddiad diweddar yn y maes. Mae is-deitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic, ac is-deitlau Saesneg ar gael ar y BBC iPlayer.

### Is-deitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl f/Fyddar a thrwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "is-deitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld is-deitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag is-deitlau agored. Fel arfer, ail-ddarllediadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd is-deitlau Saesneg ar gael ar 83.43% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

### Sain ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth sain ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu rhannol ddall i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 14.33% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 10%).

### Arwyddo rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos ac amser cinio yn ystod yr wythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr b/Byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 6.40% o raglenni (targed Ofcom yw 5%). Mae hefyd adran arbennig ar Clic gyda'r holl raglenni sydd wedi eu harwyddo i gyd i'w gweld mewn un man.

# Cynnwys 2025–26



## Prif Swyddog Cynnwys S4C, Llion Iwan, sy’n amlinellu blaenoriaethau cynnwys S4C ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Mae S4C yn gwasanaethu'r gynulleidfa gyda chynnwys sydd yn diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.**

**Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mae gennym ddyletswydd i greu y platfform ac ecosystem i sbarduno'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i greu cynnwys uchelgeisiol ac unigryw sy'n apelio i bob oedran, cefndir a gallu ieithyddol.**

**Nod S4C yw bod yn gyrchfan ar gyfer cynnwys Cymraeg creadigol, gafaelgar a deniadol sydd ar gael i'w fwynhau ar amryw o lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.**

**Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi ein cynulleidfa graidd, ffyddlon a hir-sefydlog, sy'n parhau'n hanfodol i S4C. Wrth inni edrych i ehangu a thargedu cynulleidfaoedd newydd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethu'r gwylwyr hynny sydd wedi bod gyda ni ers blynyddoedd lawer ac sy'n parhau i ddewis S4C fel rhan o'u bywyd bob dydd.**

Y Llais



## Datganiad Polisi Rhaglenni 2025-26

Y nod yw i gomisiynu cynnwys swnllyd a phoblogaidd fydd yn denu cynulleidfa eang, gan gynnwys gwylwyr iau, gwylwyr ysgafnach a C2DE. Bydd S4C yn gartre i gemau rhyngwladol rygbi a phêl-droed, dramâu gafaelgar, dogfennau pwerus a chynnwys beiddgar i bobl ifanc. Bydd rhywbeth i bawb ar S4C.

Rydym yn comisiynu cynnwys ar sail dealltwriaeth gref o'n cynulleidfa – wedi'i seilio ar gyfuniad o ddata gwylio, adborth gan ein Panel Gwylwyr, arolwg barn blynyddol, a dadansoddiad manwl o batrymau ar lwyfannau digidol. Mae'r mewnwelediad hwn yn allweddol i sicrhau bod ein cynnwys yn berthnasol, yn bersonol ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'n cynulleidfa amrywiol.

Byddwn yn anelu at apelio at gynulleidfaoedd o bob rhuglder iaith, a hawliau chwaraeon yr un mor bwysig ag erioed, yn ogystal â fformatau adnabyddus fel Y Llais. Byddwn yn chwarae'n rhan yn y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg ac yn anelu i sicrhau mwy o amlygrwydd ac argaeledd i S4C ar blatfformau digidol

Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau hygyrchedd cynhwysfawr – gan gynnwys is-deitlo, sain ddisgrifio ac arwyddo – i wneud ein cynnwys yn fwy hygyrch i bawb ac i gefnogi ein huchelgais i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, gan gynnwys y rhai sy'n cychwyn ar eu siwrnai yn dysgu'r Gymraeg ac unigolion di-Gymraeg.

Mae amrywiaeth, cynhwysiant a chynrychiolaeth yn greiddiol i'r ffordd rydym yn comisiynu ac yn cyflwyno cynnwys. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid cynhyrchu i sicrhau bod ein rhaglenni'n adlewyrchu Cymru gyfoes yn ei holl amrywiaeth – gan gynnwys cefndiroedd, profiadau a chymunedau gwahanol ledled y wlad.

Mewn cyfnod o ansefydlogrwydd gwleidyddol drwy'r byd bydd ein cynnwys newyddion a materion cyfoes yn parhau i adlewyrchu'r tymheredd rhyngwladol yn ogystal â chraffu ar straeon o bwys yn nes at adre'.

Er mai un sianel yw S4C, mae'n eithriadol o bwysig bod ein cynnwys erbyn hyn yn weledol ar draws nifer o blatfformau, o Clic, iPlayer, YouTube a'r holl lwyfannau cymdeithasol. Y nod yw cynnig y cynnwys mae'r gwylwyr eisiau ar y platfform o'u dewis.

## Drama

**Mae'r flwyddyn nesa yn mynd i gynnig mwy fyth o ddrama ac amrywiaeth eang.**

Yn dilyn llwyddiant Bariau yng ngwobrau Bafta Cymru eleni, mi fydd y gyfres yn ôl ym mis Ebrill. Fe lwyddodd y gyfres gyntaf i apelio at wylwyr rhwng 16 a 24 a siaradwyr llai rhugl o gartrefi cymysg eu iaith.

Ar ddechrau'r Haf byddwn yn cyhoeddi drama newydd gyffrous i bobl ifanc rhwng 13-15. Mae Hafiach yn fwrlwm o gast ifanc ac amrywiol ac wedi'i lleoli yn Y Rhyl – ardal sy'n cael ei than gynrychioli ar y sgrin. Mae gwerthoedd y cynhyrchiad yr un mor slic â'n harlwy arferol ond gyda chynulleidfa'r dyfodol mewn golwg.

Ar ôl clod ysgubol i gyfres gyntaf Y Golau ar S4C a Channel 4 mi fydd dirgelwch arall o ardal ffuglennol Llanemlyn yn cael ei gollwng fel bocset yn mis Medi. Mi fydd Y Golau: Dŵr yn ddrama afaelgar sydd am deulu, cymuned, celwyddau a thwyll. Wrth i ni goffau 60 mlynedd ers boddi Capel Celyn eleni, mae'n werth nodi bod themâu tebyg yn rhan o blot gafaelgar y gyfres hon.

Bydd criw Stad Maes Menai yn ôl ym mis Tachwedd. Fel y gyfres gyntaf, ensemble yw hwn, sy'n crafu'n ddyfnach o dan wyneb ei chymeriadau na'i rhagflaenydd, Tipyn o Stad, ond gan gadw'r hiwmor. Cafwyd ymateb calonogol iawn i'r gyfres, gyntaf , ac o ran proffil Clic ac iPlayer, roedd y ganran uchaf o wylwyr rhwng 16 a 34 oed.

Ac wedi llwyddiant cyfres gyntaf Dal y Mellt, gafodd ei gwerthu i Netflix, bydd ail gyfres o'r ddrama afaelgar yma yn y flwyddyn newydd.

Mi fydd Rownd a Rownd yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 eleni gyda stori ysgytwol ym mis Medi, ac mi fydd Pobol Cwm yn gobeithio cynyddu ei chynulleidfa hyd yn oed yn fwy ar ôl gweld cynnydd o 9% yn y gwylio ar-lein (Clic ac iPlayer) yn 4 mis olaf 2024.

Yn dilyn galwad datblygu Sinema Cymru am sgriptiau newydd, daeth llu o geisiadau a bu'r prosiectau buddugol yn brysur yn gweithio ar eu sgriptiau peilot. Yn dilyn llwyddiant Y Sŵn , rydyn ni'n mawr obeithio y bydd un o'r prosiectau yn dechrau saethu ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn i straeon sinematic yn yr iaith Gymraeg gael platfform unwaith eto mewn sinemâu a chreu sŵn yn rhyngwladol.






Pêl-droed Rhyngwladol

## Chwaraeon

**Byddwn yn parhau i gynyddu'r sylw i bêl-droed menywod, wedi i ni sicrhau'r hawliau Cymraeg i ddarlledu pob un o gemau Cymru yn rowndiau terfynol Ewros 2025.**

Yn ogystal â'r Ewros, byddwn yn parhau i ddangos uchafbwyntiau pob gêm rhyngwladol, ac yn dangos mwy o gemau domestig nag erioed o'r blaen o gynghrair Adran Genero yn fyw ar S4C.

Bydd Sgorio hefyd yn parhau i roi sylw i uwch-gynghrair y dynion, y Cymru Premier a hynt a helynt y prif glybiau yn y gemau Cwpan Ewropeaidd, a hefyd gemau dan 19 Elite Dynion Cymru mewn cystadleuaeth sydd yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru eleni.

Yn dilyn torri'r record ar gyfer y nifer mwyaf o wylwyr i wylio S4C ar BBC iPlayer ddwywaith yn 2024 gyda gemau o Gwpan FA, byddwn yn anelu unwaith eto i gael yr hawliau i ddangos gemau timau o Gymru yn y gystadleuaeth boblogaidd yma, yn ogystal â'r hawliau ar gyfer ambell i gêm o gynghrair Lloegr.

Mewn partneriaeth newydd gyda BBC Cymru byddwn yn parhau i ddangos holl gemau rhyngwladol dynion Cymru, wrth iddyn nhw frwydro i gyrraedd Cwpan y Byd FIFA 2026.

O ran y rygbi rhyngwladol, byddwn yn darlledu gemau 6 Gwlad dynion Cymru a Chymru dan 20, ac unwaith eto eleni, mewn partneriaeth gyda TNT byddwn yn dangos gemau rhyngwladol yr Hydref. Byddwn yn dilyn rhanbarthau Cymru yn y Bencampwriaeth Rygbi Unedig a Chwpan Her yn Ewrop. Bydd darpariaeth eang i rygbi llawr gwlad gyda gemau Super Rygbi Cymru, yn ogystal â gemau'r Ffordd i'r Principality a gemau'r Farsity i fenywod a dynion.

Unwaith eto eleni byddwn yn dilyn Elfyn Evans wrth iddo rasio yn y WRC ar Ralïo, a byddwn yn ôl yn Ffrainc ar gyfer y Tour de France 2025.



Cân i Gymru

## Cerddoriaeth a Digwyddiadau

**Byddwn yn lawnsio brand cerddoriaeth newydd eleni, gyda dwy gyfres llinol ynghyd ac amrywiaeth o gynnwys ar y platfformau digidol a’r gwefannau cymdeithasol. Bydd yr holl arlwy yma hefyd yn cael cartref ar sianel YouTube S4C Miwsig – bydd y sianel hon yn hafan i gerddoriaeth Gymraeg S4C ac hefyd yn le hwylus i bawb o bob oed i fynd i chwilio am gerddoriaeth hen a newydd.**

Mae rhai newidiadau ar y gweill i’r arlwy o’r Eisteddfod Genedlaethol, wrth i ni ddod â hyd yn oed mwy o’r ŵyl i’n gwylwyr drwy ddarlledu cynnwys y nosweithiau yn fyw. Yn ôl yr arfer byddwn hefyd yn darlledu’n fyw o’r Ŵyl Gerdd Dant a’r Eisteddfod Ffermwyr Ifanc. Yn dilyn llwyddiant llynedd bydd hefyd pwyslais ychwanegol ar gyhoeddi cynnwys ar y platfformau o’r Eisteddfod Ffermwyr ifanc.

Mae Cân i Gymru bellach wedi hoelio ei lle yn ein calendr adeg Gŵyl Ddewi ac yn flynyddol mae’n esblygu ac yn datblygu. Bu’r system bleidleisio newydd ar lein yn llwyddiant mawr eleni a byddwn yn gobeithio cynyddu’r bleidlais yn flynyddol. Bydd Noson Lawen yn cael ychydig o drawsnewidiad cyn dychwelyd yn yr Hydref.

## Adloniant

**Mae tyfu brandiau a fformatau llwyddiannus yn un o amcanion y strategaeth a bydd nifer o’n brandiau mwyaf adnabyddus yn dychwelyd eleni. Mae Priodas Pum Mil yr un mor boblogaidd ac erioed a pharau yn awchu i gymryd rhan yn y gyfres unwaith eto. Bydd Jonathan ac Am Dro hefyd yn dychwelyd. Yn sgil yr ymateb arbennig i Sgwrs Dan y Lloer llynedd yn enwedig rhaglenni Noel Thomas a Daf James bydd y gyfres unwaith eto eleni yn dod ag enwau mawr ac amserol i ni. Ac wedi i Y Llais greu gymaint o argraff gyda chynulleidfa iau, dysgwyr a’r di-Gymraeg, byddwn yn anelu i ddod a’r fformat poblogaidd yn ôl am gyfres arall.**

Ond mae’n bwysig hefyd i ddatblygu fformatau newydd all ddychwelyd ac fe brofodd y sioe garu newydd Amour a Mynydd yn boblogaidd ymysg yr oedran 25-44 a 45-64.Bydd y gyfres yn dychwelyd i’r Alpau yn y flwyddyn newydd gyda 6 rhaglen y tro yma a hyd yn oed mwy o ddarpar gariadon. Fe brofodd Apres Amour y vodcast oedd yn dilyn y rhaglen llinol yn arbrawf ddigidol llwyddiannus, a bydd hwn hefyd yn dychwelyd.

Fformat newydd arall ar y llechen eleni yw Y Busnes Bwyd, gyda wyth person busnes yn ceisio am becyn mentora a gwobr ariannol i’w helpu i ddyrchafu eu busnes. Tudur Owen (ei hun yn berchennog busnesau bwyd) fydd wrth y llyw.



Amour a Mynydd

# Newyddion a Materion Cyfoes

**Gyda thwf aruthrol yn nifer y bobol sy'n derbyn y newyddion yn aml blatfform, byddwn yn adeiladu ar y gwaith o gryfhau'r gwasanaeth Newyddion Digidol drwy ail strwythuro'r tîm. Mae'r gwaith a wnaed yn barod wedi gweld ein platfform Tik Tok ac Instagram yn tyfu a hynny ymysg pobol iau. Mae 71 y cant o'n defnyddwyr ar Instagram yn iau na 45 oed a 57 y cant yn iau na 34 oed. Y cam eleni yw ychwanegu ymdrech i YouTube fel bod cartref i'n holl ddeunydd Newyddion a Materion Cyfoes.**

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r BBC, sy'n cynhyrchu'r gwasanaeth newyddion teledu, i sicrhau darpariaeth ar raglen Newyddion S4C sy'n unigryw. Bydd yn parhau i gynnig cymysgedd o straeon Cymreig o bwys, ymateb i straeon mawr yn fyd eang, yng ngwledydd Prydain, ac wrth gwrs straeon lleol poblogaidd. Mae'r rhaglen wedi anfon gohebwyr i'r Dwyrain Canol, America ac Wcrain i adrodd ar ddigwyddiadau newyddion o bwys.

Bydd dwy ddogfen materion cyfoes unigol BYD Eithafol yn cael eu cyflwyno gan Maxine Hughes. Un yn edrych ar dwf yr asgell dde eithafol ymhlith dynion ifanc Cymru, a'r ail yn cymharu triniaethau canser yng Nghymru ac America, drwy stori bersonol Maxine sydd ei hun yn derbyn triniaeth am ganser y fron ar hyn o bryd.

Bydd rhaglen Bwystfil o Brifathro yn dogfennu, am y tro cyntaf, ymchwiliad 10 mlynedd gan ddau o newyddiadurwyr mwyaf profiadol Cymru. Mi fydd yn datgelu sut y caniatawyd i Neil Foden, pennaeth amlwg ac uchel ei barch, ddringo i safle o fraint, wrth guddio gwir erchylltra ei weithredoedd ei hun.

Byddwn yn parhau i sicrhau dadansoddi gwleidyddol yn ein cyfresi Y Byd yn ei Le a Phawb a'i Farn. Byddwn yn cyhoeddi rhifynnau arbennig o'r Byd yn ei Le ar ffurf "vodcast" yn ddigidol yn gyntaf yn y misoedd pan na fydd y rhaglen ar yr awyr. Ac mae cyfres Y Byd ar Bedwar yn dychwelyd gydag amrywiaeth o raglenni fydd yn dal pobl i gyfri, a sicrhau ystod eang o bynciau sy'n apelio at gynulleidfa amrywiol o ran oedran a statws cymdeithasol.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn paratoi ar gyfer sylw cynhwysfawr i Etholiad Senedd Cymru yn 2026, gan gynnwys rhaglenni dros nos gyda chanlyniadau a dadansoddi. Mae hyn yn adeiladu ar sylw S4C i etholiadau blaenorol ac yn adlewyrchu ein huchelgais i sefydlu S4C fel cartref i ddigwyddiadau cenedlaethol mawrion.

Eleni bydd Ffermio yn parhau â'u rhaglenni arferol wythnosol ond hefyd yn rhoi cyfle i wylwyr gael blas ar Sioe Môn a Sioe Sir Benfro gyda rhaglenni nosweithiol arbennig o'r lleoliadau fydd yn rhan o arlwy haf y sianel. Ac yn sgil perfformiad cryf Teulu Shadog ymysg cynulleidfa C2DE bydd cyfres arall yn dychwelyd yn yr Hydref.

Bydd ein gwasanaeth newyddion i blant Newyddion Ni, yn parhau i addysgu plant ar rai o straeon mawr y byd, gan roi sylw arbennig i straeon yn ymwneud ag amrywiaeth, a chynaliadwyedd. Eleni hefyd byddwn yn darparu rhaglenni arbennig o Eisteddfod yr Urdd, ac ar bêl-droed merched cyn gemau Ewro 2025. Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd i ymestyn allan at wahanol ysgolion.



Y Byd yn ei Le

## Ffeithiol

**Unwaith eto eleni bydd gennym ddogfennau trawiadol, cyfresi poblogaidd yn dychwelyd a chyd-gynyrchiadau uchelgeisiol ar ein llechen ffeithiol.**

Byddwn yn darlledu cyfres o ddogfennau sengl gwir drosedd fel Ruth Ellis: Y Cariad a'r Crogi sy'n adrodd stori y ferch olaf i gael ei chrogi ym Mhrydain. Yn ferch o'r Rhyl bydd y ddogfen yn datgelu gwaith ymchwil newydd a chyfweliadau gan unigolion nad ydynt erioed wedi siarad o'r blaen. Bydd Pwy Laddodd Harry a Megan Tooze? Yn dilyn Heddlu de Cymru wrth iddynt ail agor yr achos i lofruddiaeth ddwbl y cwpwl priod ym mhentref gwledig Llanhari yn 1993. Hefyd yn rhan o'r tymor trosedd bydd ffilmiau dwy bennod o hyd, Con Jones, Twyllwr Gorau'r Byd sy'n mynd ar drywydd un o'r twyllwyr mwya' proliffig o Gymru fu'n ffugio sieciau, yn esgus bod yn ddoctor ac yn weinidog ymysg troseddau eraill. Hefyd bydd Corff yn y Cae : Pwy Laddodd Hilda Murrell? Yn edrych ar lofruddiaeth yr ymgyrchydd gwrth niwclear ym 1984 a'r theorïau mai cynllwyn gan yr awdurdodau oedd ei marwolaeth.

Un o'n cyfresi mwyaf llwyddiannus y llynedd ar bob platfform oedd Y Llinell Las. Bydd y gyfres yn dilyn swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn dychwelyd yn y gwanwyn. A bydd Curo Tu Ôl i'r Drws yn raglen heriol fydd yn adrodd straeon dioddefwyr cam-drin domestig a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Heddlu Dyfed Powys i sicrhau cyfiawnder i bob dioddefwr.

Yn Y Chwiban Olaf byddwn yn dilyn Joe Allen yn ei flwyddyn olaf fel chwaraewyr pêl-droed proffesiynol ac yn dyst i'w benderfyniad i roi'r gorau i chwarae. Bydd Dŵr Du yn edrych nôl ar un o drychinebau amgylcheddol mwyaf Cymru, tra bydd Iolo Williams yn canolbwyntio ar drysorau prin y genedl yn Natur Bregus Cymru, a bydd Y Crwydryn yn ffilm nodwedd sy'n ddathliad o ganu gwlad yng Nghymru

Byddwn hefyd yn dathlu hanes Cymru drwy Cynefin, Cyfrinachau'r Llyfrgell, ac chyfres arall o Stori'r Iaith gyda Ian Gwyn Hughes, Ruth Jones, Guto Harri a Sarra Elgan. Hanes fydd testun Cyfrinachau Carcharor Rhyfel hefyd, y tro hwn stori'r Cymro oedd dan glo yn Stalag Luft adeg y digwyddiadau a anfarwolwyd yn ffilm 'The Great Escape'.

Mae ein cydweithio a chyd-gynhyrchu gyda darlledwyr eraill yn parhau. Mae Cyfrinachau'r Llong gyda Sean Fletcher yn gynhyrchiad ar y cyd gyda Sky History yn y DU a BBC Select yng Ngogledd America ac yn archwilio darn o hanes arbennig yng Nghymru sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Hanes a gwyddoniaeth yw testun Y Gronyn Gobaith – Cymry CERN sy'n gyd-gynhyrchiad gydag ARTE, ac ym maes trosedd mae Seal Bay yn gyd gomisiwn gyda BBC Cymru.

Bydd ein harlwy o gynnwys craidd yn parhau gyda Dechrau Canu Dechrau Canmol, a Cefn Gwlad a bydd y garddwr adnabyddus Adam Jones yn ymuno a thîm Garddio a Mwy. Cafodd Heno a Pnawn Da eu hail lansio llynedd a bellach mae yna dim cyfarwydd o brif gyflwynwyr a wynebau newydd fel James Lusted a Paul Stumpey Davies yn gohebu yn gyson.



Garddio a Mwy




## Pobl Ifanc

**Mae Hansh yn parhau i ddenu a diddanu cynulleidfa 16-24 ac yn tyfu yn ei dilyniant ag ymwneud fis ar fis. Bu'n flwyddyn llwyddiannus o ehangu'r cyrhaeddiad ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gyda TikTok ac Instagram yn denu 280,000 o sesiynau gwylio ar gyfartaledd bob mis.**

Yn dilyn llwyddiant Strip, a Tanwen & Ollie eleni, mi fydd dwy gyfres arall eleni gan barhau i wthio ffiniau a chodi ambell ael! Bydd sawl cyfres newydd hefyd yn ymddangos wrth i ni esblygu ac ehangu ein cynnwys ffurf hir. Mi fyddwn am y tro cyntaf ar Hansh yn dod a chyfres 'fixed rig' wrth ddilyn defnyddwyr ifanc di-gartre GISDA yng Ngwynedd. Mi fydd Bar Hansh yn mentro allan i Groeg i redeg y bar Cymreig cyntaf ar y strip yn Zante. Bydd y gyfres heriol Ar Led, fydd yn cael ei ffilmio yn y gogledd ddwyrain yn plethu addysg rhyw a hiwmor. Tra bydd Cymru ar Gyffuriau yn gyfle i dyrchu i fyd cyffuriau Cymru fodern gyda Zahrra Erami.

Mae datblygu talent yn parhau i fod yn thema a thestun dathlu i Hansh. Yn dilyn peilot llwyddiannus mi fyddwn ni'n rhyddhau'r gyfres gomedi Bwmp. Wedi ei sgwennu gan Ciaran Fitzgerald gyda Jenna Preece yn serennu, hon fydd y gyfres gyntaf ar S4C sydd wedi ei ysgrifennu gan unigolyn a Cerebal Palsy ac yn cael ei arwain gan actores anabl.

Mi fuodd Caryl Burke yn datblygu ei chrefft drwy gyflwyno comedi byr RSVP, ac mae hi yn un o'r comediwyr a ddewiswyd ar gyfer cynllun hyfforddiant mewn cydweithrediad a Little Wander a Channel 4. Mi fydd wynebau cyfarwydd ffurf fer Hansh, Jac a Gwion, yn datblygu sgript ffurf hir o'r enw Gwagle. Ac mae'r ffilm fer Teth eisoes yn gwneud argraff fawr mewn gwyliau ffilm ledled y byd.



Hafiach

## Plant

**Mae cynnwys plant S4C yn dal i fod yr un mor bwysig ag erioed i'r brif strategaeth er mwyn diddanu ein gwylwyr iau, denu siaradwyr newydd i mewn i'n cynnwys ni a chynnal yr iaith. A ninnau'n cyfleu 40 awr o gynnwys plant bob wythnos yn ogystal â rhoi cynnwys ar YouTube Cyw a'r platfformau plant eraill mae yna dipyn i ddiddanu ein gwylwyr iau a'u teuluoedd.**

Yn rhan o arlwy Cyw ac yn dilyn llwyddiant y gyfres oll gynhwysol 'Harri'n Helpu', lle gwelir partneriaeth gyda'r gymdeithas Maketon a phlentyn o ysgol arbennig Pendalar yn y brif ran, fe fydd mwy o helyntion Harri mawr a Harri bach yn dod i'r sgrin yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Fe fydd cyfle i wylwyr gael eu swyno hefyd gan y byd tanddwr wrth ymuno gyda Mari'r Forforwyn a'i byd o dan y môr. Cyfres sydd wedi deillio o'r gyfres 'Secrets of the Aquarium' i BBC2.

Yn dilyn poblogrwydd Ben Dant fe fydd y mor leidr hoffus unwaith yn rhagor yn crwydro ysgolion Cymru yn y gyfres Bendibwmbwls gan bwysleisio pwysigrwydd ail-gylchu. A bydd y ddrama newydd hwyliog Gwyliau sy'n troi o gwmpas anturiaethau doniol staff parc gwyliau yn dod i'r sgrin nes ymlaen yn y flwyddyn.

I Stwnsh cawn gyfres antur eithafol Epig. Bydd y gyfres stiwdio Taclo'r Tywydd sy'n gyd-weithrediad fformat a set gyda chwmni Fibin Media a TG4 o Iwerddon ar y sgrin yn yr Hydref. Yn y maes drama daw ail gyfres o Y Coridor i'r sgrin a bydd Itopia nôl ddiwedd y flwyddyn.

Ac i wylwyr 13–15 oed bydd y ddrama Hafiach am fywyd pobl ifanc yn y Rhyl i'w gweld ddechrau'r Haf. Y gyntaf mewn cynllun drama ar gyfer yr oedran arbennig hwn.

Fedrwn ni ddim anghofio am ein animeiddiadau wrth gwrs a stori fawr 2025 yw y bydd y Smyrffs unwaith yn rhagor ar S4C wedi 40 mlynedd. Braf bydd gweld y cymeriadau ar eu newydd wedd yn ôl ar S4C unwaith yn rhagor.

## Digidol

**Mae S4C yn cyhoeddi cynnwys ar draws platfformau digidol yn ddyddiol gan gyrraedd cannoedd ar filoedd o bobl, yng Nghymru a thu hwnt. Mae ein presenoldeb cynyddol ar y llwyfannau yma yn rhan allweddol o drawsnewid digidol gyda'r nod o ddenu cynulleidfaoedd newydd a gwahanol i S4C ac i'r Gymraeg.**

Gan adeiladu ar lwyddiant cynnwys digidol fel Y Fficsar, Apres Amour a Mynydd ac Yr Anthem yn 2024-25, byddwn yn parhau i ddatblygu cynnig S4C ar YouTube gan gomisiynu cynnwys cyffrous digidol yn gyntaf wedi ei deilwra ar gyfer y platfform. Bydd ffrydio byw yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n strategaeth gyhoeddi ddigidol, gan gyfrannu'n sylweddol at amser gwylio cyffredinol. Mae cerddoriaeth, adloniant, chwaraeon a gwleidyddiaeth wedi dod yn themâu craidd ar gyfer ein digwyddiadau byw ar YouTube, gan wella ymgysylltiad â'r gynulleidfa ac ehangu apêl ein cynnwys.

Un o brif amcanion cynnwys digidol yn gyntaf yw ymgysylltu â gwylwyr iau. Trwy barhau i roi llwyfan ddigidol i ystod eang o leisiau a phrofiadau cenedlaethol, o ddigwyddiadau fel Pride Cymru ac Eisteddfod yr Urdd i gynnwys chwaraeon fel ymladd MMA a'r Tour de France mae'r data yn profi ein bod yn llwyddo i gyrraedd y demograffeg hwn ar blatfform YouTube ac ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau is-frandiau allweddol S4C ar blatfformau digidol (e.e. Hansh, Cyw, Chwaraeon a Dysgu Cymraeg) a lansio brand cerddoriaeth newydd S4C Miwsig. Bydd buddsoddiad pellach yn y maes hwn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod ar flaen y gad gydag addasu i dueddiadau gwylwyr, mewn tirwedd cyfryngol cystadleuol sy'n esblygu'n gyflym.

Tour de France



# 2022–27 Strategaeth

# Ar 17 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd Unedol strategaeth S4C ar gyfer y pum mlynedd o 01 Ebrill 2022.

**Ers 01 Ebrill 2022, daw holl gyllid cyhoeddus S4C drwy'r Ffi Drwydded. Mae'r sicrwydd cyllidebol hwn hyd at ddiwedd Mawrth 2028 – ynghyd â'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Ionawr 2022, sef £7.5m y flwyddyn (a oedd yn sefydlog am y ddwy flynedd gyntaf ac sy'n cynyddu yn unol â chwyddiant o Ebrill 2024) – yn cynnig cyfle i ni drawsnewid S4C ar gyfer y dyfodol.**

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar esblygu S4C o fod yn Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus traddodiadol i Gyhoeddwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n berthnasol yn y dirwedd gyfryngau rhyngwladol modern.

Mae'n gofyn i S4C drawsnewid, gan symud o ystyriaethau 'llinol neu ddigidol' er mwyn comisiynu cynnwys i'w ddosbarthu ar draws toreth o lwyfannau. Yn hynny o beth, mae'n gynllun beiddgar sy'n herio'r modelau traddodiadol mae S4C a darlledwyr eraill wedi eu dilyn ers degawdau.

Byddwn felly yn ail-flaenoriaethu ein gwariant tuag at gynnwys mwy aml-lwyfan, gan gael y gwerth gorau posib am arian i'n cynulleidfa ar draws amryw o lwyfannau, gan gynnwys ein sianel linol bresennol.

## Adolygu'r Strategaeth

Mae strategaeth gorfforaethol S4C ar gyfer 2022–27 wedi bod yn sail i'n gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gan lywio ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau wrth i ni barhau i sicrhau fod y Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd pawb yng Nghymru drwy ddarparu cynnwys beiddgar ac arloesol sy'n dathlu'n diwylliant cyfoes.

Fodd bynnag, wrth edrych tua'r dyfodol, ac yn sgil penodi Geraint Evans yn Brif Weithredwr parhaol, cynhaliodd S4C adolygiad o'n cyfeiriad strategol.

Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2025, cymeradwyodd y Bwrdd, ar argymhelliad y Prif Weithredwr, gynnal adolygiad o'r strategaeth gorfforaethol i sicrhau bod ein cyfeiriad ar gyfer y cyfnod 2025–30 yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r sector darlledu a'r cyfryngau.

Gyda Strategaeth 2022–27 bellach wedi bod mewn grym ers tair blynedd, nododd y Prif Weithredwr ei bod yn briodol adolygu'r cynnydd hyd yma a datblygu strategaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Bydd Strategaeth 2030 yn adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gan y strategaeth flaenorol, gan adnewyddu ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau yn unol â'n pwrpas a'n cenhadaeth.

Yr Adroddiad Blynyddol hwn felly fydd y tro olaf y byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn Strategaeth 2022–27.

Ar y Ffin



# Ein Blaenoriaethau Strategol 2022–27




Clic

## Amlygrwydd ac Argaeledd

**Fel gweddill y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mae gwasanaeth teledu llinol S4C yn dibynnu'n helaeth ar yr amlygrwydd y mae'n ei gael ar deledu digidol daearol, cebl a lloeren yng Nghymru. Mae sicrhau bod gwylwyr yng Nghymru yn gweld y gwasanaethau sydd yn berthnasol iddyn nhw ar frig y canllawiau rhaglenni electronig yn rhan bwysig o'r broses o gael y gwerth gorau o'r buddsoddiad a wnaed yn y cynnwys. Wrth i arferion gwylio ddatblygu a dibynnu fwyfwy ar lwyfannau digidol, mae'n hanfodol bod S4C yn cael amlygrwydd ar ryngwynebau defnyddwyr digidol a hynny ar delerau teg a rhesymol.**

Mae ein strategaeth yn blaenoriaethu sut rydym yn dosbarthu ein cynnwys ar lwyfannau ehangach na'r gwasanaeth llinol traddodiadol er mwyn ymateb i ofynion y gynulleidfa.

## Cymru a'r Gymraeg

**Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i S4C a'i gwasanaethau. Ein cynnwys yn yr iaith Gymraeg yw'r rheswm mae ein cynulleidfa am ddod atom ni a rhaid sicrhau eu bod nhw am dreulio amser ac aros gyda'n cynnwys.**

Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda chynnwys perthnasol felly'n parhau'n flaenoriaeth sylfaenol i S4C ac yn greiddiol i'n bodolaeth. Mae angen sicrhau ein bod yn hwyluso mynediad i a defnydd o'r Gymraeg i bawb o bob oed a gallu ieithyddol.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg' yn pwysleisio pwysigrwydd S4C yn hynny o beth ac yn ddi-os, mae gan S4C rôl flaenllaw i'w chwarae mewn arwain y ffordd ar draws tair prif thema strategaeth Cymraeg 2050 sef: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i sicrhau ffyniant y Gymraeg.

Wrth gadarnhau setliad ariannol S4C o Ffi'r Drwydded ar gyfer y cyfnod o 01 Ebrill 2022, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd gydnabod y cyfraniad allweddol y gall S4C gynnig at gyflawni strategaeth Cymraeg 2050. Rydym felly'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, a phartneriaid allweddol eraill ar gyflawni'r strategaeth hollbwysig hon.

Drwy sefydlu S4C fel cartref profiadau cenedlaethol Cymru, gallwn berchnogi digwyddiadau cenedlaethol – o gerddoriaeth i chwaraeon – ac arwain y sgwrs o'u cwmpas. Yn sgil y digwyddiadau cenedlaethol hyn, gallwn ddenu cynulleidfaoedd mwy amrywiol a siaradwyr newydd, a chynnig mynediad iddynt i ystod ehangach o gynnwys S4C na fyddent fel arfer yn eu hystyried, a thrwy hynny yn cynyddu faint o Gymraeg maent yn ei weld a'i glywed.



Heno

# Ein Cynulleidfa

**Mae'r byd darlledu yn fwy cystadleuol nag erioed o'r blaen, gydag amryw o gyhoeddwyr rhyngwladol bellach yn ceisio denu cynulleidfaoedd i'w cynnwys ar draws amryw o blatfformau.**

Mae'n rhaid felly i greadigrwydd ac anghenion ein cynulleidfa fod wrth wraidd pob dim mae S4C yn ei wneud – yn ganolbwynt i'n cyfleoedd a phenderfyniadau strategol, ac yn greiddiol i'r ffordd mae S4C yn comisiynu, amserlennu, dosbarthu, datblygu, gwerthu a chyfathrebu. Creadigrwydd ddylai yrru ein penderfyniadau.

Bydd deall ein cynulleidfa drwy gasglu data perthnasol ar eu harferion yn elfen hollbwysig o'r broses, gan ganiatáu i ni bersonoli profiadau unigolion wrth iddynt ymwneud â chynnwys S4C. Yn yr un modd, byddwn yn parhau i gasglu adborth cyson ar werthfawrogiad a theimladau tuag at S4C gan wahanol grwpiau cynrychioliadol, ynghyd ag edrych ar berfformiad cyffredinol ein cynnwys.

Mae gennym syniad da o ddemograffeg ein cynulleidfa, ond mae angen parhau gyda'r dadansoddi a'r craffu i ddod o hyd i nodweddion pellach amdani.

Bydd yr holl ddata a gasglwn yn cael ei dynnu ynghyd mewn dashfwrdd clir, i'w ddefnyddio i lywio ein holl benderfyniadau – er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn er budd y gynulleidfa.

Drwy ddod i nabod ein cynulleidfa'n well, a sefydlu perthynas â nhw fel unigolion, gallwn deilwra ein cynnwys i sicrhau ein bod yn bodloni eu hanghenion.

Yn ychwanegol, bydd rhoi ffocws arbennig ar gyrraedd cyfran fwy o wylwyr iau ar aelwydydd iaith gymysg yn elfen bwysig o ehangu'r gynulleidfa, ac yn helpu i sicrhau perthnasedd barhaus S4C mewn tirwedd ieithyddol sy'n newid o hyd.

Prosiect Pum Mil



Deian a Loli



# Cyhoeddi ein Cynnwys

**Mae'r cyfuniad o lwyfannau digidol newydd, ynghyd â darparwyr cynnwys byd-eang newydd, wedi chwyldroi arferion gwylio yng Nghymru fel ym mhobman arall. Mae cynnwys Cymraeg a ddosberthir gan S4C yn gorfod cystadlu gyda chynnwys gan rai o brif gwmnïoedd cynhyrchu'r byd.**

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ein cynnwys – yn arbennig ein dramâu – yn cael eu gwerthu i ddarlledwyr a llwyfannau eraill ar draws y byd. Rydym am i hyn barhau, drwy gomisiynu cynnwys o'r safon uchaf sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol.

Ar yr un pryd, rhaid i ni ymestyn ein cyrhaeddiad a thyfu effaith ein gwasanaeth o fewn cymunedau. Drwy gomisiynu cynnwys apelgar sy'n ennyn sgwrs, ein bwriad yw cyrraedd cynulleidfa ehangach yn lleol. Yn hynny o beth, byddwn yn parhau i flaenoriaethu cynnwys drama, chwaraeon, a phlant – sydd eisoes wedi profi llwyddiant wrth ddenu cynulleidfa ehangach i S4C.

Rhaid i gynnwys S4C ar ba lwyfan bynnag y mae'n cael ei ddosbarthu fod yn afaelgar ac o ansawdd uchel. Rhaid hefyd dosbarthu cynnwys S4C yn y ffurfiau priodol ac ar y llwyfannau sy'n boblogaidd gyda defnyddwyr. Nid ydym yn meddwl am S4C fel sianel deledu llinol o hyn allan, ond fel dosbarthydd cynnwys Cymraeg ar amrywiaeth o lwyfannau (gyda'r gwasanaeth llinol yn un o'r llwyfannau hynny).

Yn sgîl yr esblygiad hwnnw, bydd ein strategaeth gynnwys hefyd yn esblygu i wasanaethu ein cynulleidfa yn well. Gan ddefnyddio data defnyddwyr i yrru ein penderfyniadau comisiynu byddwn yn cyhoeddi cynnwys beiddgar, difyr sy'n ceisio bodloni anghenion ein cynulleidfa ac yn ysgogi'r meddwl.

Byddwn hefyd yn ystyried y gynulleidfa darged ar gychwyn y broses gomisiynu, er mwyn penderfynu ar ba lwyfan neu gyfuniad o lwyfannau y dylid cyhoeddi'r cynnwys at eu sylw er mwyn cyrraedd y gyfran fwyaf posib o'r gynulleidfa honno. Bydd amrywio'r broses gomisiynu yn y modd yma'n hwyluso ein hymrwymiad i greu mwy o gynnwys digidol yn gyntaf a digidol yn unig.

Yn ychwanegol, bydd y cyfathrebu a'r hyrwyddo o gwmpas y comisiwn hefyd yn cael eu trafod ar gychwyn y broses ddatblygu, er mwyn sicrhau bod pecyn creadigol yn cael ei ddatblygu ar y cychwyn cyntaf ar gyfer bodloni anghenion y gynulleidfa, a'u cyrraedd yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chynrychiolaeth

**Mae amrywiaeth, cynhwysiant a chynrychiolaeth yn ganolog i holl weithgaredd S4C.**

Rhaid i bawb yng Nghymru a thu hwnt sy'n gwylio cynnwys S4C, ar unrhyw lwyfan, deimlo eu bod nhw yn cael eu hadlewyrchu yn ein hamrywiaeth o gynnwys.

Rydym hefyd am weld ein gweithlu a gweithluoedd ein cyflenwyr yn cynnwys yr amrywiaeth ehangaf o bobol, ac rydym yn gweithio gyda chwmnïoedd cynhyrchu a phartneriaid eraill i ddenu talent newydd i'r sector.



Annibendod



## Cefnogi'r Economi

**Fel sefydliad cyhoeddus, mae gan S4C gyfrifoldeb i sicrhau'r budd mwyaf i Gymru o'n dylanwad a'n hadnoddau.**

Bydd creu a chynnal partneriaethau pwrpasol gyda darlledwyr eraill ac amryw sefydliadau eraill yn rhan gynyddol bwysig o ddyfodol S4C. Mae angen gweithredu mewn modd mwy strategol a hir dymor gan fachu cryfderau a galluoedd eraill o wahanol sectorau i yrru ein creadigrwydd ac arloesedd ac i'n cynorthwyo i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf.

Law yn llaw â'r strategaeth gorfforaethol hon, rydym hefyd wedi datblygu strategaeth ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C. Bydd y strategaeth fasnachol hon yn sicrhau ein bod yn adnabod partneriaid ar draws y byd i gael marchnadoedd newydd i'n cynnwys, ac yn rhoi pwyslais ar gyd-gynhyrchu cynnwys o'r ansawdd uchaf yng Nghymru er mwyn dod â buddsoddiad ychwanegol i'r sector a'r gwerth gorau i gynulleidfa S4C.

Bydd cynnal a chadw partneriaethau diddorol – yng Nghymru, ac yn rhyngwladol – yn ffordd effeithiol o ddatblygu talent, gwella sgiliau, sicrhau amrywiaeth ac ymbweru cymunedau Cymru i deimlo eu bod nhw am fod yn rhan o S4C.

Marw Isio Byw

# Pileri Strategaeth 2022–27

**Ar gyfer y cyfnod 2022–27, cytunwyd ar gyfres o bileri i gwmpasu ein blaenoriaethau strategol**

## Dod i nabod, a chreu perthynas, gyda'n cynulleidfa

- **Defnyddio data i sicrhau fod y gynulleidfa'n sail i'n holl benderfyniadau.**
- **Deall ein cynulleidfa a phersonoli'u profiadau.**
- **Creu dashfwrdd clir i fesur ein gwerth a'n perfformiad.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**

- ✓ Diffinio sut rydym yn mesur perfformiad, gan osod targedau clir y gallwn eu mesur mewn modd dibynadwy;
- ✓ Creu dashfwrdd a sefydlu rhaglen 'gwrando ar ein cynulleidfa'; a
- ✓ Defnyddio data i bersonoleiddio profiadau, a chreu perthynas gyda'n cynulleidfa.






## Creu sŵn gyda chynnwys beiddgar

- **Deall ein cynulleidfa a chynhyrchu cynnwys sy'n creu'r sgwrs ac yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol.**
- **Ymestyn ein cyrhaeddiad a thyfu effaith ein gwasanaeth o fewn cymunedau.**
- **Blaenoriaethu drama, chwaraeon a phlant.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**

- ✓ Dilyn y model: Adnabod y gynulleidfa > Comisiynu cynnwys sy'n apelio at y gynulleidfa > Cyhoeddi ar y llwyfan mwyaf addas i gyrraedd y gynulleidfa;
- ✓ Diffinio ein blaenoriaethau cynnwys ar sail anghenion y gynulleidfa;
- ✓ Datblygu strategaethau cynnwys hir-dymor – ar gyfer genres drama, chwaraeon, a phlant; ac yn
- ✓ Creu cynllun ar gyfer partneriaethau, cyd-gynyrchiadau a datblygu marchnadoedd rhyngwladol.

## “Darparu dy gynnwys di ar dy lwyfan di”

- **Sicrhau amlygrwydd ac argaeledd ar draws y prif lwyfannau gwylio.**
- **Amserlennu ein cynnwys ar draws pob llwyfan, yn hytrach na bod yn ‘llinol-yn-gyntaf’.**
- **Meithrin perthynas fasnachol gyda’n partneriaid.**
- **Datblygu talent i gyfleu cynnwys digidol.**
- **Sicrhau amlygrwydd i’n cymunedau amrywiol ar, ac oddi ar, y sgrin.**

**Er mwyn gwireddu’r amcanion hyn, byddwn yn:**

✓ Amserlennu cyhoeddi cynnwys ar draws pob llwyfan;
✓ Cynyddu argaeledd ac amlygrwydd ein cynnwys ar draws llwyfannau gwylio cyfoes;
✓ Mireinio’n prosesau busnes mewnol i adlewyrchu’n strategaeth gyhoeddi newydd; a
✓ Gweithio gyda’r sector i ddatblygu strategaeth hyfforddiant.





## Sefydlu’n hunain fel cartref profiadau cenedlaethol Cymru

- **Perchnogi digwyddiadau cenedlaethol a chynnal y sgwrs o’u cwmpas; o gerddoriaeth i chwaraeon.**

**Er mwyn gwireddu’r amcan hwn, byddwn yn:**

✓ Cynllunio rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau ar draws Cymru, gan sicrhau presenoldeb amlwg i S4C;
✓ Datblygu ein defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol i greu sŵn, a chyfathrebu ein pwrpas; a
✓ Lansio ein brand newydd.

## “Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni gyd” – gweithio gydag eraill i gyrraedd y filiwn

- **Gweithio gyda’n partneriaid i gyrraedd y filiwn a dyblu defnydd, a sicrhau ein bod yn cael ein gweld fel partner amlwg yn cyfrannu at ffyniant y Gymraeg.**

**Er mwyn gwireddu’r amcan hwn, byddwn yn:**

✓ Creu strategaeth partneriaethau clir, i ddiffinio a ffurfioli ein perthynas gyda’n partneriaid; a
✓ Chwarae rôl flaengar yn nhwf yr iaith Gymraeg, ac arwain y ffordd ymlaen.






## Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth

- **Sicrhau ein bod yn adlewyrchu cymunedau Cymru drwy osod targedau amrywiaeth clir, yn fewnol ac ar draws ein cynyrchiadau.**

**Er mwyn gwireddu'r amcan hwn, byddwn yn:**

- ✓ Gweithio gyda'r sector i sicrhau ein bod yn adlewyrchu ein cymunedau yn eu holl amrywiaeth; ac yn
- ✓ Gosod targedau clir ar gyfer amrywiaeth yn ein cynnwys, a mesur ein perfformiad yn eu herbyn.

## Creu gwerth trwy ein hadnoddau

- **Creu cynllun corfforaethol clir gydag amcanion penodol.**
- **Canfod cyfleoedd masnachol i helpu ni wireddu gwir werth ein cynnyrch.**

**Er mwyn gwireddu'r amcanion hyn, byddwn yn:**

- ✓ Datblygu strategaeth fasnachol newydd;
- ✓ Adnabod marchnadoedd amgen ar gyfer ein cynnwys;
- ✓ Mireinio ein prosesau cyllid i adlewyrchu'n strategaeth aml-lwyfan newydd;
- ✓ Diffinio ein 'rhestr siopa', ac amddiffyn ein hawliau; a
- ✓ Mireinio'n prosesau caffael i adlewyrchu ein strategaeth.





## Ysbrydoli a meithrin talent yng Nghymru

- **Cefnogi'n partneriaid yn y sector i ddatblygu talent newydd yng Nghymru, drwy bartneriaethau ar draws y sector creadigol.**

**Er mwyn gwireddu'r amcan hwn, byddwn yn:**

- ✓ Buddsoddi mewn adnoddau er mwyn ein galluogi i ddeall anghenion cwmnïau cynhyrchu, a'r sector yn ehangach; a
- ✓ Sicrhau llwybr clir i dalent newydd, a datblygu ein sgiliau a'n gallu i gyflawni'n strategaeth.

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol

**Roedd dwy brif flaenoriaeth i S4C yn ystod 2024–25: cryfhau diwylliant mewnol y sefydliad a pharhau hefyd i ddatblygu ein harlwy a'n gwasanaethau yn unol â Strategaeth gorfforaethol 2022-27.**

**Ymunodd Sioned Wiliam fel Prif Weithredwr dros dro ym mis Ebrill 2024, gan arwain ar Gynllun Gweithredu'r Bwrdd yn sgil Adroddiad Capital Law. Fe gynigiodd arweinyddiaeth sefydlog wrth i broses recriwtio fynd rhagddi ar gyfer penodiad parhaol – proses a arweiniodd at benodi Geraint Evans, a gychwynnodd fel Prif Weithredwr ym mis Ionawr 2025.**

**Law yn llaw â'r gwaith cadarnhaol ar ddiwylliant mewnol a sgyrsiau agored ar draws y sefydliad, fe ganiataodd yr arweinyddiaeth gyson hon i swyddogion S4C ganolbwyntio ar gyflawni a gwneud cynnydd da ar draws ein blaenoriaethau strategol drwy gydol y flwyddyn.**

**Rydym yn ddiolchgar i staff S4C ac i'n partneriaid am eu hymrwymiad parhaus, ac i'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) am y cyllid ychwanegol o Ffi'r Drwydded. Ers Ebrill 2022, mae hyn wedi ein cynorthwyo i gyflawni'r Strategaeth ac i drawsnewid ein cynnig i'r gynulleidfa.**

**Yn Ionawr 2025, ac yn sgil gwerthuso'r cynnydd a wnaed, cytunodd y Bwrdd i ddatblygu strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2025–30. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn nodi diwedd y cyfnod y bydd S4C yn adrodd yn ffurfiol yn erbyn yr wyth piler strategol gwreiddiol a gafodd eu mabwysiadu yn 2022.**



Sian Phillips yn 90

## Creu sŵn gyda chynnwys beiddgar

Yn un o gonglfeini Strategaeth 2022–27, parhaodd S4C yn 2024–25 i gynnig cynnwys beiddgar, uchelgeisiol ac arloesol a oedd yn adlewyrchu profiadau a safbwyntiau Cymreig, gan greu sŵn yng Nghymru a thu hwnt.

Roedd drama unwaith eto'n ganolog i'n harlwy o gynnwys - gyda dwy ddrama ddiweddar ymhlith brig rhestr y mwyaf poblogaidd erioed gan S4C ar yr iPlayer: Cleddau ac Ar y Ffin. Roedd hyn yn adlewyrchu ansawdd y cynyrchiadau, y sylw eang i'r cyfresi adeg eu cyhoeddi, a'r galw cynyddol am ddrama o safon yn y Gymraeg ar lwyfannau ar alw.

O ran adloniant a ffeithiol, cyflwynwyd cyfresi newydd sbon a gafodd ymateb cadarnhaol gan gynulleidfaoedd ac yn y wasg. Roedd Amour a Mynydd, Marw gyda Kris, a Cyfrinachau'r Llyfrgell i gyd yn cynnig fformatau ffres ac arloesol, gan adlewyrchu bywyd cyfoes yng Nghymru a thu hwnt mewn modd difyr a deniadol. Cafodd Y Llais a Gogglebocs Cymru – fformatau wedi'u prynu – eu haddasu'n efffeithiol i gynulleidfaoedd Cymreig, gyda Y Llais yn enwedig yn profi'n lwyddiant eithriadol ymhlith cynulleidfaoedd iau: roedd 55% o'r gynulleidfa dan 45 oed.

Cafwyd ymateb arbennig o gadarnhaol gan ein gwylwyr i'n arlwy dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd, gyda ffigurau gwylio'n 50% yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol – perfformiad sy'n tanlinellu grym cynnwys poblogaidd, newydd ochr yn ochr â'r hen ffefrynnau.

Mae'n galonogol felly gweld bod lefelau gwerthfawrogiad ein cynnwys wedi aros yn uchel drwy gydol y flwyddyn – gyda rhaglenni fel Cofio Dewi Pws, Pobol y Cwm: Dathlu 50, ac Yr Actor a'r Eicon i gyd yn ennill sgorau gwerthfawrogiad yn uwch na 90%.

Roedd y llwyddiannau hyn yn cyfrannu at allu S4C i gynnal cyrhaeddiad ein cynnwys, a hynny mewn cyd-destun lle bo cynnal cyrhaeddiad yn her fawr i bob darlledwr. Yn ogystal, roedd y ffigurau ar gyfer oedrannau 45–64 yng Nghymru wedi cynyddu i 104,000, sef y lefel uchaf ers 12 mlynedd.

## "Darparu dy gynnwys di ar dy lwyfan di"

Cryfhaodd S4C ein presenoldeb ymhellach yn 2024–25 ar draws ystod eang o lwyfannau, gan sicrhau bod ein cynnwys ar gael i fwy o wylwyr ble bynnag a phryd bynnag y maent yn dewis ei wylio. Er i'r gwasanaeth llinol traddodiadol barhau'n bwysig i lawer, mae ein buddsoddiad mewn gwasanaethau ar alw a llwyfannau digidol yn adlewyrchu'r newidiadau parhaus mewn ymddygiadau gwylio.

Roedd lansiad gwasanaeth S4C ar Freely ym mis Ebrill 2024 yn gam pwysig wrth ehangu ein cyrhaeddiad digidol. Mae Freely yn blatfform IPTV newydd gan Everyone TV - menter darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU , gan gynnig ffrydio llinol byw a chynnwys ar alw dros y we. Mae presenoldeb S4C ar y platfform hwn yn arwydd o'n hymrwymiad i gyrraedd cynulleidfaoedd ar y technolegau diweddaraf.

Ar y cyd â hyn, parhaodd perfformiad Clic ac iPlayer i gynyddu, gan gadarnhau'r galw am gynnwys S4C ar lwyfannau ar alw. Roedd oriau gwylio ar Clic wedi parhau yn gyson ac fe gafwyd cynnydd o 9% yn oriau gwylio cynnwys S4C ar iPlayer, gan arwain at gynnydd cyfanswm o 7% ar draws y ddau blatfform ar-alw.

Datblygodd Clic fel llwyfan creadigol hefyd, gyda darllediadau arbrofol fel rhai ar y cyd â Theatr Genedlaethol Cymru, gan ehangu natur yr arlwy gelfyddydol ar alw. Parhaodd llwyfannau S4C i gynnig ffrydiau byw ychwanegol o ddigwyddiadau mawr fel Eisteddfod yr Urdd a'r Sioe Fawr. Yn nodedig, cafwyd 15,092 sesiwn gwylio ar gyfer cystadlaethau yn y Pafiliwn Coch ar Clic, ar ddydd Llun, 27 Mai 2024 – oedd 150% yn uwch na'r ffigwr cyffelyb ar gyfer 2023.

Parhaodd y cyfryngau cymdeithasol i chwarae rôl allweddol wrth ledaenu cynnwys S4C ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.  Cafwyd cynnydd sylweddol eto yn y defnydd o'n gwasanaeth newyddion digidol yn ystod 2024–25, gyda nifer y defnyddwyr yn cynyddu 28% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – bron ddwywaith lefel y defnydd ddwy flynedd yn ôl. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r gwaith cyson i ddarparu cynnwys newyddion Cymraeg perthnasol ar draws llwyfannau fel TikTok,  Facebook ac Instagram, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc a ddigidol yn ogystal â'r rhai traddodiadol.

### Sefydlu ein hunain fel cartref profiadau cenedlaethol Cymru

Yn ystod 2024–25, bu S4C yn bresennol mewn ystod o ddigwyddiadau a phrofiadau a gafodd eu rhannu gan gynulleidfaoedd ledled Cymru. Trwy ddarlledu, ffrydio a chynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, fe wnaethon ni gryfhau ein cysylltiad â'r cyhoedd a sicrhau bod ein cynnwys yn adlewyrchu bywyd cyfoes yng Nghymru.

Roedd wythnos Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024 yn uchafbwynt amlwg, gan gofnodi'r nifer uchaf o oriau gwylio i S4C o'r Brifwyl ers 15 mlynedd. Bu perfformiad cryf hefyd ar draws llwyfannau cymdeithasol ac ar-lein, gyda ffrydiau estynedig a chynnwys pwrpasol yn denu sylw eang.

Datblygodd ein perthynas â phartneriaid cenedlaethol eraill megis yr Urdd, Pride Cymru, Tafwyl a'r Sioe Frenhinol ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys darllediadau byw o'r Brif Gylch yn y Sioe, ffrydiau o dri phafiliwn Eisteddfod yr Urdd, a chynnwys amrywiol o ddigwyddiadau diwylliannol ledled y wlad – oll yn rhan o'n hymrwymiad i adlewyrchu cymunedau cyfoes Cymru tra'n mynd â'r arlwy i gynulleidfa ehangach.

Ym myd chwaraeon, parhaodd darllediadau byw a chynnwys atodol i uno cefnogwyr o bob cwr o Gymru, gyda fformatau newydd, podlediadau a ffrydiau cymdeithasol yn ymestyn y profiad y tu hwnt i'r sgrîn. Roedd yr ymateb gan wylwyr – yn enwedig ar blatfformau digidol – yn adlewyrchu galw parhaus am brofiadau chwaraeon Cymraeg o safon. Roeddem yn falch iawn o ddarlledu gemau rygbi rhyngwladol yr hydref yn rhad ac am ddim, yn ogystal â pharhau i ddarlledu gemau'r Chwe Gwlad, gemau pêl-droed rhyngwladol, a chystadlaethau domestig fel rygbi'r URC a phêl-droed Cynghrair yr Adran Genero.

Ar lefel gymunedol, bu ein digwyddiadau byw a'n presenoldeb wyneb yn wyneb – gan gynnwys sioeau Cyw - ar draws Cymru yn helpu i feithrin cysylltiadau cadarn gyda chynulleidfaoedd iau a'u teuluoedd. Roedd y rhain yn gyfle i blant a'u teuluoedd brofi'r Gymraeg yn fyw yn eu hardaloedd lleol, ac i gryfhau'r berthynas gyda'r sianel mewn modd uniongyrchol.

### Dod i nabod, a chreu perthynas, gyda'n cynulleidfa

Datblygodd S4C ei pherthynas â'r gynulleidfa ymhellach yn ystod 2024–25, gyda lansiad yr ymgyrch 'S4C i Bawb' yn nodi carreg filltir o ran cyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a chyflwyno hunaniaeth glir a chynhwysol i'r brand. Wedi'i chefnogi gan gyfres o weithgareddau marchnata, digwyddiadau, a sgwrs barhaus â'r gynulleidfa, roedd yr ymgyrch yn gam cadarnhaol tuag at ailadeiladu ymddiriedaeth a chydberthynas â chynulleidfaoedd amrywiol ledled Cymru.

Trwy gydol y flwyddyn, defnyddiwyd data manwl o blatfformau megis Clic, iPlayer ac YouTube, yn ogystal â BARB, er mwyn llywio penderfyniadau cynnwys, marchnata a rhaglennu. Un cam allweddol yn ystod cyfnod Strategaeth 2022–25 oedd sicrhau cytundeb gyda'r BBC i gael mynediad ehangach at ddata gwylio'r iPlayer. Mae hyn wedi ein galluogi i ddeall yn well ble a phryd mae cynnwys S4C yn cael ei wylio ar y llwyfan honno, ac ymhlith pa garfannau o'r boblogaeth.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein hamrywiaeth o ffynonellau data ac ymchwil, gan gynnwys mewnwelediadau am garfannau gwahanol o wylwyr, i helpu llywio'r ffordd rydym yn dylunio, hyrwyddo a chyflwyno cynnwys, gan sicrhau bod ein gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch ac yn ystyrlon i bawb.

Mae'r broses gomisiynu bellach yn gofyn i gynhyrchwyr nodi pa garfan o'r gynulleidfa mae'r cynnwys arfaethedig yn targedu – dull sy'n ein galluogi i ystyried y dulliau mwyaf addas i gyhoeddi a marchnata'r cynnwys er mwyn sicrhau'r effaith uchaf posib.Yn ogystal, bu ein dashfwrdd mesur perfformiad yn ein galluogi i osod targedau ac asesu llwyddiant ein cynnwys i gyrraedd cynulleidfaoedd ar draws gwahanol lwyfannau a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'n dda felly gweld bod y canfyddiad o berthnasedd S4C i hunaniaeth Cymru wedi aros yn gyson yn ystod y tair blynedd diwethaf, gyda thua 84% o siaradwyr Cymraeg sy'n gwylio S4C yn cytuno â'r datganiad "Mae S4C yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl".

### "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd" – gweithio gydag eraill i gyrraedd y filiwn

Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bu S4C yn parhau i ddatblygu ei gweithgarwch yn y maes addysg a dysgu Cymraeg yn ystod 2024–25. Drwy gyfrwng cynnwys, partneriaethau a thechnoleg, rydym wedi ceisio creu amgylchedd lle gall mwy o bobl ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg yn hyderus.

Yn ystod y flwyddyn fe gafodd strategaeth addysg newydd ei fabwysiadu gan Fwrdd S4C yn ystod gwanwyn 2025. Mae'r strategaeth hon yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer ymdrechion addysgol S4C yn y blynyddoedd i ddod, gan adeiladu ar ein cryfderau presennol a nodi meysydd newydd ar gyfer cydweithio a dylanwadu.

Parhaodd datblygiad brand S4C Dysgu Cymraeg drwy gynhyrchu cynnwys digidol penodol, ac adeiladwyd ar ein perthynas gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg drwy fanteisio ar gyfleon i gysylltu ein cynnwys ag anghenion dysgwyr o bob lefel.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd S4C i gyfrannu at blatfform Hwb Llywodraeth Cymru drwy rannu cynnwys addas ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau S4C yn cyrraedd ysgolion a dysgwyr ledled Cymru mewn ffordd gyson a strwythuredig.

Sgorio Rhyngwladol - Cymru v Montenegro



Mae is-deitlo yn ran bwysig o'n strategaeth i gefnogi dysgwyr. Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, roedd is-deitlau Cymraeg ar gael ar 61% o'n cynnwys yn gyffredinol – cynnydd sylweddol o 35% pan fabwysiadwyd y strategaeth. Yn ystod oriau brig, roedd y ffigwr hwnnw hyd yn oed yn uwch, gan godi o 52% i 87% rhwng 2022 a 2025, sy'n dangos ymrwymiad ymarferol i sicrhau hygyrchedd i'r iaith yn ystod prif adegau gwylio.

## Creu gwerth trwy ein hadnoddau

Yn ystod 2024–25, bu S4C yn parhau i ddatblygu ei gweithgarwch masnachol, gan adeiladu ar y Strategaeth Fasnachol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn 2022. Nod y dull hwn yw creu ffrwd incwm gynaliadwy i ategu'r gwasanaeth cyhoeddus, gan sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau arloesol.

Un datblygiad allweddol yn ystod y flwyddyn oedd penodi tri aelod anweithredol i Fwrdd Grŵp Masnachol S4C. Ar ôl proses agored, ymunodd Richard Johnston, Luci Sanan ac Oliver Lang â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2025, gan ddod â phrofiad sylweddol ym maes cyfryngau, busnes a buddsoddi.

Parhaodd y ddwy gronfa fasnachol a lansiwyd yn dilyn cymeradwyaeth y Strategaeth Fasnachol yn 2022 i chwarae rhan ganolog yn ein dull o ddatblygu incwm newydd:

- Mae'r Gronfa Cynnwys Masnachol yn cefnogi cynnwys gydag apêl fasnachol glir, gan gynnwys cyfleoedd rhyngwladol a phlatfformau newydd.
- Mae'r Gronfa Twf Masnachol yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn busnesau sy'n cyd-fynd ag amcanion hirdymor S4C.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cafwyd datblygiadau pellach yn sgil y bartneriaeth ag Axiom Media, a benodwyd fel asiant gwerthu hysbysebion ar ran S4C. Mae'r berthynas hon eisoes wedi arwain at gynlluniau i ddatblygu hysbysebu digidol ar Clic, yn ogystal â gweithio gyda chynghorwyr arbenigol i greu incwm o hysbysebion ar lwyfannau fel YouTube a chyfryngau cymdeithasol.

Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol gan Wavehill yn Ebrill 2024 yn asesu cyfraniad S4C i'r economi a chymdeithas Cymru. Mae'r dystiolaeth yn tanlinellu gwerth ehangach y sefydliad y tu hwnt i ffigurau gwylio a chynnwys, gan adlewyrchu ei effaith fel darlledwr, buddsoddwr a chyflogwr ledled y wlad.

## Ysbrydoli a meithrin talent yng Nghymru

Drwy gydol cyfnod Strategaeth 2022–25, bu S4C yn cydweithio'n agos â phartneriaid yn y sector creadigol i feithrin talent newydd ledled Cymru, gan fuddsoddi mewn mentrau a oedd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i amrywiaeth o unigolion ar wahanol gamau yn eu gyrfa.

Drwy bartneriaeth hirdymor â TAC, buddsoddwyd mewn hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer y sector cynhyrchu annibynnol, gan sicrhau darpariaeth hygyrch o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'n bosibl.

Cefnogwyd cyfres o fentrau a oedd yn ehangu mynediad i'r diwydiant, gan gynnwys cynlluniau fel Hansh Dim Sbin, It's My Shout, a Factual Fast Track Wales. Trwy'r bartneriaeth gyda Screen Alliance Wales, gwnaethpwyd ymdrech i gyrraedd pobl ifanc drwy ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd sydd wedi'u tangynrychioli. Ar yr un pryd, roedd S4C yn bartner blaenllaw gyda Ffilm Cymru Wales a Cymru Greadigol i ddatblygu sgriptiau ffilm Gymraeg newydd, ac mewn mentrau fel y cynllun comedi gyda Little Wander.

Drwy gefnogi bwrsariaethau mewn meysydd fel newyddiaduraeth, darlledu chwaraeon ac actio, a buddsoddi mewn lleoliadau gwaith â thâl, mae S4C wedi ceisio ysbrydoli a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o dalent creadigol. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu'r rhaglen waith hon, gan gydweithio'n weithredol ar bwyllgorau hyfforddi a grwpiau strategol ledled y diwydiant.



Rownd a Rownd

Ffitis Mel Owen



## Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth

Yn ystod 2024–25, parhaodd S4C i weithio tuag at sicrhau bod ein cynnwys a'n gweithgarwch corfforaethol yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd yng Nghymru, gan gynnwys straeon, lleisiau a phrofiadau sy'n cael eu tangynrychioli'n aml yn y cyfryngau Cymraeg.

Roedd rhaglenni fel Hawl Pob Plentyn ac Yr Actor a'r Eicon yn enghreifftiau amlwg o'r uchelgais hon, gan dynnu sylw at faterion o bwys i gymunedau amrywiol a chyflwyno modelau rôl newydd i'n cynulleidfa. Trwy bartneriaethau gyda mentrau fel It's My Shout a Screen Alliance Wales, bu modd i S4C gefnogi datblygiad dalent newydd o gefndiroedd amrywiol, gan fynd i'r afael â rhwystrau ac annog mwy o bobl i ystyried gyrfa yn y diwydiant cyfryngau Cymraeg.

Rhan annatod o'r gwaith hwn oedd casglu a dadansoddi data am gyfansoddiad y gweithlu, gan gynnwys drwy'r cynllun Diamond a'n harolygon mewnol. Bydd y darlun hwn yn sail i welliannau yn y dyfodol wrth i ni ymdrechu i sicrhau bod S4C yn gwasanaeth sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli Cymru gyfan – ar y sgrin ac oddi arni.

## Edrych ymlaen

Fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae S4C yn gweithredu mewn amgylchedd heriol. Yn ystod 2024–25, bu pwysau cynyddol ar gostau cynhyrchu, newidiadau ym mhatrymau gwylio, a disgwyliadau cynyddol am wasanaeth modern, amlieithog ar sawl platfform. Er gwaetha'r risgiau hyn, mae'r sefydliad wedi dangos gallu i addasu ac arloesi – ac mae camau clir wedi'u cymryd i reoli risgiau, cynnal ansawdd y gwasanaeth, a sicrhau gwerth am arian.

Wrth i ni ddatblygu strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer 2025–30, byddwn yn parhau i fonitro ein hamgylchedd gweithredu'n ofalus, gan ymateb i risg yn unol â'n gwerthoedd craidd – ac i wireddu'n gweledigaeth o S4C fel gwasanaeth gwirioneddol berthnasol, cynhwysol a chynaliadwy ar gyfer Cymru heddiw ac yfory.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024



# Cyrhaeddiad Cynnwys S4C

### Ffigyrau gwylio S4C ar deledu


Mae'r graffiau isod yn nodi cyrhaeddiad (ar deledu) gwasanaeth S4C ar sail wythnosol a blynyddol, yn ogystal â chynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig. Mae'r canrannau a ddyfynnwyd yn dangos y newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Mae gwylio ar deledu llinol yn disgyn ar draws pob sianel, ac mae hyn yn effeithio ar S4C yn ogystal. Serch hynny, arhosodd cyrhaeddiad S4C yn gymharol gyson yng Nghymru o'i gymharu â'r llynedd, ac eto yn uwch yng Nghymru na thair blynedd yn ôl.**

● Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ● Cymru ● Tu allan i Gymru ● DU


Cyrhaeddiad wythnosol
(o leiaf 3 munud olynol)

(Ffynhonnell: BARB)




Cyrhaeddiad blynyddol
(o leiaf 3 munud olynol)


(Ffynhonnell: BARB)



Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru · Cymru · Tu allan i Gymru · DU


## Cynulleidfa ar gyfartaledd yn ystod yr oriau brig (1900 – 2200)

(Ffynhonnell: BARB)





## Cyfran Holl Oriau S4C

(Ffynhonnell: BARB)




## Cyfran Oriau Brig S4C (1900 – 2200)

(Ffynhonnell: BARB)



# Cyrhaeddiad Cynnwys S4C

**Gwylio S4C ar-lein**


Mae'r graffiau isod yn nodi oriau gwylio ar wasanaethau ar-lein S4C ar draws y DU.

Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran defnydd gwasanaethau ar-lein S4C ar draws y DU unwaith eto yn ystod 2024–25, gyda'r patrymau a oedd yn dod yn amlwg yn ystod y blynyddoedd cynt yn parhau i ddatblygu wrth i S4C gynnig mwy o raglenni a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol megis YouTube - a dulliau newydd o gyflwyno'n cynnwys – megis dramâu fel bocs sets.

**Mae ein ffigyrau gwylio ar Clic ac iPlayer ar eu huchaf erioed, gyda chynnydd o 7% ers y llynedd.**

**Ar YouTube, yn dilyn cynnydd sylweddol yn oriau gwylio S4C y flwyddyn gynt, profwyd lleihad bychan yn ystod 2024–25.**


Oriau gwylio ar S4C Clic a BBC iPlayer




(Ffynhonnell: S4C & BBC)

Yn cyfateb i'r hyn a wneir ar draws y diwydiant, mae oriau gwylio S4C Clic a BBC iPlayer yn tybio fod 1.5 person yn gwylio pob ffrwd ar deledu ac 1.0 person yn gwylio pob ffrwd ar ddyfais arall (gliniadur, llechen a ffôn clyfar).


Oriau gwylio pob sianel YouTube S4C




(Ffynhonnell: YouTube)

# Tracio Delwedd S4C


**Mae S4C yn cynnal arolwg blynyddol sy'n tracio delwedd y gwasanaeth – gan gynnwys ymysg gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg.**




(Ffynhonnell: Beaufort Research)

**Mae canlyniadau eleni'n dangos tuedd gadarnhaol ar draws nifer o fesurau, gan awgrymu cydnabyddiaeth gynyddol o rôl S4C wrth adlewyrchu bywyd cyfoes yng Nghymru a chefnogi'r iaith Gymraeg.**

Yn ystod 2024–25, canfu'r Arolwg Tracio Delwedd S4C fod y ganran o wylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn cytuno gyda'r gosodiadau canlynol:




(Ffynhonnell: Beaufort Research)

# Rhaglenni uchaf S4C ar deledu yn 2024–25




Clwb Rygbi Rhyngwladol

| | Rhaglen | Genre | Dyddiad | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgorio Rhyngwladol: Cynghrair y Cenhedloedd (Cymru v Gwlad yr Iâ) | Chwaraeon | 19/11/2024 | 440,000 |
| 2 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Gemau'r Hydref (Cymru v Awstralia) | Chwaraeon | 17/11/2024 | 422,000 |
| 3 | Patrôl Pawennau | Plant | 10/12/2024 | 207,000 |
| 4 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Gem Gyfeillgar (Cymru v De Affrica) | Chwaraeon | 22/06/2024 | 190,000 |
| 5 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Chwe Gwlad Dan 20 (Cymru v Iwerddon) | Chwaraeon | 21/02/2025 | 181,000 |
| 6 | Clwb Rygbi: Pencampwriaeth Unedig Rygbi (Dreigiau v Caerdydd) | Chwaraeon | 26/12/2024 | 171,000 |
| 7 | Cleddau | Drama | 13/10/2024 | 166,000 |
| 8 | Rygbi Ewrop: Cwpan Her (Gweilch v Newcastle) | Chwaraeon | 11/01/2025 | 164,000 |
| 9 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: Chwe Gwlad (Ffrainc v Cymru) | Chwaraeon | 31/01/2025 | 126,000 |
| 10 | Ken Owens: Y Sheriff | Ffeithiol | 02/06/2024 | 121,000 |
| 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | Digwyddiadau | 04/08/2024 | 114,000 |
| 12 | Clwb Rygbi: Super Rygbi Cymru (Rygbi Gogledd Cymru v Penybont) | Chwaraeon | 28/12/2024 | 109,000 |
| 13 | Sgorio Ewrop (Caernarfon v Crusaders) | Chwaraeon | 11/07/2024 | 96,000 |
| 14 | Marathon Eryri | Chwaraeon | 27/10/2024 | 91,000 |
| 15 | Noson Lawen | Adloniant | 18/01/2025 | 90,000 |
| 16 | Y Gêm | Adloniant | 26/07/2024 | 88,000 |
| 17 | Sgorio Rhyngwladol: Gemau Rhagbrofol Cwpan y Byd (Cymru v Kazakhstan) | Chwaraeon | 22/03/2025 | 87,000 |
| 18 | Cyngerdd Eisteddfod Genedlaethol | Digwyddiadau | 16/11/2024 | 86,000 |
| 19 | Y Llinell Las | Ffeithiol | 21/05/2024 | 86,000 |
| 20 | Colli Cymru i'r Môr | Ffeithiol | 03/07/2024 | 79,000 |
| 21 | Priodas Pum Mil | Adloniant | 25/12/2024 | 78,000 |
| 22 | Llond Bol o Sbaen | Adloniant | 19/12/2024 | 76,000 |
| 23 | Cefn Gwlad | Ffeithiol | 29/07/2024 | 75,000 |
| 24 | Bronwen Lewis: O'r Stafell Fyw | Cerddoriaeth | 24/12/2024 | 74,000 |
| 25 | Canu Gyda Fy Arwr | Cerddoriaeth | 06/06/2024 | 74,000 |
| 26 | Am Dro! | Adloniant | 15/12/2024 | 74,000 |
| 27 | Pobol Y Cwm | Drama | 16/10/2024 | 71,000 |
| 28 | Eisteddfod Yr Urdd | Digwyddiadau | 01/06/2024 | 70,000 |
| 29 | Côr Cymru | Cerddoriaeth | 28/04/2024 | 69,000 |
| 30 | Y Llais | Adloniant | 30/03/2025 | 69,000 |

(Ffynhonnell: BARB)

**Nodiadau:**

1. Adroddir ar gyrhaeddiad yn y Deyrnas Unedig ar sail 3 munud di-dor, ar draws pob dangosiad o fewn 7 diwrnod i'r darllediad cyntaf.
2. Rhestrir y rhaglen unigol uchaf yn unig o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.

# Rhaglenni uchaf S4C yn 2024–25 ar S4C Clic

| | Rhaglen | Date | Sesiynau Gwylio |
|---|---|---|---|
| 1 | Rygbi: Gemau'r Hydref - Cymru v Awstralia | 17/11/2024 | 21753 |
| 2 | Sgorio Rhyngwladol - Cymru v Gwlad yr Ia | 19/11/2024 | 15905 |
| 3 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: De Affrica v Cymru | 22/06/2024 | 15893 |
| 4 | Pafiliwn Coch - Dydd Llun | 27/05/2024 | 15092 |
| 5 | Sgorio Rhyngwladol - Gogledd Macedonia v Cymru | 25/03/2025 | 8272 |
| 6 | Cleddau - Pennod 1 | 13/10/2024 | 8072 |
| 7 | Y Llais - Pennod 1 | 09/02/2025 | 7605 |
| 8 | Clwb Rygbi Rhyngwladol - Dan 20: Cymru v Lloegr | 14/03/2025 | 7436 |
| 9 | Clwb Rygbi Rhyngwladol - Ffrainc v Cymru | 31/01/2025 | 6485 |
| 10 | Sgorio Rhyngwladol - Slofacia v Cymru | 09/06/2024 | 4944 |
| 11 | Clwb Rygbi - Scarlets v Gweilch | 29/03/2025 | 4893 |
| 12 | Rygbi Ewrop - Gweilch v Sale | 06/04/2024 | 4881 |
| 13 | Clwb Rygbi - Gweilch v Newcastle | 11/01/2025 | 4159 |
| 14 | Dal Dy Ddannedd - Ysgol Tyle'r Ynn | 10/04/2024 | 3909 |
| 15 | Awyr Iach - Pennod 13 | 02/04/2024 | 3741 |
| 16 | Ar y Ffin - Pennod 1 | 29/12/2024 | 3633 |
| 17 | Y Llinell Las - Yr Iwnifform | 14/05/2024 | 3594 |
| 18 | Amour & Mynydd - Pennod 1 | 01/01/2025 | 3551 |
| 19 | Eisteddfod yr Urdd 2024 - Croeso i Eisteddfod yr Urdd | 26/05/2024 | 3429 |
| 20 | Can i Gymru 2025 | 28/02/2025 | 3271 |

(Ffynhonnell: S4C)

**Nodyn:**
Ceisiadau gwylio ar draws y Deyrnas Unedig, ar draws pob dangosiad ar gyfer y rhaglen unigol uchaf yn unig o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.

# Rhaglenni uchaf S4C yn 2024–25 ar yr iPlayer

| | Rhaglen | Date | Sesiynau Gwylio |
|---|---|---|---|
| 1 | Sgorio Rhyngwladol - Montenegro v Cymru | 09/09/2024 | 163794 |
| 2 | Cleddau - Pennod 1 | 13/10/2024 | 116283 |
| 3 | Rygbi: Gemau'r Hydref - Cymru v Ffiji | 10/11/2024 | 71060 |
| 4 | Clwb Rygbi Rhyngwladol: De Affrica v Cymru | 22/06/2024 | 55048 |
| 5 | Clwb Rygbi - Scarlets v Dreigiau | 01/01/2025 | 32243 |
| 6 | Y Llais - Pennod 1 | 09/02/2025 | 30148 |
| 7 | Ar y Ffin - Pennod 1 | 29/12/2024 | 29257 |
| 8 | Ar Brawf - Martin a Dei | 02/04/2024 | 25463 |
| 9 | Y Llinell Las - Yr Iwnifform | 14/05/2024 | 24114 |
| 10 | Clwb Rygbi Rhyngwladol - Ffrainc v Cymru | 31/01/2025 | 22030 |
| 11 | Sgorio Rhyngwladol - Slofacia v Cymru | 09/06/2024 | 21699 |
| 12 | Sgorio Rhyngwladol - Gogledd Macedonia v Cymru | 25/03/2025 | 20660 |
| 13 | Clwb Rygbi Rhyngwladol Dan 20: Yr Alban v Cymru | 07/03/2025 | 17197 |
| 14 | Amour & Mynydd - Pennod 1 | 01/01/2025 | 16659 |
| 15 | Clwb Rygbi - Gweilch v Newcastle | 11/01/2025 | 14564 |
| 16 | Elis James: Derwydd | 26/12/2024 | 14122 |
| 17 | Strip | 03/05/2024 | 12381 |
| 18 | Llofruddiaeth y Bwa Croes - Pennod 1 | 02/01/2025 | 11945 |
| 19 | Marw gyda Kris - Mecsico | 10/10/2024 | 10997 |
| 20 | Pobol y Cwm - Pennod 80 | 16/10/2024 | 10977 |

(Ffynhonnell: S4C and BBC)

**Nodyn:**
Ceisiadau gwylio ar draws y Deyrnas Unedig, ar draws pob dangosiad ar gyfer y rhaglen unigol uchaf yn unig o fewn cyfresi, gyda chwaraeon wedi eu gosod mewn cyfresi fesul cystadleuaeth.

# Cyfraniad S4C at Gymdeithas a'r Economi

# Cyfraniad S4C at Gymdeithas a'r Economi

**Ers sefydlu S4C yn 1982, mae wedi bod yn ymwybodol iawn o'i gyfraniad at Gymru ac yn ehangach.**

**Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae gennyn ni waith a chyfrifoldeb pwysig fel corff sy'n hwyluso ac yn galluogi, gan ddefnyddio ein hadnoddau i sicrhau'r buddiannau mwyaf i'n gwrandawyr a chymdeithas yn ehangach.**

**Drwy weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, rydyn ni'n gweithio'n galed i gyfrannu at ddyfodol y Gymraeg, diwylliant, yr amgylchedd a'r economi.**

## Datganiad Polisi

Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd Bwrdd S4C ddatganiad polisi sy'n dwyn ynghyd gweithgareddau presennol S4C o ran ei gyfraniad cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r datganiad polisi hwn yn cyd-fynd â strategaeth gorfforaethol 2022–27 a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022, ac mae blaenoriaethau'r polisi'n adlewyrchu elfennau o'r strategaeth gorfforaethol – a honno'n dangos sut y mae cyfraniad cymdeithasol ac economaidd S4C yn ganolog i weithgareddau ehangach y sefydliad.

## Pwrpas Cymdeithasol S4C: Sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o fywyd pawb yng Nghymru

## Blaenoriaethau Polisi:

**1. "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd"**

Cynyddu'r niferoedd sy'n ymwneud â chynnwys S4C yn y Gymraeg, i helpu cyrraedd y filiwn (a dyblu'r defnydd dyddiol)

**2. Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth**

Adlewyrchu cymunedau Cymru drwy osod targedau amrywiaeth clir, yn fewnol ac ar draws ein cynyrchiadau

**3. Creu Gwerth yn Gynaliadwy**

Creu gwerth trwy ein hadnoddau i gefnogi'r economi leol ac, wrth wneud hynny, gweithio tuag at leihau ôl troed carbon ein holl weithgareddau

**4. Meithrin Talent**

Defnyddio ein hadnoddau a'n dylanwad i feithrin talent oddi fewn i S4C ac yn y sector ehangach, yn ogystal â chefnogi datblygu sgiliau

Yn ystod 2024/25, crëwyd y Tîm Strategol o fewn S4C, gan ddod ag aelodau o'r staff ynghyd oedd yn gweithio tuag at y gwahanol nodau strategol hyn er mwyn gweithio'n fwy effeithiol ac effeithlon.

## “Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd”

**Ers mis Ionawr 2023, mae gan S4C Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda’r adran Cymraeg 2050 yn Llywodraeth Cymru, sy’n ffurfioli ein cefnogaeth i’r ymgyrch i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ogystal â’r rhai sy’n defnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd.**

Y Gymraeg yw rheswm ein bodolaeth, ac mae dangos ein byd drwy’r Gymraeg yn greiddiol i’n pwrpas. Yn ystod 24/25, fe gryfhawyd ein hymrwymiad i’r iaith gyda lansiad y brand “S4C I Bawb”, sy’n ymestyn ein croeso i fyd y Gymraeg i bobl ar bob lefel o hyfedredd yn yr iaith.

Mae ein darlledu i blant yn hanfodol i gefnogi siaradwyr Cymraeg y dyfodol, ac rydym wedi bod yn cynyddu argaeledd isdeitlau Cymraeg ar ein cynnwys plant, er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Rydym hefyd wedi cynhyrchu adnoddau i gefnogi rhieni sy’n dysgu’r Gymraeg, i gyd-fynd â’n cyfres Cywion Bach ar gyfer plant ifanc iawn.

Rydym wedi bod yn cefnogi addysg drwy wneud ein cynnwys ar gael i ysgolion trwy lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydweithio’n agos ag addysgwyr, CBAC a’r sefydliad newydd Adnodd i adnabod cyfleoedd i’n cynnwys gefnogi’r cwricwlwm newydd, ac i hwyluso comisiynu adnoddau addysgol er mwyn sicrhau’r budd mwyaf posibl i athrawon ac addysgwyr. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu partneriaethau ag ysgolion a cholegau o bob math ledled y wlad, a’u cefnogi drwy ymweliadau a gweithgareddau ysgol.

Mae cefnogi dysgwyr a siaradwyr newydd Cymraeg yn flaenoriaeth i ni. Rydym wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol yn ein cynnwys i ddysgwyr ar ein platfformau digidol, er mwyn datblygu ystod newydd o fideos byr. Gallwn gyhoeddi cynnwys newydd bron bob diwrnod o’r wythnos, sy’n cynnwys: eitemau sy’n rhoi sylw i ddysgwyr yng Nghymru a ledled y byd; cynnwys a grëwyd yn arbennig i ategu ein prif gynnwys a denu siaradwyr newydd i’n cymuned; ac eitemau ar eirfa a phwyntiau gramadegol i gefnogi’r dysgu. Mae’r cynnwys hwn yn defnyddio amrywiaeth o nodweddion technolegol i gynorthwyo gyda dealltwriaeth – gan gynnwys isdeitlau dwyieithog, geiriau allweddol ar y sgrin, cynnwys ychwanegol yn y testun sy’n cyd-fynd â’r fideo, ac (ar YouTube) y gallu i arafu’r chwarae. Ym mis Hydref 2024, buom yn cydweithio â BBC Cymru a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am y tro cyntaf ar gyfer Wythnos Dathlu Dysgu, gan roi llwyfan i ddysgwyr a siaradwyr newydd yn ein cynnwys drwy’r wythnos, yn ogystal â threfnu digwyddiadau i groesawu dysgwyr i’n swyddfeydd. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y sylfaen hon yn 2025.

Rydym hefyd eisiau cefnogi’r rhai sy’n dysgu Cymraeg yn ein diwydiant, o flaen y camera ac y tu ôl iddo, drwy gydweithio â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a’r tîm yn Say Something in Welsh. Mae hyn wedi ein galluogi i integreiddio dysgwyr a siaradwyr newydd yn ein prif gynnwys, gan fodelu Cymru lle gall y rhai nad ydynt yn rhugl eto fod yn rhan werthfawr ac annatod o’n cymunedau Cymraeg.



Estynnodd yr egwyddor hon ar draws ein cynnwys yn ystod 24/25. Rydym yn ymdrechu i adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth, ac mae rhan o hynny’n golygu adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog ein hiaith brydferth. Rydym yn ceisio sicrhau y gall pob siaradwr Cymraeg glywed eu llais, eu tafodiaith a’u hacen rywle yn ein cynnwys. Yn ogystal, rydym yn disgwyl safonau ieithyddol uchel gan ein cynhyrchwyr, ein sgriptwyr, ein newyddiadurwyr a’n cyflwynwyr, ac mewn partneriaeth â Theledwyr Annibynnol Cymru (TAC), rydym wedi darparu hyfforddiant i gynorthwyo cynhyrchwyr i ddeall ac i gydymffurfio â’n canllawiau ieithyddol.

Rydym yn falch o’n cyfraniad unigryw i’r Gymraeg, a’r gwaith rydym yn ei wneud i gyfrannu’n bwrpasol at ei thwf presennol a’i dyfodol. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu’r gwaith hwn ymhellach yn ystod 25/26.



# Adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth

**Yn ystod 2024/25, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar amrywiaeth fel rhan annatod o'n strategaeth cynnwys, gan ymdrechu i sicrhau ein bod yn wirioneddol adlewyrchu Cymru gyfan. Rydym yn monitro amrywiaeth yr wynebau a'r lleisiau a welir ac a glywir ar y sgrin, yn ogystal â'r straeon sy'n cael eu hadrodd, er mwyn gallu cymryd golwg gyffredinol a nodi unrhyw fylchau posibl i lywio comisiynu yn y dyfodol.**

Rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod yr amrywiaeth hon wedi'i gwreiddio ym mhob rhan o'n rhaglenni – yn ein castio ac yn ein straeon – ac nad yw'n gyfyngedig i gomisiynau un-tro ar gyfer cynulleidfaoedd penodol. Ar yr un pryd, rydym yn manteisio ar gyfleoedd i nodi digwyddiadau arbennig ac achlysuron coffa, yn ogystal â rhoi sylw i straeon nad ydynt wedi'u rhannu o'r blaen drwy'r cyfryngau Cymraeg.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r fath yn ystod 2024/25 mae Hawl Pob Plentyn, rhaglen ddogfen a archwiliodd y mynediad anghyfartal i addysg arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg i blant anabl, ac Yr Actor a'r Eicon, drama-ddogfen i ddathlu bywyd y brifathrawes Betty Campbell – y fenyw ddu gyntaf i ddod yn bennaeth ysgol yng Nghymru – a'i hetifeddiaeth yng Nghymru. Mae'r math yma o gynnwys hefyd yn cynnig cyfle i feithrin a chefnogi talent amrywiol, ar y sgrin ac oddi arni.



Y tu hwnt i'n comisiynau ein hunain, rydym hefyd yn gweithio i wella amrywiaeth y sector cyfryngau Cymraeg yn ei gyfanrwydd drwy gydweithio ag amryw o sefydliadau partner. Er enghraifft, rydym yn cydweithio â Screen Alliance Wales i gefnogi eu gwaith o ymweld ag ysgolion ledled y wlad i hyrwyddo'r cyfryngau fel opsiwn gyrfaol deniadol lle mae galw mawr am sgiliau Cymraeg. Maent yn trosglwyddo'r neges hon ar ein rhan i ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd, gyda ffocws arbennig ar boblogaethau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn ein gweithlu (megis pobl mewn ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd cymdeithasol). Rydym hefyd yn hynod falch o'n gwaith gyda'r prosiect It's My Shout, sy'n rhoi cyfle i bobl gamu i mewn i'r diwydiant cyfryngau ac yn dod â straeon nas clywyd o'r blaen i'r amlwg.

Dros gyfnod 2024/25 rydym fel sefydliad wedi buddsoddi yn lles ein staff, gan gynnwys datblygu cod diwylliant newydd a gwerthoedd sefydliadol. Mae cynhwysiant wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar y gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall bod ein gwahaniaethau i'w gwerthfawrogi ac i'w parchu. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a byddwn yn dal i gynnig hyfforddiant sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn statudol.

Mae gennym strategaeth hyfforddi allanol sy'n cefnogi unigolion i dyfu a datblygu yn y sector cyfryngau Cymraeg, ac mae cynyddu amrywiaeth o bob math yn brif ffocws i lawer o'r gwaith hwn. Trwy nodi a dileu rhai o'r rhwystrau i fynediad, gallwn recriwtio a datblygu'r dalent orau, beth bynnag fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau personol.

Rydym yn falch o gefnogi nifer o bartneriaid pwysig drwy nawdd – gan gynnwys, yn ystod 2024/25, ddigwyddiadau proffil uchel fel Pride Cymru a Gŵyl Ffilm Iris; digwyddiadau sectorol fel y Accessible Futures Summit; ac elusennau a sefydliadau fel Culture Connect Wales, BAMEed a Disability Wales.

Mae gwaith eto i'w wneud, ac yn ystod 2025/26 byddwn yn anelu at wella ein casglu a'n hadrodd data, sicrhau ein bod yn cyrraedd rhagor o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ein cyfleoedd hyfforddi, ac ymdrechu i ddod â straeon a phobl newydd i'n sgriniau – fel bod S4C yn wirioneddol yn S4C i bawb.

# Creu Gwerth yn Gynaliadwy

**Ochr yn ochr â'n cyfraniad cymdeithasol, mae S4C yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru.**

Buddsoddir dros 77% o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys. Mae hwn yn fuddsoddiad yn y gwasanaethau a ddarperir i'r gynulleidfa ac yn y sector cynhyrchu yng Nghymru.

Rydyn ni'n buddsoddi ac yn comisiynu ein cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu ledled Cymru ac mae ein cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi yn eu tro yn chwarae rhan bwysig yn eu heconomïau lleol.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i gefnogi'r sector i ddatblygu, gan helpu cwmnïau i wireddu eu potensial. Bydd hyn yn ei dro yn cryfhau ein cadwyn gyflenwi. Mae'r camau rydyn ni wedi eu cymryd hyd yn hyn yn cynnwys hwyluso mwy o gydweithio rhwng y cwmnïau mwy a llai – er enghraifft, drwy annog y cwmnïau llai i ddefnyddio adnoddau a chyfarpar sy'n berchen i'r cwmnïau mwy pan na fydd ar y cwmnïau mwy eu hangen.

Ar yr un pryd, ymhlith amcanion eraill, mae strategaeth fasnachol newydd S4C yn ceisio cyfrannu at ffyniant economaidd Cymru drwy gynnig cronfa dwf i fuddsoddi mewn cwmnïau sydd â photensial i dyfu ac sy'n cyd-fynd â phwrpas S4C.

Mae crynswth yr holl weithgaredd hyn felly'n golygu bod cyfraniad S4C at economi Cymru yn sylweddol – ac mae'n bwysig bod y cyfraniad hwnnw'n cael ei deimlo ym mhob cwr o Gymru.

Yn 2024–25, fe warion ni 97% o gyllideb comisiynu S4C ar gyfer cynnwys oddi fewn i Gymru (2023–24: 99%).



Wrth gwrs, wrth fynd ati i gefnogi a buddsoddi yn nhwf economaidd Cymru, mae S4C yn ymwybodol iawn o'r angen i wneud hynny mewn ffordd sy'n amgylcheddol-gynaliadwy.

Ers mis Medi 2021, er mwyn cyflawni hyn, mae gan S4C bartneriaeth gyda chonsortiwm BAFTA albert, sef cymdeithas o rai o gwmnïau cynhyrchu a darlledwyr mwyaf y Deyrnas Unedig, ac rydyn ni'n ceisio ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses gynhyrchu drwy wneud y canlynol:

- Gorfodi'r defnydd o gyfrifiannell ôl-troed carbon albert yn yr holl gynnwys y byddwn ni'n ei gomisiynu; ac
- Annog cynyrchiadau i gwblhau proses ardystio albert.

## Yng Nghymru, roedd ein gwariant rhanbarthol ar gynnwys fel a ganlyn:

| Rhanbarth | 2023–24 | 2024–25 | Tuedd |
|---|---|---|---|
| Y Gogledd | 28% | 27% | ↓ |
| Y De | 54% | 52% | ↓ |
| Y Gorllewin | 17% | 18% | ↑ |
| Y tu allan i Gymru | 1% | 3% | ↑ |
| Cyfanswm | 100% | 100% | |

(Mae'r data uchod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgarwch cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru. Gwnaethom gynnal adolygiad manwl o'r lleoliadau perthnasol ar gyfer pob cynhyrchiad yn ystod 2023–24 – mae'r data a ddarperir uchod yn adlewyrchu canlyniad yr adolygiad hwnnw).

Daeth yn orfodol o 01 Ionawr 2022 i gwmnïau sy'n cynhyrchu cynnwys i S4C gydymffurfio â'r gofynion uchod (heblaw bod y cynhyrchiad yn gyfres o dan 15 munud o hyd a / neu fod cyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000).

Yn sgil ein partneriaeth gydag albert, roedd S4C yn un o 12 o ddarlledwyr a ffrydwyr a ddaeth ynghyd ym mis Tachwedd 2021 i ymrwymo i'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, a oedd wedi'i drefnu gan albert. Dyma'r tro cyntaf i'r diwydiant weithio ar y cyd ar ddatganiad o'r fath.

Mae S4C a'r llofnodwyr eraill – sy'n cynnwys y BBC, BBC Studios, Britbox International, Channel 4, Channel 5 / ViacomCBS, Discovery UK and Eire, ITV, RTE, Sky, STV, ac UKTV – wedi ymrwymo i ddefnyddio ein cynnwys i helpu cynulleidfaoedd i ddeall beth allai mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ei olygu iddyn nhw, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i bobl a'u hysbrydoli i wneud dewisiadau cynaliadwy.

Oddi ar y sgrîn, mae S4C yn gweithio i leihau effaith gwaith corfforaethol y sefydliad ar yr amgylchedd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi cymryd camau i leihau teithio ble nad oes angen, a chynyddu'r defnydd o fideo-gynadledda. Anogir y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus cymaint â phosib.

Ein nod yw lleihau effaith amgylcheddol ein gwaith corfforaethol dros y blynyddoedd nesaf ymhellach, a chytuno yn y pen draw ar ddyddiad targed er mwyn cwblhau'r trawsnewid i weithredu ar sail sero net o ran carbon.

## Meithrin Talent yn y Sector Gynhyrchu yng Nghymru

**Rydym yn gwybod bod S4C yn elwa ar sector cynhyrchu bywiog yng Nghymru, ac mae datblygu sgiliau a thalent gartref wedi bod yn flaenoriaeth gennym erioed.**

Drwy weithio mewn partneriaeth â Theledwyr Annibynnol Cymru (TAC), rydym yn galluogi ein partneriaid cynnwys i fuddsoddi yn natblygiad sgiliau eu staff, gan sicrhau hyfforddiant o safon uchel sydd wedi'i deilwra i anghenion cymuned gynhyrchu Cymru, ac sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Trwy gydlynu ymdrechion yn y ffordd hon gyda phartneriaid allweddol, gallwn gyflawni arbedion maint, ac mae'r cynnig hyfforddi drwy TAC yn gyfuniad o ddarpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb ar draws y wlad, gan sicrhau cynhwysiant i bob un o'n cymunedau yng Nghymru.

Mewn partneriaeth â'n cwmnïau cynhyrchu, rydym hefyd yn cyfrannu at Gronfa Screen Skills Unscripted, sy'n agor ystod eang o gyfleoedd hyfforddi i bob partner. Mae partneriaethau hefyd yn allweddol i'n gwaith i agor drysau i bobl ifanc yng Nghymru i mewn i'r sector cyfryngau. Yn ogystal â'r gwaith gyda Screen Alliance Wales ac It's My Shout, sy'n ganolog i'n hymdrechion i wella amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector, mae gennym ystod o ysgoloriaethau a grantiau ar gael i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, ynghyd â phrofiad ymarferol gyda rhai o'n partneriaid cynhyrchu. Trwy gynllun Hansh Dim Sbin rydym yn cynnig lleoliadau gwaith â thâl i raddedigion newydd ym maes newyddiaduraeth o fewn ein timau newyddion, gan sicrhau cam cyntaf ar y ysgol yrfaol i dalent ifanc, yn ogystal â dod â safbwyntiau newydd a ffres i'n cynnwys. Mae ein gwaith yn y maes addysg ochr yn ochr â Gyrfa Cymru hefyd yn ein galluogi i estyn allan at bobl ifanc sydd eto yn yr ysgol, gan gyflwyno llwybr gyrfaol deniadol sy'n cynnig gwaith boddhaus lle gallant ddefnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg.

Ynghyd â Chymru Greadigol a darlledwyr eraill, mae S4C hefyd yn un o brif gefnogwyr Fast Track Wales – rhaglen ddatblygu i gyflymu gyrfaoedd cynhyrchwyr unsgriptiedig drwy leoliadau gwaith â thâl, mewnwelediad i gomisiynu, hyfforddiant, mentora a chyfleoedd yn y diwydiant.

Yn ogystal â chefnogi'r holl sgiliau ymarferol hyn, rydym yn buddsoddi mewn awduron newydd, gyda mentrau fel y bartneriaeth gyda Little Wander i helpu datblygu ysgrifennu comedi newydd yn y Gymraeg.

Mae gennym aelodau staff sy'n eistedd ar bwyllgor hyfforddi TAC, bwrdd It's My Shout, a Phanel Cynghori Sgiliau Cymru Greadigol, er mwyn sicrhau ein bod yn rhan o'r sgwrs ac yn gallu ymateb i anghenion hyfforddi newidiol y sector.

Rydym yn monitro ac yn asesu'r rhaglen waith hon bob blwyddyn, i sicrhau ein bod yn datblygu ein partneriaethau ac yn gweithio ar draws y sector i gryfhau ein hymdrechion hyfforddi yn unol ag anghenion y diwydiant. Trwy'r gwaith hwn, rydym wedi ymrwymo i barhau i gefnogi a datblygu'r gronfa o dalent o'r radd flaenaf sydd gennym yma yng Nghymru.



## Gwerthuso Cyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C

**Wrth gymeradwyo'r datganiad polisi am Gyfraniad Cymdeithasol ac Economaidd S4C, fe ymrwymodd Bwrdd S4C i gomisiynu asesiad o effaith economaidd a chymdeithasol S4C bob dwy flynedd, er mwyn sicrhau gwerthusiad annibynnol o'r effaith hwnnw.**

Yn ystod gwanwyn 2023, penodwyd cwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad annibynnol o effaith economaidd a chymdeithasol S4C yn ystod blwyddyn ariannol 2022–23. Cyflwynodd Wavehill eu canfyddiadau cychwynnol i Fwrdd S4C yn hydref 2023, cyn i'w hadroddiad dilynol gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024.

Yn eu hadroddiad annibynnol, dywedodd Wavehill: "Mae gan S4C ôl troed sylweddol o fewn ac ar draws cymunedau lleol ledled Cymru yn ei rôl fel cyflogwr, comisiynydd a sefydliad angori o fewn diwydiant y cyfryngau yng Nghymru".

Mae S4C bellach wedi comisiynu Wavehill i gynnal asesiad annibynnol arall yn ystod 2025, gan ddefnyddio data o flwyddyn adrodd 2024–25. Caiff canlyniad yr asesiad pellach hwn ei gyhoeddi ar wahân maes o law.

# Gweithgareddau Masnachol


**Mae S4C Masnachol – adain fasnachol S4C – yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nod o greu ffrwd incwm gynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.**

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae'n gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y S4C yn y gorffennol.

Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o S4C (Creu S4C ar gyfer y dyfodol) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r gofynion cymeradwyo presennol er mwyn cynnig rhagor o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth y DU, gan arwain at ddiwygio pwerau masnachol S4C fel rhan o'r Mesur Cyfryngau 2024. Nid yw'r rhannau perthnasol wedi dod i rym eto.

# S4C Masnachol

**Strwythur gweithgareddau masnachol S4C**
Mae yna 5 o gwmnïau yng ngrŵp masnachol S4C ar hyn o bryd. Maent i gyd yn is-gwmnïau i S4C, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r strwythur yn sicrhau bod yr incwm o'n gweithgareddau masnachol ar wahân i'r arian cyhoeddus mae S4C yn ei dderbyn trwy ffi'r drwydded.




## S4C Masnachol Cyf
Mae hwn yn gweithredu fel "holding company" ac nid yw yn masnachu. Mae ganddo dri is-gwmni uniongyrchol: S4C Rhyngwladol Cyf; S4C2 Cyf; ac S4C PTG Cyf.

Mae S4C Masnachol Cyf yn talu difidendau i S4C ar ôl eu derbyn gan S4C Rhyngwladol Cyf, S4C2 Cyf, ac S4C PTG Cyf.

## S4C Rhyngwladol Cyf
Dyma'r cwmni sy'n gyfrifol am fwyafrif gweithgareddau masnachol S4C, gan gynnwys:
- Gwerthu gofod hysbysebu, nawdd a telewerthu (trwy asiant hysbysebu);
- Trwyddedu nwyddau ar gyfer brandiau fel Cyw;
- Derbyn incwm o ecsploetio ôl-gatalog rhaglenni S4C yn fasnachol;
- Derbyn incwm o gyd-gynyrchiadau y buddsoddodd S4C ynddynt yn y gorffennol;
- Buddsoddi mewn cynnwys trwy'r Gronfa Gynnwys Fasnachol;
- Ariannu trac sain Saesneg ar rai o raglenni chwaraeon a digwyddiadau S4C (lle gellir dangos cynnydd mewn incwm hysbysebu o ganlyniad).

## S4C2 Cyf
Dyma'r cwmni oedd yn arfer darparu sianel S4C2, ond caewyd y sianel rai blynyddoedd yn ôl.

Mae dal gan S4C2 gytundeb i ddefnyddio un ffrwd deledu yng Nghymru ar Freeview. Fodd bynnag, defnyddir y ffrwd hon gan ddarlledwr arall trwy is-gytundeb gydag S4C2. Adnewyddwyd y trefniant hwn yn ystod 2022–23, gyda'r is-gytundeb presennol nawr mewn lle tan 2026.

## S4C Digital Media Ltd (SDML)
Buddsoddodd SDML yn SDN, y cwmni sy'n dal y drwydded i Multiplex A ar Freeview, yn 1998. Gwerthodd SDML ei siars yn SDN yn 2005, gan fuddsoddi'r enillion.

Erbyn hyn, mae gan SDML y buddsoddiadau canlynol:
- Buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau cynnwys a digidol, gan gynnwys trwy'r Gronfa Dwf Fasnachol newydd; a
- Chronfeydd buddsoddi a reolir gan reolwr cronfa allanol.

## S4C PTG Cyf
Cafodd y cwmni yma ei greu yn 2019 ar gyfer prynu ystâd Parc Tŷ Glas, pencadlys blaenorol S4C, a rhedeg y busnes o rentu unedau i denantiaid.

Yn ystod 2022–23, cwblhawyd y broses o werthu ystâd Parc Tŷ Glas, ac yn dilyn hynny daeth S4C PTG Ltd i ben â masnachu.

## Perfformiad Ariannol 2024–25
Asedau net yr adain fasnachol ar 31 Mawrth 2025 oedd £19.3m (31 Mawrth 2024: £19.8m) a'r elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 oedd £0.242m (31 Mawrth 2024: elw o £1.488m). Roedd yr elw yn cynnwys enillion heb eu gwireddu mewn cronfa fuddsoddi a gedwir o fewn y Grŵp. Ar gyfer 2024–25, yr elw cyn y newid yng ngwerth marchnadol y gronfa fuddsoddi, treth a throsglwyddo difidend oedd £0.071m (2023–24: £0.709m).

Mae perfformiad ariannol yr is-gwmnïoedd masnachol yn ymddangos yn y datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp oddi fewn i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ystod 2024–25, cyfrannodd gweithgareddau masnachol S4C £0.750m i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C (2023–24: £0.720m).

## Llywodraethiant
Penodir cyfarwyddwyr yr is gwmnïoedd masnachol S4C gan Fwrdd S4C, ac mae'r cyfarwyddwyr hyn yn gwasanaethu ar Fwrdd y Grŵp Masnachol.

Mae Bwrdd y Grŵp Masnachol yn gyfrifol i Fwrdd S4C am ddatblygu strategaeth fasnachol S4C, ac am oruchwylio gweithgareddau masnachol S4C yn unol â'r strategaeth honno.

**Aelodaeth Bwrdd y Grŵp Masnachol**
Mae aelodaeth y Bwrdd y Grŵp Masnachol yn cynnwys rhai o aelodau anweithredol Bwrdd S4C, cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol, a swyddogion S4C.

Cadeirir Bwrdd y Grŵp Masnachol gan Brif Weithredwr S4C.

Yn ystod 2024–25, gwasanaethodd y canlynol fel cyfarwyddwyr is-gwmnïoedd masnachol S4C (ac felly ar Fwrdd y Grŵp Masnachol):

- Sioned Wiliam, Prif Weithredwr dros dro S4C – Cadeirydd Bwrdd y Grŵp Masnachol (08 Ebrill i 31 Rhagfyr 2024)
- Geraint Evans, Prif Weithredwr S4C – Cadeirydd Bwrdd y Grŵp Masnachol (o 01 Ionawr 2025)
- Adele Gritten, aelod anweithredol o Fwrdd S4C
- Richard Johnston, aelod anweithredol annibynnol (o 30 Ionawr 2025)
- Chris Jones, aelod anweithredol o Fwrdd S4C
- Oliver Lang, aelod anweithredol annibynnol (o 30 Ionawr 2025)
- Elin Morris, Prif Swyddog Gweithredu S4C
- Gwyn Roberts, aelod anweithredol annibynnol
- Lucy Sanan, aelod anweithredol annibynnol (o 30 Ionawr 2025)
- Sharon Winogorski, Prif Swyddog Cyllid S4C

Mae Ysgrifennydd Bwrdd S4C yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Grŵp Masnachol ar ran Bwrdd S4C. Gall Cadeirydd Bwrdd S4C hefyd fynychu yn ôl yr angen.

**Y Strategaeth Fasnachol**
Yn ystod 2022–23, cynhaliodd S4C arolwg o'i strategaeth fasnachol gyda chymorth ymgynghorwyr allanol. Canlyniad hyn oedd i strategaeth fasnachol newydd gael ei chymeradwyo gan Fwrdd S4C ar 20 Hydref 2022.

Mae'r strategaeth fasnachol hon ar gyfer S4C wedi ei llunio gyda phwrpas clir iddi: cyflawni gwerth ariannol a strategol i S4C, ei chynulleidfa ac i Gymru.

Bwriedir i'r strategaeth gyflawni mwy o elw ariannol; gwella gwerth ar sgrin a mewnbwn creadigol S4C; adeiladu perthnasoedd uniongyrchol cryfach gyda chynulleidfa S4C; a chefnogi twf economaidd a datblygu sgiliau yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn nodi 6 maes gweithgarwch masnachol ar gyfer S4C Masnachol:
- Cyd-gynhyrchu – lle mae S4C yn cynyddu maint a gwerth cynnwys sy'n cael ei gyd-gynhyrchu;
- Eiddo Deallusol Cynnwys – lle mae S4C yn cynyddu'r gwerth y mae'n ei gynhyrchu o gynnwys ac eiddo deallusol;
- Buddsoddi yn nhwf busnes – cynyddu elw strategol ac ariannol o ganlyniad i fuddsoddi mewn twf drwy sefydlu cronfa fuddsoddi i gymryd cyfranddaliadau mewn busnesau sy'n agos at bwrpas S4C, ac sydd â photensial cynyddol;
- Hysbysebu a Noddi – datblygu cyfleoedd cyffroes a parhaol ar draws llwyfannau S4C i gynyddu incwm o hysbysebu a noddi;
- Brandiau – mabwysiadu dull gweithredu ar draws y sefydliad o ran adeiladu brand defnyddwyr, i greu gwerth o ran cyllid ac i'r gynulleidfa, o frandiau S4C yn y presennol a'r dyfodol; a
- Digidol – creu sylfaen ar gyfer strategaeth ddigidol fasnachol, gan gynnwys buddsoddi mewn cynnyrch ac adnoddau sy'n cefnogi strategaeth ddigidol S4C ac sydd â defnydd masnachol ychwanegol.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi alinio'n agos ag amcanion craidd S4C ac yn cefnogi Strategaeth 2022–27.

Mae'r strategaeth fasnachol yn bwriadu cynyddu'r cyfraniad ariannol blynyddol o weithgareddau masnachol S4C i gronfa'r gwasanaeth cyhoeddus, a thyfu gwerth y gronfa fasnachol dros amser i gefnogi buddsoddiadau yn y dyfodol.

Mae gwerthiant Parc Tŷ Glas, yn ogystal â chael gwared â rhai buddsoddiadau ecwiti hanesyddol gan SDML, wedi darparu cyllid ychwanegol yn y gronfa fasnachol wrth gefn, i gefnogi gweithredu'r strategaeth fasnachol.

# Adroddiad Llywodraethu

**Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth teledu cyhoeddus a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel, trwy gyfrwng y Gymraeg, i'r gynulleidfa yng Nghymru yn bennaf, ond hefyd ar gyfer y gynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaeth Cymraeg S4C.**

Caiff strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol S4C eu diffinio mewn statud yn Neddfau Darlledu 1990 a 1996, a Deddf Gyfathrebu 2003 (fel y'u diwygiwyd).

Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro:

- Sut y caiff busnes y Bwrdd ei gynnal;
- Sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi;
- Sut mae'r Bwrdd yn gwerthuso ei waith a'i effeithiolrwydd; a
- Sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain, gan sicrhau atebolrwydd clir.

**Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C**
Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd S4C fel Bwrdd S4C, ac at y gwasanaeth fel S4C.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, o fewn cyd-destun sy'n cyfuno elfennau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Bwrdd, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda'r BBC.

## Y Bwrdd

Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai strwythur llywodraethu corfforaethol S4C fod yn seiliedig ar fwrdd unedol sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

Yn hydref 2018, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, rhoddodd S4C drefniadau dros dro ar waith ar sail weinyddol i hwyluso gweithredu'r argymhellion o fewn y ddarpariaeth statudol gyfredol. Cadarnhaodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd a rhoddwyd ar waith Bwrdd Unedol cysgodol fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad o S4C.

Gwnaeth y darpariaethau dros dro barhau ar sail weinyddol tan 23 Awst 2024 pan ddaeth yr adrannau perthnasol o Fesur y Cyfryngau 2024 i rym, sy'n diwygio fframwaith llywodraethu S4C yn ffurfiol gan gadarnhau'r model unedol o lywodraethu.

Diwygiwyd Rheolau Sefydlog y Bwrdd i gyd-fynd â'r newidiadau statudol, gan ddileu trefniadau blaenorol yr Awdurdod a'r Bwrdd Unedol cysgodol. Cyfeirir bellach at y corff fel Bwrdd S4C, ac mae'n cynnwys unigolion gweithredol ac anweithredol fel aelodau llawn.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Bwrdd S4C yn ei Rheolau Sefydlog, sydd ar gael ar wefan S4C.

## Swyddog Cyfrifo S4C

Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei ddynodi yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer S4C.

Yn ystod 2024–25, roedd y Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas ag ariannu statudol S4C, ac felly roedd gan y swyddog gyfrifoldeb am y defnydd priodol o arian Ffi'r Drwydded a dalwyd i S4C yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Am ran helaeth o'r cyfnod adrodd, Sioned Wiliam oedd Swyddog Cyfrifo S4C fel Prif Weithredwr dros dro'r sefydliad. Ymgymerodd Geraint Evans â'r swyddogaeth o 01 Ionawr 2025, ar ôl dechrau yn ei rôl fel Prif Weithredwr parhaol.


## Y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion, fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am weithredu'r swyddogaethau hyn.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, ei dîm ac aelodau staff S4C yw rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac ar-lein S4C.

Ar argymhelliad y Prif Weithredwr, yn ystod Ionawr 2025 cymeradwyodd y Bwrdd ddisodli'r Tîm Rheoli blaenorol gydag Uwch Dîm Arwain newydd.

**Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol S4C**



# Bwrdd S4C

**Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a hyd at ddau aelod gweithredol arall.**

**Ceir rhagor o fanylion am aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2024–25 yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.**

**Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C, gan gynnwys materion golygyddol a chomisiynu, a rheoli o ddydd i ddydd, i Brif Weithredwr S4C a'r Uwch Dîm Arwain. Mae Uwch Dîm Arwain S4C yn atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr, ac mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i lywio ac i oruchwylio cyfeiriad strategol y Sianel. Mae'r arfer hwn wedi bodoli ers 1982, ac mae'n parhau i gynnal a sicrhau annibyniaeth y Bwrdd rhag ymwneud â phenderfyniadau gweithredol ynglŷn â chynnwys gwasanaethau S4C.**

### Effeithiolrwydd a Gwerthuso

Mae'r Bwrdd yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun, gwaith ei bwyllgorau ac aelodau unigol. Yn unol ag arfer da, caiff adolygiadau allanol o effeithiolrwydd llywodraethu eu cynnal yn rheolaidd hefyd.

Yn ystod 2024–25, penodwyd y cwmni cyfreithiol Darwin Gray i gynnal adolygiad allanol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu S4C. Fel rhan o'r broses, mynychodd cynrychiolydd o Darwin Gray nifer o gyfarfodydd y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Rheoli (fel ag yr oedd ar y pryd) er mwyn arsylwi trafodaethau.

Cyflwynwyd adroddiad terfynol Darwin Gray i'r Bwrdd ar 24 Hydref 2024. Er bod y cwmni'n ystyried bod trefniadau llywodraethu S4C ar bapur yn gadarn ar y cyfan, cynigiodd gyfres o argymhellion i gryfhau'r trefniadau ymhellach, gan gynnwys awgrymiadau ar eu gweithredu ymarferol.

Mewn ymateb, lluniodd yr Ysgrifennydd gynllun gweithredu cryno ar ran y Bwrdd. Erbyn diwedd 2024–25, roedd y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau, ond bydd y Bwrdd yn parhau i dderbyn diweddariadau ar gynnydd nes cwblhau'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Yn gynnar yn 2025, yn unol â'r arfer mewnol, ymgymerodd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau â hunanwerthusiad ffurfiol. Trafodwyd yr adborth a gasglwyd gan yr holl aelodau, heb godi unrhyw faterion nad oeddent eisoes yn cael sylw fel rhan o ymateb i argymhellion Darwin Gray.

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- Darparu gwasanaethau teledu S4C;
- Gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- Ystyried barn y gynulleidfa am raglenni S4C;
- Cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- Goruchwylio, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- Gweithredu fel corff cyhoeddus;
- Paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- Phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog ar wefan S4C.

### Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd benodol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o weithgareddau S4C i Senedd y DU bob blwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno'r ddogfen gerbron Senedd Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol yn ffurfio sail i ymddangosiadau S4C gerbron pwyllgorau seneddol – gan gynnwys Pwyllgorau Materion Cymreig, a Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Senedd y DU; a Phwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Senedd Cymru – gan ddarparu elfen allweddol o graffu allanol ac atebolrwydd.

## Cydymffurfiaeth Reoleiddiol

Caiff gwasanaethau teledu a rhaglenni ar alw S4C eu rheoleiddio gan Ofcom. O dan y drefn hon, rhaid i S4C gydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion rheoleiddiol a nodir mewn deddfwriaeth a chan Ofcom, sef rheoleiddiwr cyfathrebu'r DU.

Mae gan S4C ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom a gofynion rheoleiddiol eraill, ac mae gan Ofcom bwerau penodol i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth.

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu gwybodaeth fanwl, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, data perfformiad a gwybodaeth am gydymffurfio â chwotâu.

Yn flaenorol, roedd gan Fwrdd S4C gyfrifoldebau cyfyngedig mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau ar-alw S4C. Ers 23 Awst 2024, pan ddaeth y darpariaethau perthnasol o Ddeddf Cyfryngau 2024 i rym, mae'r cyfrifoldebau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Ofcom.

Cwyn i Ofcom ynghylch Cân i Gymru

Yn ystod 2024–25, ymchwiliodd Ofcom i gŵyn am y rhaglen 'Cân i Gymru' (a ddarlledwyd 01 Mawrth 2024) yn sgil methiant technegol a effeithiodd ar y system bleidleisio. Gan nad oeddynt wedi derbyn neges gadarnhad briodol wrth ffonio i bleidleisio, gwnaeth rhai unigolion bleidleisio fwy nag unwaith gan gredu nad oedd eu pleidleisiau'n cael eu cofnodi'n gywir.

Penderfynodd Ofcom fod y darllediad wedi torri Rheolau 2.13 a 2.14 o God Darlledu Ofcom, gan ei fod yn gamarweiniol ac yn annheg o ran y broses bleidleisio. Hefyd, canfuwyd fod Rheol 9.30 wedi'i thorri gan nad oedd cost y galwadau premiwm i bleidleisio wedi'u nodi'n glir i'r gwylwyr.

Mewn ymateb, gweithredodd S4C gyfres o gamau er mwyn sicrhau na fyddai sefyllfa debyg yn codi eto. Roedd hyn yn cynnwys adolygu trefniadau technegol a chyfathrebu, a chryfhau goruchwyliaeth fewnol dros brosesau pleidleisio mewn rhaglenni byw. Felly, croesawodd Ofcom y camau a gymerwyd gan S4C i sicrhau na fyddai'r sefyllfa'n codi eto.

## Ceisio barn y gynulleidfa

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau ar gyfer casglu barn y cyhoedd am gynnwys S4C – gan gynnwys effaith cynnwys ar agweddau ac ymddygiad gwylwyr, a'r math o gynnwys y byddai pobl yn dymuno ei weld.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys: Panel Gwylwyr sy'n darparu adborth wythnosol ar raglenni; arolwg blynyddol o ganfyddiadau'r gynulleidfa; ac ystyriaeth o ddata perthnasol gan BARB, S4C Clic a BBC iPlayer.

## Ymateb i gwynion

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i alluogi gwylwyr i gwyno am gynnwys.

I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd wedi cytuno a chyhoeddi Proses Gwynion S4C, sy'n nodi sut y caiff cwynion eu trin – gan gynnwys rhai am gydymffurfiaeth neu faterion rheoleiddio.

Ceir gwybodaeth am sut i gyflwyno cwyn ar wefan S4C.

Os bydd cwynwr yn apelio yn erbyn penderfyniad gan y Prif Weithredwr yn unol â'r broses, bydd Panel Cwynion y Bwrdd yn ystyried y mater. Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac yn cwrdd yn ôl yr angen.

## Ymgysylltu â'r gweithlu a materion staff

Mae S4C a'r Bwrdd wedi parhau i gryfhau eu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gweithlu. Yn ystod 2024–25, cynhaliwyd arolwg staff cynhwysfawr a roddodd fewnwelediadau gwerthfawr i feysydd megis llesiant, ymddiriedaeth mewn arweinwyr, a hyder yn y broses o wneud penderfyniadau. Ymatebodd yr Uwch Dîm Arwain drwy ddiweddaru'r cynllun gweithredu ar ddiwylliant sefydliadol, gan gynnwys camau pendant i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Yn ogystal, bu'r Fforwm Staff yn parhau i ddatblygu fel llwyfan i gyflogeion gyfrannu at ddatblygiad S4C. Ymgysylltodd y Bwrdd yn uniongyrchol â'r Fforwm yn ystod y flwyddyn, gan atgyfnerthu cyfathrebu dwyffordd rhwng staff ac arweinyddiaeth.

**Goruchwylio materion sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd**
Mae’r Bwrdd yn cymryd diddordeb parhaus yng ngwaith S4C ar faterion amgylcheddol.

Er mai’r Uwch Dîm Arwain sy’n gyfrifol am y gwaith o ddydd i ddydd, mae’r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar fentrau i leihau effaith cynnwys a gweithgarwch corfforaethol S4C ar yr amgylchedd.

Yn ystod 2024–25, cafodd y Bwrdd wybodaeth am y camau sy’n cael eu cymryd i sicrhau bod cynnwys a gynhyrchir ar gyfer S4C yn bodloni safon achrediad albert.

Mae’r datganiad polisi a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfraniad cymdeithasol ac economaidd S4C hefyd yn nodi’r ymrwymiad i ‘Greu Gwerth yn Gynaliadwy’. Darperir diweddariad manwl ar y gwaith hwn mewn adrannau eraill o’r adroddiad.

**Llywodraethu a chreu gwerth hirdymor**
Yn ogystal â’i brif gyfrifoldebau statudol, mae’r Bwrdd yn cydnabod ei rôl ehangach o ran sicrhau bod llywodraethu’n cyfrannu at greu gwerth hirdymor i’r gynulleidfa, rhanddeiliaid, ac economi Cymru. Mae’r newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd – gan gynnwys adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd, diwygio strwythur pwyllgorau, a chryfhau trefniadau strategol – yn adlewyrchu ymrwymiad S4C i lywodraethu sy’n creu effaith gadarnhaol dros amser.

Yn benodol, mae’r Bwrdd wedi ceisio sicrhau bod ei waith craffu’n cael ei alinio’n agosach â blaenoriaethau strategol y sefydliad a’r nod o ‘Greu Gwerth yn Gynaliadwy’, fel a nodir yn y Datganiad ar Gyfraniad Economaidd a Chymdeithasol S4C.

**Cynllunio olyniaeth**
Yn sgil argymhellion yr adolygiad llywodraethu allanol, mae S4C wedi cymryd camau i ffurfioli cynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau’r Bwrdd a’r Uwch Dîm Arwain. Yn ystod 2024–25, bu’r Bwrdd yn ystyried egwyddorion cynllunio olyniaeth fel rhan o’i gyfrifoldebau llywodraethu craidd, ac fe ragwelir gwaith pellach yn 2025–26 i ddatblygu prosesau mwy strwythuredig yn y maes hwn.

Fe wnaeth y Pwyllgor Pobl a Thaliadau blaenorol ysgogi’r gwaith o adolygu strwythur y Tîm Rheoli (yr Uwch Dîm Arwain bellach) a chynllunio penodiadau i adlewyrchu anghenion strategol y sefydliad.

Yn ogystal, trafododd y Bwrdd y mecanweithiau i gefnogi pontio llyfn wrth i’r DCMS benodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol newydd, ac wrth i aelodau gweithredol newydd ymuno – gan gynnwys cynlluniau anwytho a hyfforddiant, yn ogystal ag asesiad o’r sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol.

# Swyddogaethau a Systemau Cyllid

### Paratoi'r Gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol hir dymor

Cymeradwyir cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau iddi) gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo cynllun ariannol pum mlynedd sy'n nodi cyfeiriad tymor hir y sefydliad, yn ogystal â chynllun ariannol amcanol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol am lunio a dadansoddi drafftiau o'r gyllideb flynyddol a'r cynlluniau ariannol tymor hir, ac am eu hargymell i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

### Swyddogaethau Archwilio

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau bod trefniadau archwilio priodol ar waith ar gyfer pob agwedd ar faterion ariannol S4C. Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddwy: Archwilio Allanol ac Archwilio Mewnol.

#### Archwilio Allanol

Ers Hydref 2019, mae Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi gweithredu fel archwiliwr allanol S4C ar sail weinyddol, drwy benodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Ers i ddarpariaethau Deddf Cyfryngau 2024 ddod i rym ar 23 Awst 2024, mae'r penodiad hwn bellach ar sail statudol.

Ceir adroddiad yr archwiliwr allanol i Fwrdd S4C yn adran y datganiadau ariannol ar gyfer 2024–25.

#### Archwilio Mewnol

Yn dilyn proses dendro gyhoeddus, penodwyd TIAA ar 16 Chwefror 2022 fel archwilwyr mewnol S4C am gyfnod o dair blynedd (tan ddiwedd 2024–25). Mae'r cytundeb yn cynnwys opsiwn i'w ymestyn am hyd at ddwy flynedd ychwanegol.

Cynhaliodd TIAA archwiliadau priodol trwy gydol y flwyddyn, gan roi sicrwydd ynghylch gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Maent yn adolygu'n annibynnol y prosesau rheoli a weithredir gan reolwyr, ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Os canfyddir rheolaethau gwan neu amhriodol sy'n creu risg i'r sefydliad, y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am fonitro'r camau cywiro perthnasol, gan sicrhau eu cwblhau'n brydlon gan reolwyr.

### Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol

Mae adnabod a rheoli risgiau yn greiddiol i waith y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain gyfrifoldeb clir i nodi risgiau sy'n wynebu S4C ac i roi gweithdrefnau priodol ar waith i'w monitro a'u lliniaru.

Mae fframwaith rheoli risg yn cael ei weithredu i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu yn unol ag arferion da ar reolaethau mewnol a rheoli risg.

Yn unol ag arweiniad "Rheolaeth Fewnol: Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfun" (Arweiniad Turnbull), mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod proses barhaus ar waith i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol sy'n wynebu Grŵp S4C, drwy gydol y flwyddyn ac ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Dyma elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol:

#### Rheolaeth Ariannol

Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer rheolaeth ariannol, gan gynnwys paratoi cyllidebau blynyddol ar gyfer pob canolfan gost. Caiff y rhain eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

Adroddir yn chwarterol ar ganlyniadau'r canolfannau cost, ac fe'u cymherir â'r gyllideb. Ymchwilir i unrhyw amrywiadau sylweddol. Caiff rhagolygon o ymrwymiadau eu diweddaru'n rheolaidd.

#### Adroddiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg i gefnogi'r broses o baratoi adroddiadau ariannol y Grŵp ac ar gyfer paratoi'r cyfrifon cyfun. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio'r prosesau hyn, gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion adrodd a rheoleiddio perthnasol.

#### Trefniadau Chwythu'r Chwiban

Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgelu gwybodaeth) er mwyn galluogi adrodd ar wybodaeth sensitif neu ddigwyddiadau mewn modd cyfrinachol. Cyhoeddir y polisi ar fewnrwyd S4C.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau trefniadau priodol ar gyfer ymchwilio i faterion a gyflwynir, ac am gamau dilynol priodol.

**Monitro rheolaethau a risgiau'r busnes**
Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o nodi a gwerthuso risgiau busnes sylweddol i'r Uwch Dîm Arwain, gan gynnwys cynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus ac fe allant ddod o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, methiant technoleg gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol, a newidiadau rheoleiddio.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar faterion risg, ac mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn darparu gwybodaeth chwarterol i'r Bwrdd am berfformiad ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn hysbysu'r Bwrdd am unrhyw newidiadau sylweddol yn y busnes neu'r amgylchedd allanol sy'n effeithio ar risgiau allweddol. Lle bo gwelliannau'n ofynnol, caiff argymhellion yr Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Risg eu hystyried.

**Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd**
Mae Cofrestr Risg Strategol S4C yn adlewyrchu asesiad o amcanion strategol y sefydliad a'r risgiau allai effeithio ar eu cyflawni. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i fonitro'r risgiau hyn. Derbyniwyd hefyd sicrwydd gan yr archwilwyr mewnol i gynorthwyo'r Pwyllgor i asesu proffil risg y sefydliad.

Mae'r adran isod yn crynhoi'r prif risgiau ac ansicrwydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r camau lliniaru perthnasol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar risgiau strategol allai danseilio gallu S4C i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae'r prif feysydd risg a nodwyd yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categoreiddio fel rhai'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaeth S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethiant.

**1. Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth**
Prif ddyletswydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu digidol yn y Gymraeg sy'n cynnwys amrywiaeth o raglenni o safon uchel. I wneud hynny, rhaid gwrando ar anghenion y gynulleidfa, ymateb iddynt, a sicrhau bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu cyflenwi cynnwys o ansawdd.

Mae'r Bwrdd yn monitro ansawdd y gwasanaeth drwy'r flwyddyn, gan ddefnyddio data annibynnol a dulliau ymgynghori amrywiol.

Drwy gydweithio'n agos â chynhyrchwyr, mae S4C yn defnyddio adborth y gynulleidfa i wella cynnwys ac i sicrhau gwerth am arian.

Mewn amgylchedd cyfryngol sy'n newid yn gyflym, rhaid i S4C ymateb i batrymau gwylio a disgwyliadau defnyddwyr ar draws ystod o lwyfannau digidol – gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, cynnwys manylder uwch a fformatau newydd.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod prosesau effeithiol ar waith i fonitro perfformiad ar draws holl wasanaethau S4C. Fodd bynnag, mae darparu cynnwys o ansawdd ar sawl llwyfan yn peri costau cynyddol, ac mae hyn yn fater sy'n parhau i gael sylw o fewn trafodaethau cyllidebol.

Rhaid i seilwaith technegol S4C gynnal gwasanaethau 24/7 ar draws amrywiaeth o lwyfannau. Mae cynlluniau parhad busnes ar waith i sicrhau bod y seilwaith hwn yn gadarn ac y gellir ymateb yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiadau technegol.

Ers Ionawr 2021, mae gwasanaethau darlledu technegol S4C wedi'u cyd-leoli gyda BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

**2. Strategol ac Ariannol**
Ers Ebrill 2022, darperir holl gyllid cyhoeddus S4C drwy Ffi'r Drwydded, a disgwylir y bydd unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn rhan o setliad Ffi'r Drwydded.

Ym mis Ionawr 2022, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai cyllid S4C yn cynnwys y swm a delir drwy Ffi'r Drwydded (£74.5m) a'r grant blaenorol gan DCMS (£6.85m). Ychwanegwyd £7.5m arall y flwyddyn i gefnogi datblygiad digidol.

Yn gyfan gwbl, cyfanswm cyllid S4C o 01 Ebrill 2022 oedd tua £88.85m. O Ebrill 2024 ymlaen, mae'r swm hwn yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant CPI tan 31 Mawrth 2028.

Er gwaethaf y sicrwydd hwn, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a'r costau cynyddol yn y sector cynhyrchu. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio gyda'r sector i reoli costau a sicrhau gwerth am arian.

Mae S4C hefyd yn cyfrannu at Adolygiad Model Ariannu'r BBC, a allai effeithio ar drefniadau ariannu'r dyfodol.

**3. Strwythur a Llywodraethiant**
Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas.

Yn dilyn yr ymarfer canfod ffeithiau a gomisiynwyd ym mis Mai 2023, cyhoeddodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu ar 29 Chwefror 2024. Roedd hyn yn cynnwys adolygu trefniadau llywodraethu S4C, comisiynu adolygiad allanol o'r trefniadau hynny gan Darwin Gray, a diwygio Rheolau Sefydlog y Bwrdd.

Cafodd y mwyafrif o'r camau hyn eu cwblhau erbyn diwedd 2024–25.

Mae Cytundeb Ariannu, Partneriaeth ac Atebolrwydd gyda'r BBC wedi bod ar waith ers Tachwedd 2017. Mae gan y Bwrdd brosesau addas mewn lle i adrodd i Fwrdd y BBC trwy Bwyllgor Archwilio'r sefydliad hwnnw

## Datganiad Archwaeth Risg

Ar 14 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Bwrdd ddatganiad newydd ar archwaeth risg S4C.

Mae'r datganiad yn nodi sut y caiff bygythiadau a chyfleoedd eu cydbwyso wrth geisio cyflawni amcanion strategol. Mae'n helpu S4C i ymateb yn gyson i risg, gan sicrhau bod unrhyw risg a dderbynnir yn cael ei asesu'n briodol ac y ceir adnoddau cymesur i'w lliniaru.

Mae'r datganiad yn wahanol ar draws meysydd busnes. Er enghraifft, gall fod parodrwydd isel i dderbyn risg mewn materion cyfreithiol neu ariannol, ond mwy o dderbyniaeth mewn meysydd fel datblygu a phrosiectau.

Pennir y datganiad gan y Bwrdd, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried unrhyw achosion o dorri'r archwaeth neu densiynau sy'n codi. Caiff y datganiad ei adolygu'n rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn, gan fod angen iddo ymateb i amgylchiadau newidiol.

Mae S4C yn gwahaniaethu rhwng risgiau gweithredol, sy'n fewnol ac o fewn ein rheolaeth, a risgiau allanol nad ydynt o fewn ein rheolaeth uniongyrchol ond y mae angen eu hystyried wrth gynllunio neu lunio ymatebion addas.

## Datganiad Archwaeth Risg trosfwaol

*Nid oes gan S4C un archwaeth risg, ond yn hytrach archwaethau risg ar draws ystod ei gweithgareddau. Mae S4C yn cydnabod y gall ddewis derbyn gwahanol raddau o risg mewn gwahanol feysydd. Mae S4C wedi cytuno ar lefel briodol o archwaeth risg ar gyfer gwahanol feysydd ei busnes. Pan fydd S4C yn dewis derbyn lefel uwch o risg bydd yn gwneud hynny,  yn amodol bob amser ar sicrhau bod y manteision a'r bygythiadau posibl yn cael eu deall yn llawn cyn i gamau gweithredu gael eu hawdurdodi, bod yna ddigon o gapasiti risg, a bod mesurau synhwyrol a chymesur yn cael eu sefydlu er mwyn lliniaru risg.*

# Aelodaeth Bwrdd S4C

**Mae Bwrdd S4C yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol; y Prif Weithredwr a hyd at ddau aelod gweithredol arall.**

**Penodir aelodau anweithredol Bwrdd S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, a Llywodraeth Cymru.**

**Hysbysebir swyddi anweithredol ar y Bwrdd yn gyhoeddus, ac mae'r penodiadau'n cael eu gwneud yn dilyn trefn penodiadau cyhoeddus.**

**Mae gan yr aelodaeth anweithredol brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o'r Uwch Dîm Arwain, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan.**

**Mae'r Prif Weithredwr yn aelod ex officio o'r Bwrdd, tra bod unrhyw aelodau gweithredol eraill yn cael eu penodi i'r Bwrdd gan yr aelodau anweithredol yn unol â Rheolau Sefydlog S4C.**

**Amrywiaeth**
Mae amrywiaeth o fewn aelodaeth y Bwrdd yn cael ei ystyried fel rhan o broses ddethol y DCMS. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei chynulleidfa a'u hanghenion.

**Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau'r Bwrdd**
Mae rhaglen sefydlu bwrpasol yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd o'r Bwrdd.

Mae'r broses sefydlu yn cynnwys cyfarfodydd ag unigolion allweddol o fewn S4C a'r Bwrdd, darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â dyletswyddau cyfarwyddwyr, gwybodaeth yn ymwneud â gweithrediad busnes S4C, sector y cyfryngau; ac hefyd y prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n wynebu S4C.

Ynghyd â darparu gwybodaeth, mae'r broses sefydlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediad busnes

Yn ystod 2024–25, darparwyd cyfleoedd hyfforddi a datblygu i aelodau'r Bwrdd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:
- Effeithiolrwydd llywodraethu, ac arferion gorau o ran gweithredu fel Bwrdd unedol yn unol â Chod Diwylliant S4C;
- Y dirwedd wleidyddol a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru a San Steffan;
- Diwylliant sefydliadol; a
- Datblygiadau yn y sector darlledu a'r berthynas â'r sector gynhyrchu annibynnol yng Nghymru.

Yn ogystal, fe gynigiwyd i aelodau fynychu sesiynau datblygu Cyfarwyddwr Anweithredol a ddarperir gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU.

**Diddordebau'r Aelodau**
Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau allanol yr aelodau ar gael ar wefan S4C.

Yn ystod y cyfnod nid oedd gan unrhyw aelodau anweithredol y Bwrdd fudd mewn cytundebau gydag S4C.

**Cydnabyddiaeth Aelodau**
Caiff gwybodaeth mewn perthynas â chydnabyddiaeth yr aelodau ei nodi mewn nodyn i'r Datganiad Ariannol.

# Aelodaeth 2024–25

**Arhosodd cyfansoddiad y Bwrdd yn gymharol sefydlog drwy gydol y flwyddyn adrodd, wrth i S4C ddisgwyl canlyniad y broses benodi cyhoeddus ar gyfer Cadeirydd ac aelodau anweithredol newydd.**

**Aelod Annibynnol Arweiniol**
Crëwyd y swyddogaeth yr Aelod Annibynnol Arweiniol gan y Bwrdd yn 2016 yn dilyn cyngor a roddwyd gan DCMS i'r cyrff a noddir ganddi.

Gwasanaethodd Chris Jones fel yr Aelod Annibynnol Arweiniol newydd rhwng 08 Rhagfyr 2022 a 31 Ionawr 2025. Fe'i olynwyd yn y swyddogaeth gan Suzy Davies, yr Aelod Annibynnol Arweiniol presennol.


Mae cyfrifoldebau'r Aelod Annibynnol Arweiniol yn cynnwys gweithredu fel seinfwrdd gwrthrychol i'r Cadeirydd a darparu cymorth wrth gyflawni ei ddyletswyddau; cadeirio cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd lle mae gwrthdaro buddiannau posibl; a bod ar gael fel cyfryngwr dibynadwy os oes angen. Mae'r Aelod Annibynnol Arweiniol hefyd yn arwain gwerthusiad y Cadeirydd ar ran y Bwrdd, ac yn cefnogi'r Cadeirydd wrth arwain gwerthusiad ehangach o waith y Bwrdd.

.

**Sgiliau**
Adeg eu penodi, ac unwaith y flwyddyn, gwahoddir holl aelodau'r Bwrdd i ddatgan y sgiliau a'r profiadau y gallant dynnu arnynt i wneud y cyfraniad mwyaf effeithiol i S4C a gwaith y Bwrdd.

Mae'r cydbwysedd sgiliau ymysg aelodau'r Bwrdd Unedol yn cael ei ystyried fel rhan o broses ddethol y DCMS.


Ar 31 Mawrth 2025, roedd aelodau'r Bwrdd yn meddu ar sgiliau a phrofiadau uniongyrchol yn y meysydd canlynol:




## Amrywiaeth


Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gofyn i aelodau'r Bwrdd ddarparu gwybodaeth er mwyn casglu data perthnasol am amrywiaeth yr aelodaeth.


Ar 31 Mawrth 2025, roedd pedwar dyn a phedair menyw yn aelodau o'r Bwrdd.






Ar sail ymatebion yr aelodau hynny i holiadur ddanfonwyd atynt, roedd nodweddion amrywiaeth eraill y Bwrdd ar 31 Mawrth 2025 fel a ganlyn:










**Guto Bebb**
**Cadeirydd dros dro (01.04.2024 – 30.04.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 28.02.2026**
Mae Guto'n Brif Weithredwr Gwasanaeth Yswiriant Undeb Amaethwyr Cymru ers 2020 ac yn Brif Weithredwr Grŵp Undeb Amaethwyr Cymru yn ei gyfanrwydd ers Chwefror 2021. Cyn hynny, fe fu'n Aelod Seneddol dros Aberconwy am ddegawd gan wasanaethu fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Yn enedigol o Sir y Fflint, mae Guto wedi byw yng Nghaernarfon ers dros deugain mlynedd. Cyn ei ethol i San Steffan fe fu'n rhedeg amrywiol fusnesau gan gynnwys ymgynghoriaeth datblygu economaidd a siop lyfrau.



**Suzy Davies**
**Aelod Annibynnol Arweiniol (o 01.02.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.08.2022 – 31.07.2026**
Yn gyfreithiwr cymwysedig, bu Suzy yn gweithio ym maes marchnata'r celfyddydau ac fel uwch gyfreithiwr cyn treulio deng mlynedd fel Aelod o'r Senedd, gan gynnwys cyfnod fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Ddiwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg.

Mae hi wedi cadeirio Cynghrair Twristiaeth Cymru, yn eiriolwr dros gydraddoldeb fel aelod o fwrdd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod, ac yn aelod o fwrdd Colegau Cymru a bwrdd archwilio Comisiynydd Plant Cymru.

Yn un o sylfaenwyr Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru, mae'n aelod o Fwrdd Gŵyl Ffilm Iris.

Wedi'i magu ledled de Cymru, mae hi bellach yn byw yn Nyffryn Dyfi, lle mae ei theulu'n ffermio ac yn rhedeg busnes twristiaeth, a lle dysgodd Gymraeg.



**Adele Gritten**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 30.04.2025**
Cafodd Adele ei geni a'i magu yn Abertawe. Mae'n weithredwr profiadol ar lefel bwrdd ar ôl gweithio mewn rolau uwch reolwr ar gyfer amrywiaeth o ymgynghoriaethau cyfryngau, marchnata ac ymchwil, gan gynnwys YouGov, ers dros 20 mlynedd.

Ymunodd Adele a Local Partnerships LLP fel Prif Weithredwr ym mis Tachwedd 2022, cwmni sy'n eiddo ar y cyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Y Trysorlys a Llywodraeth Cymru.

Yn arweinydd profiadol, uchel ei pharch, mae gan Adele MA mewn Gwyddor Gymdeithasol a Gwleidyddol o Brifysgol Caergrawnt.



**Chris Jones**
**Aelod Annibynnol Arweiniol**
**(08.12.2022 – 31.01.2025)**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.02.2021 – 30.04.2025**
Roedd Chris yn gyd-sylfaenydd Glas Cymru Cyf, a brynodd Dŵr Cymru yn 2001 i greu'r unig gwmni cyfleustodau nid-er-elw yn y DU. Bu'n Brif Swyddog Ariannol Dŵr Cymru rhwng 2001 a 2013, ac yna'n Brif Weithredwr hyd at fis Mai 2020.

Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Xoserve Limited, ac yn gyn-gyfarwyddwr anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality. Mae hefyd yn aelod lleyg o Gyngor Prifysgol Caerdydd.

Mae ganddo hanes o wasanaethu sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Sefydliad Materion Cymreig, Water UK a CBI Cymru.

Dysgodd Gymraeg fel oedolyn. Dyfarnwyd CBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2020.



**Denise Lewis Poulton**
**Aelod Anweithredol**

**Tymor Aelodaeth: 01.04.2021 – 31.03.2029**
Mae Denise yn arbenigwr profiadol ym maes cyfathrebu strategol, brand a materion corfforaethol. Wedi'i geni yng Nghastell Newydd Emlyn, astudiodd yn Ysgol Ramadeg Llandysul ac yna yng Ngholeg King's, Prifysgol Llundain.

Bu'n uwch gyfarwyddwr mewn cwmnïau telegyfathrebu rhyngwladol fel Bell Canada, Cable & Wireless ac Orange, cyn sefydlu busnes ymgynghori'n cefnogi sefydliadau fel Llywodraeth Cymru, S4C a Chanolfan y Mileniwm.

Mae wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwr neu Gyfarwyddwr Anweithredol gyda sawl sefydliad cenedlaethol, gan gynnwys Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru a Gŵyl y Gelli. Mae'n Gymrawd Oes er Anrhydedd i BAFTA.

Ym Mawrth 2023, fe'i penodwyd yn Ymddiriedolwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cymru.



**Sioned Wiliam**
**Prif Weithredwr dros dro**
**(08.04.2024 tan 31.12.2024)**
**Aelod Gweithredol**

Mae Sioned yn adnabyddus yn y diwydiant fel cyn-Gomisiynydd Comedi BBC Radio 4 a chyn-Bennaeth Comedi ITV. Cyn hynny bu'n gynhyrchydd rhaglenni gyda chwmnïau teledu Talkback a Hat Trick.

Ymunodd Sioned gydag S4C fel y Prif Weithredwr dros dro ar 08 Ebrill 2024. Ei phrif gyfrifoldebau yn ystod ei chyfnod yn swydd honno oedd arwain ar Gynllun Gweithredu S4C, oedd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn Chwefror 2024.



**Geraint Evans**
**Prif Weithredwr (o 01.01.2025); Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi, a Phrif Swyddog Cynnwys dros dro**
**(25.11.2023 tan 31.12.2024)**
**Aelod Gweithredol**

Ers ymuno â S4C yn 2019 bu Geraint yn Gomisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes, yn Gyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi ac yn Brif Swyddog Cynnwys Dros Dro. Bu'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol S4C, yn arwain y tîm comisiynu ac yn datblygu strategaeth gyhoeddi cynnwys aml-blatfform.

Cyn ymuno â'r sianel, bu'n newyddiadurwr gyda ITV Cymru am 25 mlynedd, yn Ohebydd ar gyfres materion cyfoes Y Byd ar Bedwar, yna'n Olygydd y Gyfres ac yn Bennaeth Rhaglenni Cymraeg ITV.



**Llion Iwan**
**Prif Swyddog Cynnwys (o 10.03.2025)**
**Aelod Gweithredol**

Penodwyd Llion Iwan yn Brif Swyddog Cynnwys S4C ym mis Mawrth 2025. Daw Llion â phrofiad helaeth a gweledigaeth greadigol i'r rôl allweddol hon.

Cychwynnodd Llion ei yrfa fel gohebydd ar bapurau lleol cyn ymuno â'r BBC fel newyddiadurwr, lle bu'n gweithio am dros ddegawd mewn amryw rolau newyddion a chwaraeon. Yn ystod ei gyfnod yn y BBC, cynhyrchodd a chyfarwyddodd raglenni dogfen ar gyfer BBC1, BBC2 a BBC4.

Yn 2012, ymunodd Llion ag S4C fel Comisiynydd Cynnwys Ffeithiol a Chwaraeon, cyn dod yn Bennaeth Darlledu Cynnwys. Yn ddiweddarach, symudodd i fod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Da, lle arweiniodd y cwmni i lwyddiant cyllidebol a chynyddu trosiant, gan arloesi gyda gosod cynnwys Cymraeg ar Amazon Prime.



**Elin Morris**
**Prif Swyddog Gweithredu**
**Aelod Gweithredol**

Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth. Roedd yn gyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards am dros 18 mlynedd.

Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, gan ddod yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018.

Yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus, penododd yr Ysgrifennydd Gwladol y canlynol i wasanaethu ar Fwrdd S4C am dymor o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Mai 2025:

- Delyth Evans, Cadeirydd
- Dyfrig Davies, Aelod Anweithredol
- Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Aelod Anweithredol
- Wyn Innes, Aelod Anweithredol
- Betsan Powys, Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut, Aelod Anweithredol

# Presenoldeb

Mae'r tabl isod yn nodi'r nifer o gyfarfodydd Bwrdd a'i bwyllgorau fynychwyd gan yr aelodau.

| 01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025 | Y Bwrdd | Y Pwyllgor Archwilio a Risg | Y Pwyllgor Cyfathrebu | Y Pwyllgor Cynnwys | Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn | 7 | 5 | 1 | 1 | 2 |
| Guto Bebb | 7/7 | X | 0/1 | 1/1 | X |
| Suzy Davies | 6/7 | 5/5 | 1/1 | X | X |
| Adele Gritten | 5/7 | 4/5 | X | 0/1 | 2/2 |
| Chris Jones | 6/7 | 5/5 | X | X | 2/2 |
| Denise Lewis Poulton | 7/7 | X | 1/1 | 1/1 | X |
| Sioned Wiliam | 5/5 | 4/4 | 1/1 | 1/1 | 2/2 |
| Geraint Evans | 7/7 | 1/1 | 1/1 | 1/1 | X |
| Llion Iwan | 1/1 | X | X | X | X |
| Elin Morris | 7/7 | 5/5 | X | X | 2/2 |

Mynegir presenoldeb fel y nifer o gyfarfodydd a fynychwyd fel aelod swyddogol / y nifer o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fynychu.

# Yr Uwch Dîm Arwain

**Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion, sy'n ffurfio Uwch Dîm Arwain S4C yn unol â'r Rheolau Sefydlog perthnasol.**

**Yr Uwch Dîm Arwain sy'n gyfrifol am weithrediad S4C o ddydd i ddydd, ac mae'n atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr.**

**Y Pwyllgor Taliadau sy'n gyfrifol ar ran y Bwrdd am gymeradwyo penodiadau i'r Uwch Dîm Arwain. Caiff aelodau, penodiadau, newidiadau i'r Uwch Dîm Arwain, a thelerau ac amodau aelodau unigol o'r Uwch Dîm Arwain eu cynnig i'r Pwyllgor Taliadau gan y Prif Weithredwr.**

**Aelodaeth 2024–25**

Yn dilyn ei benodiad fel Prif Weithredwr S4C, argymhellodd Geraint Evans ddisodli Tîm Rheoli blaenorol y sefydliad ag Uwch Dîm Arwain newydd – argymhelliad a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 23 Ionawr 2025. O ganlyniad, adolygwyd aelodaeth y tîm a chytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig.

Fe wasanaethodd y canlynol ar y Tîm Rheoli / yr Uwch Dîm Arwain yn ystod 2024–25:



**Sioned Wiliam**
**Prif Weithredwr dros dro**
**(08.04.2024 tan 31.12.2024)**

Mae Sioned yn adnabyddus yn y diwydiant fel cyn-Gomisiynydd Comedi BBC Radio 4 a chyn-Bennaeth Comedi ITV. Cyn hynny bu'n gynhyrchydd rhaglenni gyda chwmnïau teledu Talkback a Hat Trick.

Ymunodd Sioned gydag S4C fel y Prif Weithredwr dros dro ar 08 Ebrill 2024. Ei phrif gyfrifoldebau yn ystod ei chyfnod yn swydd honno oedd arwain ar Gynllun Gweithredu S4C, oedd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn Chwefror 2024.



**Geraint Evans**
**Prif Weithredwr (o 01.01.2025); Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi, a Phrif Swyddog Cynnwys dros dro (25.11.2023 tan 31.12.2024)**

Ers ymuno â S4C yn 2019 bu Geraint yn Gomisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes, yn Gyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi ac yn Brif Swyddog Cynnwys Dros Dro. Bu'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol S4C, yn arwain y tîm comisiynu ac yn datblygu strategaeth gyhoeddi cynnwys aml-blatfform.

Cyn ymuno â'r sianel, bu'n newyddiadurwr gyda ITV Cymru am 25 mlynedd, yn Ohebydd ar gyfres materion cyfoes Y Byd ar Bedwar, yna'n Olygydd y Gyfres ac yn Bennaeth Rhaglenni Cymraeg ITV.



**Nadine Beaton**
**Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (o 06.01.2025)**

Mae Nadine yn wreiddiol o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn byw yng Nghaerdydd. Mynychodd Coleg Cerdd a Drama Frenhinol Cymru cyn dilyn gyrfa gorfforaethol ym maes cyfathrebu mewnol strategol, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol.

Bu'n gyfrifol am lunio strategaeth Pobl a Diwylliant yn Gocompare.com ac yn ddiweddar mae wedi gweithio fel ymgynghorydd i gwmnïau technoleg wrth sefydlu systemau gweithredol.

Mae ganddi brofiad traws-sector helaeth, gan gynnwys yn y cyfryngau (Skillset Cymru), addysg (CBAC) a'r diwydiant fintech, lle mae wedi arbenigo mewn dylunio prosesau sy'n meithrin diwylliant perfformiad uchel ac ymgysylltiad gweithwyr effeithiol.



**Manon Edwards Ahir**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata**

Mae Manon wedi gweithio ym maes newyddiaduraeth a chyfathrebu ers dros bum mlynedd ar hugain. Yn fwyaf diweddar bu'n Bennaeth Cynllunio a Materion Allanol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar ôl treulio cyfnod fel Pennaeth Newyddion, Cyfryngau a Digidol yn Senedd Cymru, gan oruchwylio'r gwaith o gyfathrebu ac ail-frandio Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddo esblygu i fod yn Senedd Cymru.

Cyn hynny, bu'n gydberchennog a Rheolwr Gyfarwyddwr yr asiantaeth gyfathrebu ddwyieithog, Mela Media, gan gynrychioli ystod eang o gleientiaid ag arbenigedd yn y sector cyfryngau a darlledu yn y sector preifat a chyhoeddus.

Mae Manon hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol gydag Opera Cenedlaethol Cymru.



**Llion Iwan**
**Prif Swyddog Cynnwys (o 10.03.2025)**
Penodwyd Llion Iwan yn Brif Swyddog Cynnwys S4C ym mis Mawrth 2025. Daw Llion â phrofiad helaeth a gweledigaeth greadigol i'r rôl allweddol hon.

Cychwynnodd Llion ei yrfa fel gohebydd ar bapurau lleol cyn ymuno â'r BBC fel newyddiadurwr, lle bu'n gweithio am dros ddegawd mewn amryw rolau newyddion a chwaraeon. Yn ystod ei gyfnod yn y BBC, cynhyrchodd a chyfarwyddodd raglenni dogfen ar gyfer BBC1, BBC2 a BBC4.

Yn 2012, ymunodd Llion ag S4C fel Comisiynydd Cynnwys Ffeithiol a Chwaraeon, cyn dod yn Bennaeth Darlledu Cynnwys. Yn ddiweddarach, symudodd i fod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Da, lle arweiniodd y cwmni i lwyddiant cyllidebol a chynyddu trosiant, gan arloesi gyda gosod cynnwys Cymraeg ar Amazon Prime.



**Elin Morris**
**Prif Swyddog Gweithredu**
Mae Elin yn dod yn wreiddiol o Lanrhystud, Aberystwyth. Roedd yn gyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards am dros 18 mlynedd.

Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009, gan ddod yn Brif Swyddog Gweithredu yn 2018.



**Iestyn Morris**
**Pennaeth Cyfreithiol a Materion Busnes (o 27.01.2025)**
Wedi'i eni a'i fagu yng Nghaerfyrddin a Bro Morgannwg, astudiodd Iestyn y gyfraith ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Chaerdydd. Ar ôl cymhwyso yn 2005, gweithiodd mewn practis preifat yng Nghaerdydd lle aeth yn ei flaen i fod yn Bartner yn arbenigo'n bennaf mewn cyfraith cyflogaeth.

Ymunodd ag S4C yn 2018, gan arwain y timoedd cyfreithiol a materion busnes. Yn rhinwedd ei swydd mae Iestyn yn gyfarwyddwr anweithredol ar gwmni'r Educational Recording Agency (ERA).

Mae Iestyn hefyd wedi bod yn ymddiriedolwr gyda Cholegau Cymru ac elusen Tenovus, ac mae'n parhau'n lywodraethwr efo Coleg Caerdydd a'r Fro ac Ysgol Garth Olwg.

Ymunodd ag Uwch Dîm Arwain S4C yn Ionawr 2025.



**Geraint Pugh**
**Ysgrifennydd y Bwrdd (o 27.01.2025)**
Yn wreiddiol o Lanbedr Pont Steffan, ond bellach yn byw yn Aberystwyth, ymunodd Geraint ag S4C fel Ysgrifennydd y Bwrdd ym mis Hydref 2021.

Cyn hynny, bu'n Ysgrifennydd y Brifysgol ym Mhrifysgol Aberystwyth am fwy nag wyth mlynedd.

Fel rhan o'i rôl yn S4C, mae Geraint yn gyfrifol am gynghori Bwrdd Unedol S4C i sicrhau llywodraethu priodol ac effeithiol ar draws holl waith S4C.

Er yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli blaenorol, daeth yn aelod llawn pan sefydlwyd yr Uwch Dîm Arwain newydd.



**Catrin Whitmore**
**Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (tan 02.07.2024)**
Ar ôl dechrau ei gyrfa yn y sector annibynnol, aeth Catrin ymlaen i ymuno â'r BBC, lle bu'n gweithio ar amryw o gynyrchiadau cyn arwain y swyddogaeth Talent yng Nghymru a Bryste ar gyfer BBC Studios.

Yn wreiddiol o'r Rhondda, mae Catrin yn angerddol am feithrin talent a datblygu'r sector greadigol yng Nghymru.



**Mali Williams**
**Pennaeth Materion Cyhoeddus (o 27.01.2025)**
Mae Mali yn arwain ar waith materion cyhoeddus a phartneriaethau strategol S4C. Mae'n sicrhau bod S4C yn meithrin a chynnal perthynas gyda'i rhanddeiliaid allweddol ac yn hyrwyddo dealltwriaeth well o amcanion, gofynion a llwyddiannau'r corff.

Wedi'i geni a'i magu yng Nghaerdydd, mae gan Mali radd yn y Gyfraith o'r LSE, a gradd meistr mewn Cyfathrebu Gwleidyddol o JOMEC, Prifysgol Caerdydd. Fe ymunodd hi ag S4C gyntaf yn 2017.

Daeth yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn Ionawr 2025.



**Sharon Winogorski**
**Prif Swyddog Cyllid**
Mae Sharon yn gyfrifydd siartredig. Cyn ymuno â S4C yn 1998, gweithiodd Sharon i nifer o gwmnïau a sefydliadau.

Fe'i phenodwyd hi i Dîm Rheoli S4C ym mis Hydref 2018. Mae'n gyfrifol am Adran Gyllid S4C sy'n cynnwys materion ariannol a chyllidebol ar gyfer endidau cyhoeddus a masnachol S4C.

Mae Sharon yn dysgu Cymraeg.

# Strwythur Gwaith Bwrdd S4C

**Mae Bwrdd S4C yn cyfarfod yn ôl yr angen, ac o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Cynhelir fel arfer dau 'ddiwrnod strategol' pellach bob blwyddyn, yn ychwanegol i'r cyfarfodydd ffurfiol.**

**Yn ogystal ag aelodau anweithredol a gweithredol y Bwrdd, mae Ysgrifennydd y Bwrdd ac uwch swyddogion eraill o Uwch Dîm Arwain S4C hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cymryd rhan yn ei drafodaethau.**

**Mae'r Uwch Dîm Arwain yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Bwrdd, ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol.**

**Gall pob aelod ofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.**

**Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu ar berfformiad S4C o ran cyflawni'r nodau ac amcanion a gytunwyd, ac yn monitro adroddiadau perfformiad yn unol â hynny. Maent hefyd yn sicrhau cywirdeb gwybodaeth ariannol ac yn goruchwylio'r systemau rheolaeth ariannol a rheoli risg, gan sicrhau eu bod yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.**

**Er bod y Bwrdd yn adolygu'n gyfnodol y cyfrifoldebau a'r pwerau y mae'n eu dirprwyo, mae'r cyfrifoldeb am weithredu polisïau a rhedeg gwasanaethau S4C o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, ac ymlaen i'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod gweithrediad S4C yn unol â'i gylch gorchwyl a'i strategaeth gorfforaethol.**

Yn ystod 2024–25, roedd y materion a ystyriwyd gan y Bwrdd yn cynnwys:

- Cynnydd ar weithredu Strategaeth 2022, gan gynnwys cymeradwyo dashfwrdd ar gyflawni'r Strategaeth i'w gyflwyno i'r DCMS yn chwarterol;
- Cymeradwyo Strategaeth Gynnwys newydd, a derbyn cyflwyniadau ar wahanol genres cynnwys;
- Cyllideb S4C ar gyfer 2025–26, a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y blynyddoedd dilynol;
- Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2023–24;
- Cynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer y 10 awr o gynnwys fydd yn cael ei ddarparu i S4C yn 2025–26;
- Adroddiadau blynyddol yr archwilwyr mewnol ac allanol, ac adroddiadau ar feysydd megis iechyd a diogelwch, y Safonau Iaith, a pherfformiad ar gyfryngau cymdeithasol;
- Canfyddiadau'r adolygiad allanol o effeithiolrwydd llywodraethu gan Darwin Gray, gan gynnwys cynllun gweithredu a diwygiadau i Reolau Sefydlog y Bwrdd;
- Adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg, a chymeradwyo diwygiadau i bolisïau llywodraethu megis Chwythu'r Chwiban a Chod Ymarfer aelodau'r Bwrdd;
- Trefniadau llywodraethu mewnol, gan gynnwys swyddogaethau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, a chynlluniau hyfforddi ac anwytho ar gyfer aelodau'r Bwrdd; a
- Chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr TAC, Bectu a'r Fforwm Staff.

### Strwythur Pwyllgorau Bwrdd S4C

Mae gan y Bwrdd nifer o bwyllgorau i oruchwylio gwahanol agweddau ar waith S4C.

Mae'r pwyllgorau hyn yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd, sy'n ystyried ac yn cymeradwyo'u hargymhellion.

Mewn ymateb i adolygiad allanol o effeithiolrwydd llywodraethu gan Darwin Gray, penderfynodd y Bwrdd yn Hydref 2024 leihau nifer y pwyllgorau, gan ymgorffori gwaith y pwyllgorau Cynnwys a Chyfathrebu blaenorol yn rhan greiddiol o'i drafodaethau ei hun.

Ers hynny, mae gan y Bwrdd ddau brif bwyllgor sy'n cefnogi prosesau llywodraethu effeithiol.

Yn ogystal ag aelodau ffurfiol y pwyllgorau – sy'n cynnwys cynrychiolaeth o aelodau anweithredol a gweithredol fel bo'n briodol – mae Ysgrifennydd y Bwrdd ac uwch swyddogion eraill o'r Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn cyfrannu at y trafodaethau.

Mae Panel Cwynion hefyd yn cael ei gynnull yn ôl yr angen i ystyried materion a godir o dan Broses Gwynion S4C.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Bwrdd y Grŵp Masnachol i oruchwylio gweithgarwch masnachol S4C. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd hwn mewn adran ar wahân.

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) mewn perthynas â threfniadau rheolaeth fewnol a sicrwydd y sefydliad.

Yn ystod 2024–25, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:

- Chris Jones – Cadeirydd (tan 31.01.2025)
- Suzy Davies – Cadeirydd (o 01.02.2025)
- Adele Gritten

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Cymeradwyo cynlluniau blynyddol a derbyn adroddiadau perthnasol gan yr archwilwyr mewnol ac allanol;
- Adolygu diweddariadau'r Uwch Dîm Arwain i'r Gofrestr Risg, gan gynnwys trafodaethau thematig mewn manylder ar feysydd megis seibr-ddiogelwch, technoleg, ac enw da;
- Derbyn adroddiadau sicrwydd penodol ar: gwerth am arian, trefniadau caffael; a threfniadau seibr-ddiogelwch;
- Hunan-werthuso o weithrediad y pwyllgor, gan gynnwys gwerthusiad yn erbyn meini prawf arfer da yr NAO, ac adolygiad o'r cylch gorchwyl; a
- Chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2023–24 i Fwrdd S4C, gan gynnwys adolygu'r Datganiad Llywodraethu.

## Y Pwyllgor Cyfathrebu

Roedd y Pwyllgor Cyfathrebu yn gyfrifol am oruchwylio strategaeth a pherfformiad gweithgareddau cyfathrebu a marchnata corfforaethol S4C ar ran y Bwrdd. Penderfynwyd ei ddileu ym mis Hydref 2024.

Yn ystod 2024–25, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Denise Lewis Poulton – Cadeirydd
- Guto Bebb
- Suzy Davies
- Sioned Wiliam, Prif Weithredwr dros dro (tan 31.12.2024)
- Geraint Evans, Prif Swyddog Cynnwys dros dro (tan 31.12.2024)

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Datblygiadau o ran gweithredu'r Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu, gan gynnwys esblygiad y carfannau pobl ('personas') a'r cynllun cyfathrebu mewnol;
- Diweddariadau ar weithgareddau cyfathrebu, marchnata a hyrwyddo;
- Adolygiad allanol o brosesau marchnata S4C, a'r argymhellion oedd yn cael eu gweithredu gan y Tîm Rheoli; a
- Strwythur a diwyg yr Adroddiad Blynyddol.

## Y Pwyllgor Cynnwys

Roedd y Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwylio strategaeth a pherfformiad cynnwys a gwasanaethau S4C, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gynulleidfa. Penderfynwyd ei ddileu ym mis Hydref 2024.

Yn ystod 2024–25, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Guto Bebb – Cadeirydd
- Adele Gritten
- Denise Lewis Poulton
- Sioned Wiliam, Prif Weithredwr dros dro (tan 31.12.2024)
- Geraint Evans, Prif Swyddog Cynnwys dros dro (tan 31.12.2024)

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Datblygiad strategaethau Cynnwys a Chyhoeddi, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cynnwys YouTube a thargedu cynulleidfaoedd penodol;
- Monitro cynnwys a pherfformiad, gan gynnwys adroddiadau dadansoddi, dashfwrdd cynnwys, a phapurau ar berfformiad fesul genre, gyda ffocws penodol ar newyddion ac adloniant;
- Adolygu Adroddiad Cynnwys 2023–24 ar gyfer Ofcom, a'r gwaith o gasglu barn y gynulleidfa;
- Trefniadau darlledu o ddigwyddiadau byw yn 2024; ac
- Adolygiad o'r broses gomisiynu a pherthnasoedd gyda'r sector gynhyrchu, gan gynnwys adroddiadau o gyfarfodydd gyda'r diwydiant.

## Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

Roedd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau cyflogaeth S4C a monitro eu heffeithiolrwydd. Roedd hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar uwch-benodiadau ac, ar ran y Bwrdd, ac yn monitro perfformiad uwch-reolwyr. Yn sgil y penderfyniad yn Hydref 2024 i ddileu'r pwyllgor hwn, caiff Pwyllgor Taliadau newydd ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn adrodd 2025–26 ymlaen.

Yn ystod 2024–25, roedd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor:
- Adele Gritten – Cadeirydd
- Guto Bebb, Cadeirydd dros dro y Bwrdd
- Chris Jones
- Elin Morris, Prif Swyddog Gweithredu
- Sioned Wiliam, Prif Weithredwr dros dro (tan 31.12.2024)

Ni fu hawl gan unrhyw un o gyflogeion S4C – boed yn aelodau o'r pwyllgor neu'n gweinyddu – fod yn bresennol pan wnaeth y pwyllgor ystyried unrhyw fater yn ymwneud â'u cyflogaeth, gan gynnwys canlyniad eu hasesiad blynyddol a thrafodaethau ynghylch eu cyflogau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, holwyd i'r unigolyn o dan sylw adael y cyfarfod dros dro.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y materion a ystyriwyd gan y pwyllgor yn cynnwys:
- Canlyniad yr arolwg staff a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn;
- Setliad cyflog blynyddol staff S4C, prosesau meincnodi cyflogau, a'r adroddiadau statudol cysylltiedig (gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau);
- Strwythur ac aelodaeth y Tîm Rheoli (ar y pryd), gan gynnwys y broses i benodi Prif Weithredwr parhaol;
- Diwygiadau i bolisïau Adnoddau Dynol; a
- Data staffio – gan gynnwys tueddiadau absenoldeb, cychwynwyr a'r rhai sy'n gadael, a hyfforddiant a datblygu.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–25

**Cymeradwywyd yr adroddiad canlynol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2025, i'w gyflwyno i Fwrdd S4C, a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo.**

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–25

**Cymeradwywyd yr adroddiad canlynol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2025, i'w gyflwyno i Fwrdd S4C, a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo.**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg cynghorol, ac yn rhoi crynodeb o'r busnes a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.**

**Mae'r adroddiad hefyd yn egluro sut mae'r Pwyllgor wedi helpu Swyddog Cyfrifo a Bwrdd S4C i adolygu cynhwysedd, dibynadwyedd a chywirdeb fframwaith llywodraethu corfforaethol S4C; yr amgylchedd rheolaeth fewnol S4C, gwaith y pwyllgor o ran adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol, yn ogystal â goruchwylio gweithgareddau a phrosesau i sicrhau gwerth am arian.**

### Aelodaeth y Pwyllgor

Rhaid i aelodau'r Pwyllgor feddu ar amrediad eang o brofiad ym meysydd busnes, cyllid, llywodraethu ac adnoddau dynol sy'n galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024–25, bu'r unigolion isod yn gwasanaethu fel aelodau o'r Pwyllgor:

- Chris Jones, Cadeirydd
- Suzy Davies
- Adele Gritten

Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cael hyfforddiant priodol o bryd i'w gilydd a sesiynau gwybodaeth un i un gyda Chadeirydd y Pwyllgor, Ysgrifennydd Bwrdd S4C, a staff perthnasol eraill fel rhan o'u cynefino.

Roedd Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Cyllid ac Ysgrifennydd Bwrdd S4C hefyd wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw.

Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd fel yr oedd yn briodol.

### Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn, sef:

- 09 Mai 2024
- 17 Mai 2024
- 27 Mehefin 2024
- 26 Medi 2024
- 14 Tachwedd 2024
- 29 Ionawr 2025

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Cafodd holl aelodau Bwrdd S4C wahoddiad i ddod i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024 i dderbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar yr archwiliad allanol o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Yn unol ag arferion gorau, mae aelodau'r Pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol yn breifat bob blwyddyn – fel arfer cyn y cyfarfod y cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol er ystyriaeth ynddo.

Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor yn ffurfiol i Fwrdd S4C ar ôl bob cyfarfod o'r Pwyllgor.

### Cylch Gorchwyl

Adolygodd Bwrdd S4C cylch gorchwyl y Pwyllgor ddiwethaf yn ystod chwarter olaf 2024–25, a hynny yn sgil hunan-asesiad y Pwyllgor o'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â'i gylch gorchwyl presennol, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ei newydd wedd yn cefnogi Bwrdd S4C a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifo S4C) yng nghyswllt trefniadau sicrwydd a rheolaeth fewnol y sefydliad. Mae'n atebol i'r Bwrdd. Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor i'w weld ar wefan S4C.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar gynllun gwaith blynyddol sy'n sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl yn cael eu hystyried ar yr adeg briodol yn y cylch cyfarfodydd. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r prif faterion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2024–25.

# Archwilio Mewnol

**Trefniadau**
Yn ystod 2024–25, parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio gwaith archwilwyr mewnol S4C, sef TIAA, gan ystyried eu hadroddiadau, ymateb rheolwyr, a chynlluniau gweithredu a oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried asesiad o anghenion archwilio S4C ac wedi cymeradwyo cynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnol.

Penodwyd TIAA yn archwilwyr mewnol S4C yn wreiddiol yn 2019, am gyfnod oedd yn cwmpasu'r tair blynedd adrodd hyd 2021–22. Yn dilyn proses dendro gystadleuol yn gynnar yn 2022, roedd y Pwyllgor wedi ailbenodi TIAA yn archwilwyr mewnol o 01 Ebrill 2022 am gyfnod o dair (a hyd at bum) mlynedd.

**Y Cynllun Archwilio Mewnol ac Adroddiadau**
Cyflwynodd TIAA ei Gynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor ar 29 Chwefror 2024. Lluniwyd hwn mewn ymgynghoriad ag uwch reolwyr – y drydedd sesiwn mewn rhaglen dreigl o archwiliadau a fyddai'n para am dair blynedd (2022–23 hyd 2024–25).

Cwblhaodd TIAA chwe archwiliad mewnol yn ystod 2024–25 mewn perthynas â'r canlynol:
- Monitro Perfformiad
- Prosesau Rheoli Perfformiad – Adnoddau Dynol
- Rheoli Risg – Dulliau Lliniaru
- Rheolaethau Ariannol Allweddol
- Marchnata
- Cynllun Gweithredu Capital Law, Gwrthdaro Buddiannau a Chwythu'r Chwiban

Roedd TIAA wedi darparu asesiadau sicrwydd priodol yng nghyswllt yr archwiliadau a gynhaliwyd. Nododd yr aelodau yn arbennig fod yr holl archwiliadau hyn yn parhau i ddarparu asesiadau sicrwydd 'Rhesymol' neu 'Sylweddol'.

Cyflwynwyd yr holl adroddiadau i'r Pwyllgor i'w hystyried. Roedd y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar yr holl wendidau ac argymhellion oedd wedi'u nodi yn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol, ond rhoddodd sylw penodol i'r meysydd hynny lle'r oedd y casgliad wedi cael effaith sylweddol ar y sgôr sicrwydd.

**Cofnod Argymhellion**
Fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn, cynhaliodd TIAA archwiliad 'Dilynol' i ystyried y cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad mewnol a godwyd yn 2023–24, yn ogystal â'r rheini a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond oedd eto i'w cyflawni.

Roedd chwech o'r 15 argymhelliad a adolygwyd wedi cael eu cyflawni.

Roedd saith argymhelliad dal angen eu cwblhau. O'r rhain, nid oedd tri argymhelliad wedi cyrraedd y dyddiad gweithredu gwreiddiol eto. Nid oedd un o'r argymhellion wedi'i weithredu eto oherwydd anawsterau technegol.

Ar gyfer y ddau argymhelliad nad oedd wedi eu cwblhau, cytunodd TIAA gydag asesiad yr Uwch Dîm Arwain nad oeddent yn berthnasol mwyach yn sgil datblygiadau ehangach.

Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i barhau i fonitro gweithrediad y camau oedd yn weddill drwy'r Cofnod Argymhellion mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Perfformiad ac Asesiad yr Archwilwyr Mewnol**
Yn ei Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor ar 21 Mai 2025, roedd TIAA wedi cynnwys hunanasesiad o'i berfformiad yn ystod 2024–25. Roedd 100 y cant o'r archwiliadau wedi cael eu cwblhau o fewn y dyddiau a glustnodwyd ar eu cyfer yn y gyllideb y cytunwyd arni yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2024–25 (2023–24: 100 y cant), ac roedd TIAA wedi cyhoeddi 100 y cant o'i adroddiadau terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith i gael ymatebion (2023–24: 43 y cant).

Fe wnaeth TIAA gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2024 yn ymwneud â'r Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), gan egluro'r camau yr oeddent yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r safonau hynny. Mae'r cydymffurfiaeth â'r PSIAS yn cynnig haen ychwanegol o sicrwydd ynghylch ansawdd ac uniondeb canfyddiadau'r archwiliadau mewnol.

Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar gywirdeb y crynodeb ac ar berfformiad cyffredinol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer y flwyddyn.

**Barn Flynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2024–25**
Cyflwynwyd Barn Flynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2024–25 i'r Pwyllgor ar 21 Mai 2025, gan ddatgan bod:

*TIAA yn fodlon, yng nghyswllt y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan S4C brosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli rhesymol ac effeithiol ar waith.*

*Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig, ac nid yw'n farn ar holl elfennau'r prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli nac ar hyfywedd ariannol parhaus nac ar allu'r (sefydliad) i gwrdd â'i rwymedigaethau ariannol. Rhaid i S4C gael y rhain gan ei amrywiol ffynonellau sicrwydd.*

.

## Archwilio Allanol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol oedd yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad allanol o Grŵp S4C ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Allanol i'r Pwyllgor ar 29 Ionawr 2025. Roedd y cynllun yn nodi dull y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o fynd i'r afael â'r risgiau archwilio yng ngwasanaeth cyhoeddus S4C, gan gynnwys y prif farnau a'r ansicrwydd amcangyfrifol a amlinellir yn nodyn 2 o'r Datganiadau Ariannol, yn ogystal â'r risgiau archwilio a nodwyd yn y cwmnïau masnachol sy'n faterol i Grŵp S4C. Cododd y Pwyllgor gwestiynau er mwyn derbyn sicrwydd bod y gwaith archwilio'n cael ei gyflawni yn unol â'r safonau ansawdd allanol sy'n ddisgwyliedig ar gyfer archwiliad allanol o gorff cyhoeddus, tra'n sicrhau gwerth am arian yng nghostau archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyflwynwyd yr adroddiad a ddeilliodd o hyn – yn crynhoi canlyniad y broses archwilio – i'r Pwyllgor ar 27 Mehefin 2025. Gwahoddwyd holl aelodau Bwrdd S4C i'r cyfarfod hwn i dderbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyflwynwyd rhai elfennau o Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 – gan gynnwys yr Adroddiad Llywodraethu arfaethedig – i'r Pwyllgor ar 21 Mai 2025 er ystyriaeth. Rhoddodd Aelodau adborth ar y fersiynau drafft hyn.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu i'r Pwyllgor hefyd fonitro'r cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion perthnasol a wnaed yn Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2023–24.

## Rheoli Risg

Mae'r sefydliad yn gweithredu model amddiffyn 'tri llinell', ond yn elwa ar graffu allanol pellach gan Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phwyllgorau seneddol.

Trwy gydol 2024–25, roedd y Prif Swyddog Cyllid wedi cyflwyno adroddiadau a diweddariadau ar y datblygiadau ym maes rheoli risg yn S4C, ynghyd â chopïau o'r Gofrestr Risgiau Strategol. Rhoddwyd gwybod am, ac fe graffodd y Pwyllgor ar, y prosesau i adnabod a chytuno ar newidiadau penodol i sgorau risg, felly hefyd ffactorau lliniarol.

Yn ystod 2024–25, roedd y prif risgiau a drafodwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Trefniadau seiberddiogelwch, o ran yr amddiffyniad oedd yn cael ei gynnig drwy allanoli systemau technegol allweddol i'r BBC, ac o ran y systemau eraill oedd yn weddill a oedd yn cael eu trefnu'n uniongyrchol gan S4C;
- Llwyfannau a thechnoleg rheoli darlledu S4C; ac
- Enw Da S4C.

## Adolygiad Polisi

Gan i Fwrdd S4C, ar argymhelliad y Pwyllgor, fabwysiadu Datganiad Archwaeth Risg newydd ar 14 Mawrth 2024, ni fu angen diwygio'r Datganiad na chwaith y Matrics Archwaeth Risg yn ystod blwyddyn adrodd 2024–25.

Cydnabuwyd ar 29 Ionawr 2025 y byddai cynnwys a chyflwyniad y gofrestr risg yn parhau i esblygu mewn ymateb i newidiadau yn arweinyddiaeth a strategaeth S4C, gyda'r angen i ddarparu rhagor o hyfforddiant yn fewnol er mwyn sicrhau bod y gofrestr risg mor effeithiol â phosib.

## Busnes Arall Allweddol

Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried y busnes arall allweddol canlynol:

### Gwerth am Arian

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol ar asesu a chynnal gwerth am arian yng nghyswllt gwasanaethau S4C. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd effaith chwyddiant ar gost cynhyrchu cynnwys yn ystyriaeth allweddol i'r aelod.

### Adolygu sut mae'r Pwyllgor yn gweithredu

Yn ystod 2024–25 roedd Ysgrifennydd y Bwrdd wedi adolygu sut roedd y Pwyllgor yn gweithredu yn erbyn y rhestr wirio hunanasesu i Bwyllgorau Archwilio a Risg a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cyflwynwyd yr asesiad a ddeilliodd o hyn i'r Pwyllgor er ystyriaeth ar 29 Ionawr 2025.

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau'n cytuno bod y Pwyllgor eisoes yn cydymffurfio â'r arferion a argymhellir i raddau helaeth.

## Casgliad a Sicrwydd

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi:

- adolygu adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol a darparwyr sicrwydd eraill,
- asesu'r camau roedd y rheolwyr wedi rhoi cychwyn arnynt er mwyn mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig â rheolaeth a godwyd,
- canolbwyntio ar sicrhau bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflwyno a'u monitro, ac
- ystyried gwybodaeth arall a gyflwynwyd iddo.

Ar sail y gwaith hwn, a'r sicrwydd hwn, gall y Pwyllgor Archwilio a Risg roi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo ei fod yn rhesymol dweud y gall ddibynnu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol S4C, ei systemau rheoli risg a'i brosesau llywodraethu. Gall y Pwyllgor hefyd sicrhau'r Bwrdd bod trefniadau'r sefydliad ar gyfer sicrhau gwerth am arian, ar y cyfan, yn effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr archwiliadau a gwblhawyd yn rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch y mesurau rheoli yn y meysydd dan sylw, er ei fod yn cydnabod na ddylai rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg gymryd lle gweithredu, a chydymffurfio â, mesurau rheoli mewnol, ac mai Uwch Dîm Arwain S4C sy'n gyfrifol am hyn, ac, yn y pen draw, y Bwrdd.

# Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

# Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydnabyddiaeth S4C, ac adroddiad cyflog ar sail rhyw.**

**Cyfleoedd cyfartal**
Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, niwroamrywiaeth, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, cyflogaeth ran-amser neu weithwyr llawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Wrth benodi i swyddi, defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, gan ystyried y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol (sy'n cynnwys y lefel berthnasol o sgiliau Cymraeg).

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy'n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys yr Uwch Dîm Arwain. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a'i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

**Cydnabyddiaeth Aelodau Anweithredol y Bwrdd**
Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau anweithredol y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a'r aelodau yn Nodyn 5 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynnydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod adrodd i lefel cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd na'r Cadeirydd.

**Cydnabyddiaeth ar gyfer staff S4C**
Mae cyflogau'r Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain yn cael eu pennu gan y aelodau anweithredol y Bwrdd. Lle bo'r unigolyn hefyd yn gwasanaethu fel aelod gweithredol o'r Bwrdd, mae'r cyflog hefyd yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r swyddogaeth honno

Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan yr uwch-reolwyr perthnasol, yn unol â'r meincnod priodol ac o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob setliad cyflog cyffredinol blynyddol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain. Daw i rym ar 01 Awst yn flynyddol. Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio'r Uwch Dîm Arwain ar 31 Mawrth 2025 oedd £41,230 (ar 31 Mawrth 2024 – £39,817).

**Polisi Cydnabyddiaeth**
Yn ystod y flwyddyn adrodd 2024–25, cymeradwyodd y Bwrdd y setliad cyflog blynyddol o 3.5%, gydag isafswm o £1,470, ar gyfer cyflogeion S4C.

Bwriad y setliad cyflog yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda'r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C, gan ddarparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cydnabyddiaeth penodiadau newydd neu ddyrchafiadau yn cael ei feincnodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad er mwyn sicrhau y gall S4C ddenu / a neu gadw unigolion sydd â chymwysterau addas.

### Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain

Cyflog canolrif yr Uwch Dîm Arwain ar 31 Mawrth 2025 oedd £101,347 (ar 31 Mawrth 2024 – £105,389). Roedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn derbyn 4.0 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio'r Uwch Dîm Arwain (2023–24 – 3.3 gwaith).

Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain yn Nodyn 5 y Datganiad Ariannol.

Caiff holl aelodau'r Uwch Dîm Arwain eu cyflogi ar gytundebau parhaol.

### Perfformiad y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain

Mae perfformiad y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd yn cael eu hasesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae'r prosesau hyn yn cael eu harwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer gweddill aelodau'r Uwch Dîm Arwain. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol yr Uwch Dîm Arwain ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

### Cyfansoddiad gweithlu S4C

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gweithlu S4C yn cynnwys 63% o fenywod a 37% o ddynion (ar 31 Mawrth 2024 – 63% yn fenywod a 37% yn ddynion).

### Rheoliadau Undebau Llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir)

Yn unol â'r Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser a Neilltuir) 2017, mae'r adroddiad hwn yn nodi faint o amser y mae cyflogeion S4C wedi ei dreulio ar faterion yn ymwneud

<u>Swyddogion undeb perthnasol</u>
Yn ystod y flwyddyn, roedd un cyflogai yn gweithredu fel swyddog undeb perthnasol.

<u>Canran yr amser a dreuliwyd ar waith undebol</u>
Treuliodd y cyflogai perthnasol 3 awr dan gontract ar waith undebol.

<u>Canran y gwariant cyflogau sy'n cael ei dreulio ar amser ar gyfer gwaith undebol</u>
Roedd llai nag 1% o gyfanswm y bil cyflog yn cael ei dreulio ar amser ar gyfer gwaith undebol

## Adroddiad Cyflog ar Sail Rhyw

Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog yr holl staff benywaidd a chyflog cyfartalog yr holl staff gwrywaidd, heb ystyried unrhyw wahaniaethau yn y gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, mae'n cael ei effeithio gan natur y gweithlu, gan gynnwys niferoedd mewn gwahanol fathau o swyddi ac ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad.

Nod S4C yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws ein gweithlu, o ran statws, cydnabyddiaeth ariannol a natur y gwaith.

Ar draws y sefydliad cyfan, roedd y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 16.2% (2023–24 – 19.7%) a'r bwlch canolrif mewn cyflogau rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 25.0% (2023–24 – 32%).

Nodir isod ddata ar gyfer canran y staff gwrywaidd a benywaidd a'r bwlch cyflog o fewn sectorau a elwir yn chwarteli (sy'n fandiau cyflog o'r un maint, o'r 25% o weithwyr ar y cyflog isaf i'r 25% ar y cyflog uchaf).

Mae'r chwartel uchaf yn parhau i adlewyrchu cydbwysedd rhyw o bron i 50:50. Mae canolrif bwlch cyflog y chwartel uchaf wedi newid (i -9.7%), yn bennaf oherwydd newidiadau o fewn yr Uwch Dim Arwain (2023–24: 3.8%). Mae canolrif bwlch cyflog y chwarteli canol uchaf (1.6%) ac isaf (-0.1%) hefyd wedi aros yn lled debyg (2023–24: -0.4% a -0.2% yn y drefn honno). Mae canolrif y chwartel canol is wedi cynyddu i 4.9% (2023–24: 3.0%).

Esbonnir bwlch cyflog rhwng y rhywiau S4C gan ddau brif ffactor:

1. Mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y ddau chwartel isaf, gyda phedair gwaith mwy o swyddi'n cael eu gwneud gan weithwyr benywaidd. Mae'r ganran sylweddol uwch o fenywod yn y chwarteli isaf yn gostwng cyflog cyfartalog menywod ar draws y sefydliad ac, o ganlyniad, yn cynyddu'r bwlch cyflog.
2. Yn y dau chwartel cyflog uchaf, mae canran gyfartal o ddynion a menywod. Yn y chwartel uchaf, mae'r cyflog cyfartalog i fenywod yn uwch na'r cyflog cyfartalog i ddynion. Mae hyn yn helpu i gynyddu'r cyflog cyfartalog i fenywod ar draws y sefydliad.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, mae S4C yn darparu hyfforddiant mewnol i sicrhau prosesau di-duedd wrth recriwtio. Yn ogystal, rydym yn cymryd camau addas i gefnogi'r sefydliad i hybu ymwybyddiaeth ac arfer gorau yn fwy cyffredinol oddi fewn i'r sefydliad. Mae S4C yn cynnig gweithio hyblyg a hybrid ar ei holl swyddi gwag, yn ogystal â sicrhau bod y swyddi'n cael eu hysbysebu ar ystod eang o lwyfannau, gan gymryd camau penodol i gyrraedd pobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector.

Mae S4C yn parhau i gymryd camau priodol i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach, gan gynnwys y mentrau a grybwyllir uchod, ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o arfer gorau yn y diwydiant ac yn y byd corfforaethol yn ehangach.

| Year | Cyfanswm | | Chwartel uchaf | | Canol uchaf | | Canol is | | Chwartel Isaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | G | B | G | B | G | B | G | B | G | B |
| % staff | | | | | | | | | | |
| **2024/25** | **37%** | **63%** | **48%** | **52%** | **52%** | **48%** | **35%** | **65%** | **16%** | **84%** |
| 2023/24 | 37% | 63% | 52% | 48% | 58% | 42% | 23% | 77% | 17% | 83% |
| | | | | | | | | | | |
| **Canolrif cyflog 2024/25** | **£49,909** | **£37,420** | **£83,680** | **£91,760** | **£50,890** | **£50,053** | **£36,400** | **£34,631** | **£28,818** | **£28,844** |
| **Canolrif bwlch cyflog % 2024/25** | **25.0%** | | **-9.7%** | | **1.6%** | | **4.9%** | | **-0.1%** | |
| Canolrif cyflog 2023/24 | £49,040 | £33,363 | £80,264 | £77,175 | £48,186 | £48,360 | £34,000 | £32,980 | £27,348 | £27,400 |
| Canolrif bwlch cyflog % 2023/24 | 32.0% | | 3.8% | | -0.4% | | 3.0% | | -0.2% | |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfartaledd cyflog 2024/25** | **£57,477** | **£48,175** | **£89,126** | **£91,672** | **£50,863** | **£51,813** | **£36,842** | **£35,874** | **£28,734** | **£28,481** |
| **Cyfartaledd bwlch cyflog % 2024/25** | **16.2%** | | **-2.9%** | | **-1.9%** | | **2.6%** | | **0.9%** | |
| Cyfartaledd cyflog 2023/24 | £55,278 | £44,380 | £80,543 | £85,970 | £48,502 | £49,078 | £34,621 | £33,900 | £27,744 | £27,044 |
| Cyfartaledd bwlch cyflog % 2023/24 | 19.7% | | -6.7% | | -1.2% | | 2.1% | | 2.5% | |

# Cyfrifon 2024–25

# Datganiad Ariannol 2024/25

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2025

### Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2025, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd ar 31 Mawrth 2025 yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C ym mis Mawrth 2020.

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

### Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod S4C yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, rhaid i S4C barhau i ddarlledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir mewn deddfwriaeth fel S4C Digidol.

### Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 yn caniatáu i S4C, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny'n atodol neu'n arweiniol i gyflawni eu swyddogaeth, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i S4C barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, a oedd yn cael eu cyflawni yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai eu hunain neu drwy un o gwmnïau S4C.

O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

### Cyllid

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gofynion ariannol S4C wedi eu nodi yn Adran 61 Deddf Darlledu 1990. Mae'r adran yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i S4C y mae o'r farn ei fod yn ddigonol i dalu cost S4C bob blwyddyn ar gyfer (a) darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003); a (b) threfnu i ddarlledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid i'r cyfryw gyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gymhwyso at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyllid S4C o ffi'r drwydded trwy'r BBC.
Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refeniw drwy weithgareddau masnachol, gan gynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd rhaglenni.

Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniad ffi'r drwydded ar gyfer 2024/25 eu hamlinellu yng Nghytundeb Fframwaith y BBC gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, (fel y'u diwygiwyd Mai 2022) sy'n cynnwys y darpariaethau ariannol gytunwyd arnynt rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C ar gyfer cyfraniad ffi'r drwydded o 2022/23 i 2027/28.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r symiau y bydd y DCMS yn eu cyfrannu i S4C am 2024/25 mewn llythyr setliad Ffi Drwydded ar 21 Ionawr 2022. Mae'r penderfyniad hwn yn gymwys am weddill gyfnod y setliad hyd at 31 Mawrth 2028.

### Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr BBC yn ystod y cyfnod yn £94.803m (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £88.850m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darlledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2025, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £1.658m (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £1.790m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

### Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod yn cynnwys £91.128m (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £90.950m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £0.699m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £0.580m) a £3.875m (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £3.839m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarlledwyd yn cynnwys £68.227m (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £69.709m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni ac ailddarllediadau. Mae'r costau darlledu a dosbarthu yn codi mewn perthynas â llwyfannau digidol daearol a lloeren gan gynnwys gwasanaethau fideo ar alw a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau darlledu perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfa.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partïon mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darlledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau darlledu digidol yn ymwneud â gofod darlledu S4C2 Cyf. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu S4C yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

Derbynnir incwm gan y BBC cyn i'r holl gostau gael eu codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Trosglwyddwyd £2.320m i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2025 (ar 31 Mawrth 2024 - £3.658m o'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus).

### Polisi talu

Mae'n bolisi gan S4C i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei thrafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfiad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn ystod y flwyddyn, talwyd 95% (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - 92%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

## Oriau a ddarlledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C gyfanswm o 6,501 awr o raglenni (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - 6,520 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 125 awr yr wythnos (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - 125.4 awr).

Derbyniodd S4C yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys rhai ailddarllediadau, dan adran 58 (1) Deddf Darlledu 1990 a thalwyd amdanynt gan y BBC o incwm y ffi drwydded. Mae S4C hefyd wedi gwneud taliadau gwerth £0.636m am ddarparu rhaglenni drama, chwaraeon a bwletinau tywydd (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £0.717m i'r BBC am ddarparu rhaglenni dramau a bwletinau tywydd) nad yw'n cael eu darparu fel rhan o'r oriau statudol.

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C 1,278 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - 1,281 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 y.p. a 10.00 y.p. sy'n gyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - 24.6 awr).

| | **2024/25** | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Oriau** | **Cost yr awr £** | Oriau | Cost yr awr £ |
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **1,337** | **49,049** | 1,475 | 45,184 |
| BBC | **54** | **11,779** | 43 | 16,676 |
| | **1,391** | **47,601** | 1,518 | 44,376 |
| Rhaglenni a brynwyd | **77** | **12,077** | 108 | 12,070 |
| **Ailddarllediadau** | | | | |
| Cynyrchiadau annibynnol | **4,393** | **247** | 4,293 | 243 |
| BBC | **108** | **-** | 85 | - |
| | **5,969** | **11,430** | 6,004 | 11,611 |
| BBC - Oriau Statudol | **532** | **-** | 516 | - |
| **Cyfanswm** | **6,501** | | 6,520 | |
| Cyfartaledd yr wythnos | **125.0** | | 125.4 | |

| Rhaglenni a ddarlledwyd yn ôl categori | **2024/25** | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Oriau** | **Cost yr awr £** | Oriau | Cost yr awr £ |
| **Rhaglenni a gomisiynwyd** | | | | |
| Drama | **63** | **181,495** | 60 | 164,849 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **489** | **35,572** | 528 | 35,814 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **89** | **39,984** | 85 | 35,530 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **116** | **95,921** | 114 | 81,768 |
| Plant | **266** | **21,617** | 263 | 22,977 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **84** | **46,052** | 87 | 41,049 |
| Chwaraeon | **264** | **45,204** | 358 | 42,642 |
| Crefydd | **20** | **57,384** | 23 | 58,295 |
| **Cyfanswm** | **1,391** | **47,601** | 1,518 | 44,376 |

### Cynnwys ychwanegol cyhoeddwyd (ac eithrio cyfryngau cymdeithasol)

Yn ychwanegol i'r cynnwys comsiynwyd uwchben, cyhoeddwyd 123 awr o gynnwys digidol yn y flwyddyn am £3.733m (56 awr am £2.178m yn 2023/24).

| Rhaglenni a gomisiynwyd | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Cost yr awr £ | Oriau | Cost yr awr £ |
| Drama | **3** | **107,073** | 2 | 104,958 |
| Ffeithiol Cyffredinol | **28** | **32,670** | 8 | 20,862 |
| Materion Cyfoes a'r Tywydd | **17** | **12,609** | 8 | 24,747 |
| Cerdd Ysgafn / Adloniant | **27** | **47,596** | 11 | 82,944 |
| Plant | **20** | **28,708** | 19 | 21,093 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **11** | **28,775** | 7 | 40,127 |
| Chwaraeon | **17** | **6,297** | 1 | 9,650 |
| **Cyfanswm** | **123** | **30,351** | 56 | 38,901 |

| BBC | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | Oriau | Oriau |
| Drama | **63** | 62 |
| Newyddion | **216** | 216 |
| Materion Cyfoes a Ffeithiol | **8** | 7 |
| Pobl Ifanc a Phlant | **20** | 18 |
| Cerddoriaeth a Chelfyddydau | **96** | 88 |
| Chwaraeon | **129** | 125 |
| **Cyfanswm** | **532** | 516 |

# Datganiad o Gyfrifoldebau

### Paratoi Datganiadau Ariannol

Yn y datganiadau ariannol hyn mae cyfarwyddwyr yn cyfeirio at Fwrdd S4C, Swyddog Cyfrifo S4C a chyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C.

**(a)** Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod eu datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod hwnnw.

**(b)** At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:
- fabwysiadu polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
- lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;
- gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; a
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni'n mynd i barhau mewn busnes.

**(c)** Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:
- sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; ac
- i gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:

- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol wedi ei roi ar S4C fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Atodlen 6, paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd).

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cael y sicrwydd angenrheidiol ynghylch gweithredu a gweithrediad rheolaethau ar gyfer y cyfnod adrodd llawn er mwyn gallu cyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod. Mae cyfanswm o £2.320m wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus o'r cyfrif elw a cholled yn 2024/25 (2023/24 - £3.658m o'r Gronfa Gwasanaeth Gyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled).

### Busnes Gweithredol

Mewn perthynas ag asesu hyfywedd y busnes, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon busnes S4C am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2028. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i fusnes S4C gan ei fod yn ymwneud â chyfnod setliad Ffi'r Drwydded hyd at 31 Mawrth 2028, gan gynnwys darpariaethau cymal 39 o Gytundeb Fframwaith y BBC (a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2016).

Mae'r Bwrdd wedi ystyried dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu darparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus a'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2027/28.

Yn ei asesiad cyffredinol o hyfywedd busnes S4C, mae'r Bwrdd wedi:

- ystyried y ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol i S4C er mwyn iddo allu darparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus;
- cymeradwyo cyllideb grŵp S4C hyd at 31 Mawrth 2026 gan ystyried archwaeth risg y Bwrdd, strategaeth S4C, a'i gylch gwaith o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Roedd y gyllideb yn cynnwys refeniw a chost ynghyd â'i sefyllfa ariannol bresennol a'i adnoddau ariannol. Adolygodd y Bwrdd y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnodau 2026/27 i 2027/28 hefyd;
- adolygu amcanion strategol a strategaeth cynnwys S4C ar gyfer 2024/25. Yn dilyn cadarnhad o'r setliad cyllido ar gyfer y cyfnod 2021/22 - 2027/28, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo strategaeth ar gyfer y cyfnod hwnnw;
- adolygu disgwyliadau cynulleidfa o wasanaethau S4C. Monitrodd y Bwrdd ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn weithredol trwy gydol y flwyddyn ac ymgynghorwyd yn eang â'r gynulleidfa trwy ystod o wahanol ddulliau. Trwy weithio'n agos â chynhyrchwyr annibynnol, mae S4C wedi trafod sylwadau cynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hwn;
- ystyried y gofrestr risg strategol a phob un o'r prif risgiau ac ansicrwydd a nodir yn yr Adroddiad Llywodraethu uchod, gan gynnwys sut y cânt eu rheoli;
- ystyriwyd unrhyw faterion perthnasol yn ymwneud â'r broses dod o hyd i ffeithiau yn 2023 a goblygiadau'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed;
- ystyried adroddiadau sy'n crynhoi gwaith sicrwydd busnes yn ystod y flwyddyn; ac
- adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad arferol y busnes sy'n cynnig y sylfaen i roi strategaeth hirdymor S4C ar waith.

Er nad yw'r asesiad hwn yn ystyried yr holl risgiau y gallai S4C eu hwynebu, mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod ei asesiad o'r risgiau strategol y mae S4C yn eu hwynebu yn gadarn.

Ar sail canlyniadau ei weithgareddau yn ymwneud â'r prif risgiau a hyfywedd a'r darpariaethau statudol yn ymwneud â chyllid digonol i S4C, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rwymedigaethau, pan fyddant yn ddyledus. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiad Ariannol.

### Annibyniaeth yr archwilwyr allanol

Mae'r Bwrdd yn cynnal perthynas briodol gydag archwilwyr allanol.

### Archwilwyr Allanol

Mae adroddiad archwilwyr allanol S4C, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, ar y Datganiad Ariannol i'w gael ar dudalennau 89 i 90

Ar orchymyn y Bwrdd



Geraint Evans
Prif Weithredwr

09 Gorffennaf 2025

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I FWRDD SIANEL PEDWAR CYMRU (S4C), GAN GYDNABOD BOD TAI'R SENEDD HEFYD YN DIBYNNU AR ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON S4C

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp Sianel Pedwar Cymru (S4C), sy'n cynnwys S4C a'i is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:
• Mantolen Gyfunol a mantolen S4C ar 31 Mawrth 2025;
• Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian Cyfunol a Datganiad Cyfunol a Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, a
• Nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw cyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.)

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:
• yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa S4C a'i Grŵp ar 31 Mawrth 2025 ac o'i elw am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
• wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan hynny.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Fe gynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (UK) (ISAs y DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Moesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2024. Rwyf yn annibynnol ar S4C a'i Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd S4C a'i Grŵp o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu S4C a'i Grŵp i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu ynghylch busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif i fel archwiliwr arnynt. Mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif.

Fy nghyfrifoldeb yw arwain yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:
• mae rhannau'r Adroddiad Blynyddol sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan y Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd); a hefyd
• mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Ac ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o S4C a'i Grŵp a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi roi gwybod i chi os wyf yn credu:
• nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan S4C a'i Grŵp neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
• nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
• nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r

## Cyfrifoldebau Bwrdd S4C a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau, mae Bwrdd S4C a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:
• cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
• rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
• rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
• rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at y rhai hynny o fewn S4C a'i Grŵp y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
• sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith fel yr ystyrir sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
• paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd); ac

- asesu gallu S4C a'i Grŵp i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fo'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog cyfrifyddu un ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd.)

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys ynglŷn â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau perthnasol ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriais y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu S4C a'i Grŵp.
- holais y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol S4C a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau S4C a'i Grŵp ar:
    - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - o canfod ac ymateb i risgiau twyll; a hefyd
    - o rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau S4C a'i Grŵp sy'n ymwneud â chydymffurfiad S4C â'r Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf y Cyfryngau 2024 a'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
- holais y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol S4C a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a oeddent:
    - o yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau; ac
    - o yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
- trafodais gyda'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys timau archwilio cydrannau sylweddol ac arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol, fel arbenigwyr pensiynau, ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn S4C a'i Grŵp ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISA (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod S4C a'i Grŵp a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae S4C a'i Grŵp yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau S4C a'i Grŵp. Y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn oedd Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf y Cyfryngau 2024, Deddf Cyfathrebiadau 2003, cyfraith cyflogaeth, a deddfwriaeth treth.

### Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

Ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y pwyllgor archwilio a risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol; a hefyd
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, trwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg busnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Rwyf wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau perthnasol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth archwilio briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd Brydeinig a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

### Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Grŵp Sianel Pedwar Cymru (S4C), sy'n cynnwys S4C a'i is-gwmnïau yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies
14 Gorffennaf 2025
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr

## am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2025

Mae'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr, y Mantolenni, y Datganiadau o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r Datganiad Llif Arian Cyfun yn dangos canlyniadau a pherfformiad S4C yn ogystal â'i grŵp masnachol o gwmnïau. O fewn y Datganiad Ariannol Cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

| | Nodyn | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol | 3 | **96,618** | 90,754 |
| Trosiant S4C | | **96,618** | 90,754 |
| | | | |
| Costau'r gwasanaeth rhaglenni | | **(85,619)** | (85,886) |
| Costau darlledu a dosbarthu | | **(5,510)** | (5,064) |
| Costau uniongyrchol eraill | | **(699)** | (580) |
| Elw / (colled) gros | | **4,790** | (776) |
| | | | |
| Costau gweithredu a gweinyddu | 4 | **(3,875)** | (3,839) |
| Elw / (colled) gweithredol | 3 | **915** | (4,615) |
| | | | |
| Cynnydd buddsoddiad | 11 | **171** | 779 |
| Incwm buddsoddiad | | **307** | 281 |
| Llog net | | **318** | 565 |
| | | | |
| Elw / (colled) ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant | | **1,711** | (2,990) |
| Trethiant ar elw / (colled) ar weithgareddau cyffredin | 6 | **-** | - |
| Elw / (colled) ar ôl trethiant | | **1,711** | (2,990) |
| | | | |
| Enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 19 | **100** | 100 |
| Elw cynhwysfawr arall | | **100** | 100 |
| | | | |
| Cyfanswm elw / (colled) cynhwysfawr am y flwyddyn | | **1,811** | (2,890) |
| | | | |
| Trosglwyddiad (i) / o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus (incwm gohiriedig) | 13 | **(2,320)** | 3,658 |
| Cadwyd yn y Gronfa Gyffredinol | 13 | **(509)** | 768 |

Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan y Bwrdd ar 09 Gorffennaf 2025.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 114 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

# Mantolen Gyfun


ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | | Ar 31/03/25 | | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | **181** | | 55 | |
| Buddsoddiadau | 8 | **516** | | 409 | |
| | | | **697** | | 464 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **20,251** | | 20,083 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **6,373** | | 4,232 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 10 | **4,565** | | 5,629 | |
| Buddsoddiadau | 11 | **13,443** | | 13,350 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 18 | **8,884** | | 11,592 | |
| | | | **53,516** | | 54,886 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | **(14,561)** | | (17,400) | |
| Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | **(2,212)** | | (2,321) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **36,743** | | 35,165 |
| **Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | | **37,440** | | 35,629 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | | **18,110** | | 15,790 |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | | **19,330** | | 19,839 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **37,440** | | 35,629 |

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 09 Gorffennaf 2025.

**Delyth Evans** Cadeirydd
**Geraint Evans** Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 114 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.



# Mantolen S4C


ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | | Ar 31/03/25 | | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | **181** | | 55 | |
| | | | **181** | | 55 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 9 | **20,251** | | 20,083 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **7,272** | | 4,049 | |
| Dyledwyr - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 10 | **4,315** | | 5,227 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 18 | **2,556** | | 5,655 | |
| | | | **34,394** | | 35,014 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 12 | **(14,253)** | | (16,958) | |
| Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 12 | **(2,212)** | | (2,321) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **17,929** | | 15,735 |
| **Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau** | | | **18,110** | | 15,790 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | 13 | | **18,110** | | 15,790 |
| Cronfa Gyffredinol | 13 | | **-** | | - |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **18,110** | | 15,790 |

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 para 32.09. gan y Bwrdd ar 09 Gorffennaf 2025.

**Delyth Evans** Cadeirydd
**Geraint Evans** Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 114 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.



## Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2025

| Grŵp S4C | **Enillion a gadwyd** | **Cyfanswm ecwiti** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **35,629** | **35,629** |
| Elw am y flwyddyn | **1,711** | **1,711** |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | **100** | **100** |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | **1,811** | **1,811** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **37,440** | **37,440** |

## Datganiad Cyfun o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2024

| Grŵp S4C | Enillion a gadwyd | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 38,519 | 38,519 |
| Colled am y flwyddyn | (2,990) | (2,990) |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | 100 | 100 |
| Cyfanswm colled cynhwysfawr am y flwyddyn | (2,890) | (2,890) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 35,629 | 35,629 |

## Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2025

| S4C | **Enillion a gadwyd** | **Cyfanswm ecwiti** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **15,790** | **15,790** |
| Elw am y flwyddyn | **2,220** | **2,220** |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | **100** | **100** |
| Cyfanswm elw cynhwysfawr am y flwyddyn | **2,320** | **2,320** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **18,110** | **18,110** |

## Datganiad S4C o Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2024

| S4C | Enillion a gadwyd | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 19,448 | 19,448 |
| Colled am y flwyddyn | (3,758) | (3,758) |
| Elw cynhwysfawr arall am y flwyddyn | 100 | 100 |
| Cyfanswm colled cynhwysfawr am y flwyddyn | (3,658) | (3,658) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 15,790 | 15,790 |

# Datganiad Llif Arian Cyfun

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2025

Mae'r llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu yn dangos yr arian a gynhyrchwyd gan weithgareddau craidd cyn buddsoddi ac ariannu.

| | Note | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | **£000** | £000 |
| Elw / (colled) am y flwyddyn ariannol | | **1,711** | (2,990) |
| Llog net | | **(318)** | (563) |
| Incwm buddsoddiad | | **(307)** | (281) |
| Cynnydd na wireddwyd mewn buddsoddiadau | 11 | **(171)** | (779) |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 7 | **549** | 45 |
| Cynnydd mewn stoc | | **(168)** | (6,146) |
| (Cynydd) / lleihad mewn dyledwyr | | **(1,109)** | 1,595 |
| (Lleihad) / cynnydd mewn credydwyr | | **(526)** | 539 |
| Lleihad mewn buddsoddiadau | | **128** | 75 |
| **Allanlif ariannol net o weithgareddau gweithredol** | | **(211)** | (8,505) |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Incwm buddsoddiadau | | **307** | 281 |
| Llog a dderbyniwyd | | **318** | 563 |
| Benthyciadau ad-dalwyd / dderbyniwyd | | **(2,800)** | - |
| **(Allanlif) / mewnlif ariannol net o weithgareddau ariannu** | | **(2,175)** | 844 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant asedau sefydlog diriaethol | 7 | **(165)** | (22) |
| Prynu Buddsoddiadau | | **(157)** | (254) |
| **Allanlif ariannol net o weithgareddau buddsoddi** | | **(322)** | (276) |
| **Lleihad mewn arian** | | **(2,708)** | (7,937) |
| Cynnydd na wireddwyd mewn buddsoddiad | 11 | **171** | 779 |
| Costau rheoli | 11 | **(78)** | (75) |
| **Symudiadau o fewn cronfeydd net** | | **(2,615)** | (7,233) |
| Arian yn y banc ar 1 Ebrill 2024 | | **11,592** | 19,529 |
| Arian yn y banc ar 31 Mawrth 2025 | | **8,884** | 11,592 |
| **Lleihad net mewn arian mewn banc** | | **(2,708)** | (7,937) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2024 | 18 | **24,942** | 32,175 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2025** | 18 | **22,327** | 24,942 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2025

## 1. Polisïau Cyfrifo

Gwelir isod brif bolisïau cyfrifo S4C. O fewn y Datganiad Ariannol cyfun, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at asedau Grŵp S4C nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol. Cyflwyniad ac arian cyfred y datganiadau ariannol hyn yw sterling. Talgrynnir i'r £000 agosaf ac eithrio yn y datgeliad cyflogau a threuliau staff.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod S4C yn Endid Budd Cyhoeddus fel y'i diffiniwyd gan FRS 102. Endid Budd Cyhoeddus yw endid â'i brif amcan yw darparu nwyddau neu wasanaethau er buddiannau cyhoeddus, cymunedol neu gymdeithasol cyffredinol, a lle darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na gyda'r bwriad o gynhyrchu elw ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y disgrifiwyd yn yr adran busnes gweithredol a hyfywedd ar dudalen 88.

### (a) Sail paratoi'r Datganiad Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn costau hanesyddol yn unol â pharagraff 12 (1) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd), y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol (FRS) sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu S4C (gweler nodyn 2).

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso:

### (b) Sail cyfuno

Mae'r Datganiad Ariannol cyfun yn ymgorffori rhai S4C a'i his-ymgymeriadau (gweler nodyn 8) a luniwyd hyd at 31 Mawrth 2025. Caiff elw neu golledion ar drafodion grŵp eu dileu'n llawn. Pan gaiff is-gwmni ei brynu, caiff holl asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni sy'n bodoli ar ddyddiad ei brynu eu cofnodi yn ôl eu gwerthoedd teg gan adlewyrchu eu cyflwr ar y dyddiad hwnnw.

### (c) Incwm

Mae'r incwm o ffi'r drwydded yn cael ei gydnabod yn unol â'r cytundeb cyllido sylfaenol, wrth i S4C gyflawni ei rhwymedigaethau statudol, yn gyfartal dros y cyfnod.

Mae incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïaeth, cyhoeddi, a gweithgareddau buddsoddi yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan ddarperir y gwasanaethau cysylltiedig.

### (ch) Costau rhaglenni

Caiff costau rhaglenni'r gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u comisiynu eu gydnabod yn llwyr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar y darllediad cyntaf neu pan ddaw yn glir na fydd darllediad.

### (d) Stoc rhaglenni a stoc arall

Mae costau uniongyrchol a gyfyd wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn ymddangos fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Am gyfres o raglenni, mae'r dosraniad stoc rhwng rhaglenni a orffennwyd ond heb eu darlledu a rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu wedi ei seilio ar gyfanswm y gost hyd yn hyn ynghyd â chost gytundebol pob pennod a gwblhawyd.

Diffinnir cost uniongyrchol fel taliadau a wnaed neu sy'n ddyledus i gwmnïau cynhyrchu neu gyflenwyr rhaglenni.

### (dd) Incwm a dderbyniwyd cyn y gwariant perthnasol

Oherwydd y polisïau uchod, derbynir incwm o'r BBC cyn cynnwys yr holl gostau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Pan mae costau perthynol yn codi, trosglwyddir symiau cyfatebol o incwm perthnasol o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr felly yn cynnwys trosglwyddiad net i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus, neu oddi wrtho, yn adlewyrchu'r trosglwyddiadau hyn.

### (e) Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau a chwmnïau cyswllt

Mae buddsoddiadau mewn cyd-fentrau yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf yn y Mantolen Gyfun ar bris y trafodiad a'u haddasu ar ôl hynny i adlewyrchu cyfran y grŵp o'r cyfanswm incwm cynhwysfawr ac ecwiti'r gyd-fenter, llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

### (f) Dyledwyr

Mae dyledwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad, llai unrhyw leihad yn eu gwerth. Mae benthyciadau a dderbyniwyd yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai unrhyw leihad mewn gwerth.

### (ff) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian mewn llaw a blaendaliadau a gadwyd gan sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth i arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif a gellir eu trosi'n hwylus i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

### (g) Offerynnau ariannol

Yn bennaf bydd S4C yn ymrwymo i drafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol fel masnach a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partïon eraill, benthyciadau i bartïon cysylltiedig a buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau cyffredin di-roddadwy.

Caiff offerynnau dyled (heblaw am y rheiny sy'n ad-daladwy neu'n dderbyniadwy yn gyfan gwbl o fewn un flwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, eu mesur yn y lle cyntaf ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Mae offerynnau dyled sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn un flwyddyn, yn nodweddiadol symiau masnach sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy, yn cael eu mesur, yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny, ar swm na ddisgowntiwyd yr arian parod neu ystyriaeth arall, a ddisgwylir ei dalu neu ei dderbyn. Fodd bynnag, os yw trefniadau offeryn tymor byr yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, fel talu dyled masnach a ohiriwyd y tu hwnt i delerau busnes arferol neu a ariannwyd ar gyfradd llog nad yw ar raddfa'r farchnad neu yn achos benthyciad tymor byr yn gyfan gwbl nad yw ar raddfa'r farchnad, mae'r ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei fesur, yn y lle cyntaf, ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol wedi'u disgowntio ar raddfa llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost a chost wedi'i hamorteiddio yn cael eu hasesu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd am dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth. Os canfyddir tystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth, cydnabyddir colled mewn gwerth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Ar gyfer asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased a gwerth presennol y llifoedd arian parod amcangyfrifedig wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog weithredol gwreiddiol yr ased. Os oes cyfradd llog newidiol i ased ariannol, y gyfradd ddisgownt ar gyfer mesur unrhyw golled mewn gwerth yw'r gyfradd llog weithredol gyfredol a bennir o dan y cytundeb.

Ar gyfer asedau ariannol a fesurir ar gost llai colled mewn gwerth, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased ac amcangyfrif gorau sy'n frasamcan o'r swm y byddai S4C yn ei dderbyn am yr ased pe bai'n cael ei werthu ar ddyddiad y Fantolen.

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei gofnodi yn y Fantolen pan fydd hawl y gellir eu gorfodi i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net neu i realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth yr un pryd.

### (ng) Credydwyr
Mae credydwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad. Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

### (h) Buddsoddiadau asedau sefydlog
Dalir buddsoddiadau asedau sefydlog ar gost hanesyddol llai unrhyw leihad yn eu gwerth.

### (i) Asedau sefydlog diriaethol
Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt ynghyd ag unrhyw gostau prynu perthnasol, llai dibrisiant. Caiff dibrisiant ei gyfrif er mwyn dileu cost yr ased sefydlog diriaethol llai gweddill ei werth yn gyfartal dros y cyfnod yr amcangyfrifir y caiff ei ddefnyddio. Mae'r prif gyfraddau a ddefnyddir i'r diben hwn fel a ganlyn:

Offer a chyfarpar 20%

Caiff gwelliannau i adeiladau ar brydles fer eu dibrisio'n gyfartal dros gyfnod y brydles.

### (j) Cyfraniadau pensiwn
#### Cynllun budd diffiniedig
Mae cynllun buddion wedi'u diffinio wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydnabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio. Mae S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi S4C ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir/debydir yr enillion a'r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau 'eiddo parod', ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn.

#### Cynllun cyfraniadau diffiniedig
Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau na thalwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

### (l) Trethiant
Y dreth gyfredol a gynhwysir yng nghostau treth y flwyddyn. Cydnabyddir y dreth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ond bydd cost a briodolir i eitem incwm a threuliau a gydnabyddir dan incwm cynhwysfawr arall neu gost a briodolir i eitem a gydnabyddir yn uniongyrchol yn yr ecwiti yn cael ei gydnabod hefyd yn yr incwm cynhwysfawr arall neu'n uniongyrchol yn yr ecwiti.

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw dreth ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth ffi'r drwydded.

Codir treth gorfforaeth ar elw sy'n cael ei gynhyrchu gan is-ymgymeriadau.

### (ll) Arian tramor
Cynhwysir asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y Fantolen. Cynhwysir trafodion yn ôl y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad mae'n digwydd. Mae gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o werthiannau tramor a chyfnewid arian yn cael eu dangos yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### (m) Buddsoddiadau asedau cyfredol
Dalir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg gydag unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled.

### (n) Eitemau eithriadol
Ystyr eitemau eithriadol yw trafodion sy'n rhan o weithgareddau arferol S4C ond a gyflwynir ar wahân oherwydd eu maint neu eu nifer.

## 2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon arwyddocaol. Mae'r eitemau yn y datganiadau ariannol lle mae'r dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn wedi'u gwneud yn cynnwys:

### Lleihad mewn gwerth buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae gwerth cario'r buddsoddiadau strategol yn cael eu hasesu am leihad posibl mewn gwerth gan ddefnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio a gymeradwywyd gan y rheolwyr. Lle nad yw rhagolygon ffurfiol ar gael, mae technegau prisio cyffredin eraill yn cael eu defnyddio yn y model lleihad mewn gwerth.

### Stoc

Mae costau uniongyrchol yr eir iddynt wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn cael eu cario ymlaen fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Caiff cost rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus a gomisiynwyd ei chostio i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar y darllediad cyntaf. Mae hyn yn unol â thueddiadau gwylio a'r ffordd y caiff cynnwys S4C ei ddefnyddio. Rydym wedi gweld nifer o ddarlledwyr yn symud (neu'n asesu'r posibilrwydd o symud) tuag at sail gost sy'n adlewyrchu ymddygiad gwylwyr gwahanol, lle mae cynnwys yn cael ei wylio'n gynyddol ar alw – ac mae hyn yn golygu mai beirniadaeth allweddol yw hyn.

### Cynllun budd diffiniedig

Mae'r costau pensiwn a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wedi'u seilio ar y dulliau a damcaniaethau actiwaraidd sydd â'r amcan o wasgaru'r costau pensiwn disgwyliedig dros fywydau gwasanaethol y gweithwyr yn y cynllun, er mwyn sicrhau bod y gost pensiwn reolaidd yn cynrychioli canran sylweddol llyfn o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol a'r dyfodol disgwyliedig. Mae amrywiaethau o'r gost reolaidd wedi'u gwasgaru dros weddill cyfartaledd bywydau gwasanaethol gweithwyr cyfredol yn y cynllun.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i dalu ad-daliad i S4C ac oherwydd bod y cynllun wedi'i gau bellach i groniad gwasanaeth yn y dyfodol, mae gwarged y cynllun ar 31 Mawrth 2025 wedi'i gyfyngu ym Mantolen S4C i ddim.

## 3. Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

Derbynnir incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn i S4C gyflawni ei chyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003). Mae trosiant y Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r incwm a grëwyd gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus fel y cantiateir o dan Adran 206 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Mae'r incwm o ffi'r drwydded yn cael ei gydnabod yn unol a'r cytundeb cyllido sylfaenol, pan gaiff ei dderbyn. Mae'r incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi, yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar sail croniadau.

| | | **2024/25** | | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Incwm a dderbyniwyd oddi wrth ffi'r drwydded | **94,803** | | 88,850 | |
| Incwm arall | **157** | | 114 | |
| | | **94,960** | | 88,964 |
| Trosiant y Gronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **1,234** | | 1,416 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **35** | | 40 | |
| Eraill gan gynnwys ymelwad digidol | **389** | | 334 | |
| | | **1,658** | | 1,790 |
| Trosiant y grŵp | | **96,618** | | 90,754 |

Ceir isod ddadansoddiad o drosiant y Gronfa Gyffredinol yn ôl marchnad ddaearyddol:

| | **2024/25** | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Y Deyrnas Unedig | **1,633** | 1,761 |
| Unol Daleithiau America | **-** | 16 |
| Gweddill y Byd | **25** | 13 |
| | **1,658** | 1,790 |

Elw / (colled) gweithredol

Yr elw / (colled) gweithredol yw gwarged / (diffyg) Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r (colled)/elw o'r gweithgareddau masnachol cyn incwm buddsoddi, llog a threth.
Dangosir dadansoddiad o elw / (golled) gweithredol y Grŵp fesul gweithgarwch isod:

| | | **2024/25** | | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **1,304** | | (4,861) | |
| | | **1,304** | | (4,861) |
| Cronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **665** | | 668 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **(46)** | | (40) | |
| Gweithgareddau eraill | **(1,008)** | | (382) | |
| | | **(389)** | | 246 |
| | | **915** | | (4,615) |

Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol gan S4C Masnachol Cyf., darpariaeth o wasanaethau darlledu digidol gan S4C2 Cyf. a rhentu eiddo gan S4C PTG Cyf.

Asedau net

Asedau net Grŵp S4C yw cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau.

| | | 2024/25 | | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | | | | |
| Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **18,110** | | 15,790 | |
| | | **18,110** | | 15,790 |
| Cronfa Gyffredinol | | | | |
| Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu | **332** | | 315 | |
| Cyhoeddi a marsiandïo | **10** | | 9 | |
| Gweinyddiaeth | **134** | | 135 | |
| Gweithgareddau eraill | **18,854** | | 19,380 | |
| | | **19,330** | | 19,839 |
| | | **37,440** | | 35,629 |

## 4. Elw / (colled) gweithredol

Yr Elw / (golled) gweithredol yw gwarged / (diffyg) y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r elw/ (golled) o'r gweithgareddau masnachol cyn incwm buddsoddi, llog a threth.

| Nodir y elw / (golled) gweithredol ar ôl: | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cost y gwasanaeth rhaglenni | | |
| Dibrisiant | **17** | 17 |
| Costau staffio | **5,637** | 5,609 |
| Teithio a chynhaliaeth | **158** | 146 |
| | | |
| Costau gweithredu a gweinyddu | | |
| Costau staffio | **2,077** | 1,891 |
| Dibrisiant | **22** | 28 |
| Ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifon blynyddol Grŵp S4C | **153** | 130 |
| Gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gydag archwilwyr eraill: | | |
| Gwasanaethau cydymffurfio â threthiant | **25** | 22 |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | **13** | 11 |
| Costau gweinyddu eraill | **1,316** | 1,518 |
| Taliadau prydlesi gweithredol: | | |
| Taliadau prydlesi gweithredol - Tir ac adeiladau | **198** | 195 |
| Teithio a chynhaliaeth | **71** | 44 |
| | **3,875** | 3,839 |

Mae'r dadansoddiad o gostau gweithredu a gweinyddu fel a ganlyn:

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Costau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | **3,187** | 3,543 |
| Costau'r Gronfa Gyffredinol | **688** | 296 |
| | **3,875** | 3,839 |

Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn ystod y flwyddyn.

## 5. Aelodau a swyddogion cyflogedig

| Mae cyfanswm cydnabyddiaeth swyddogion cyflogedig yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyflogau gros | **6,083** | 5,755 |
| Cyfraniadau YG y cyflogwr | **587** | 621 |
| Cyfraniadau pensiwn | **979** | 1,094 |
| | **7,649** | 7,470 |

Yn ystod y flwyddyn gwnaed tri thaliad o dan y cynllun diswyddo gwerth cyfanswm o £0.018m (2023/24 - dau taliad gwerth cyfanswm o £0.063m). Mae cyfraniadau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr. Nid oedd gan S4C unrhyw ymrwymiadau 'oddi ar y gyflogres' sy'n dod o dan y meini prawf a nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â threfniadau treth uwch benodiadau cyhoeddus.

| Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn: | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Dynion** | **Rhif Menywod** | Rhif Dynion | Rhif Menywod |
| Comisiynu | **9** | **11** | 7 | 12 |
| Cyhoeddi a Dosbarthu | **8** | **22** | 10 | 19 |
| Datblygu Cynnyrch | **6** | **1** | 6 | 2 |
| Cyfathrebu a Data | **14** | **19** | 15 | 20 |
| Corfforaethol a Pholisi Masnachol | **8** | **17** | 8 | 17 |
| | **45** | **70** | 46 | 70 |

Cyfanswm teithio a chynhaliaeth a dalwyd i swyddogion cyflogedig yn ystod y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2025 oedd £220,174 (cyfnod i 31 Mawrth 2024 - £178,469).

### Cydnabyddiaeth yr aelodau

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyfanswm y taliadau | **79** | 88 |

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Guto Bebb | **40,000** | 9,650 |
| Suzy Davies | **9,650** | 9,650 |
| Adele Gritten | **9,650** | 9,650 |
| Chris Jones | **9,650** | 9,650 |
| Denise Lewis Poulton | **9,650** | 9,650 |
| Rhodri Williams | **-** | 40,000 |

Daeth tymor Rhodri Williams ar y Bwrdd i ben ar 31 Mawrth 2024.

Penodwyd Guto Bebb yn Gadeirydd Dros Dro ar 1 Ebrill 2024 (am y cyfnod hyd 30 Ebrill 2025).

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Bwrdd y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

| Treuliau aelodau'r Bwrdd | Teithio | Llety a Chynhaliaeth | Lletygarwch | **2024/25 Cyfanswm** | 2023/24 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| Guto Bebb | 2,238 | 1,220 | 11 | **3,469** | 1,053 |
| Suzy Davies | 548 | 771 | - | **1,319** | 405 |
| Adele Gritten | 1,202 | 502 | - | **1,704** | 597 |
| Chris Jones | 620 | 566 | - | **1,186** | 973 |
| Denise Lewis Poulton | 1,218 | 466 | - | **1,684** | 659 |
| Rhodri Williams | 127 | 15 | - | **142** | 2,277 |
| Cyfanswm | **5,953** | **3,540** | **11** | **9,504** | 5,964 |

Cydnabyddiaeth yr Uwch Dîm Arwain
Dangosir taliadau i aelodau'r Uwch Dîm Arwain yn ystod y cyfnod isod:

| | **2024/25 Tâl gros** | 2023/24 Tâl gros |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nadine Beaton | **23** | - |
| Siân Doyle | **-** | 108 |
| Manon Edwards-Ahir | **92** | 68 |
| Geraint Evans | **142** | 126 |
| Llinos Griffin Williams | **-** | 68 |
| Llion Iwan | **7** | - |
| Elin Morris | **112** | 120 |
| Iestyn Morris | **18** | - |
| Geraint Pugh | **17** | - |
| Amanda Rees | **-** | 63 |
| Catrin Whitmore | **27** | 84 |
| Sioned Wiliam | **124** | - |
| Mali Williams | **10** | - |
| Sharon Winogorski | **108** | 102 |

Ymunodd Nadine Beaton a'r Uwch Dîm Arwain ar 6 Ionawr 2025.

Gadawodd Sian Doyle yr Uwch Dîm Arwain ar 24 Tachwedd 2023.

Ymunodd Manon Edwards-Ahir a'r Uwch Dîm Arwain ar 19 Mehefin 2023.

Penodwyd Geraint Evans yn Brif Weithredwr ar 1 Ionawr 2025.

Gadawodd Llinos Griffin Williams yr Uwch Dîm Arwain ar 12 Hydref 2023.

Ymunodd Llion Iwan a'r Uwch Dîm Arwain ar 10 Mawrth 2025.

Ymunodd Iestyn Morris a'r Uwch Dîm Arwain ar 27 Ionawr 2025.

Ymunodd Geraint Pugh a'r Uwch Dîm Arwain ar 27 Ionawr 2025.

Gadawodd Amanda Rees yr Uwch Dîm Arwain ar 13 Hydref 2023.

Gadawodd Catrin Whitmore yr Uwch Dîm Arwain ar 2 Gorffennaf 2024.

Penodwyd Sioned Wiliam yn Brif Weithredwr Dros Dro ar 8 Ebrill 2024 a gadawodd ar 31 Rhagfyr 2024

Ymunodd Mali Williams a'r Uwch Dîm Arwain ar 27 Ionawr 2025.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Uwch Dîm Arwain y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

| Treuliau aelodau'r Uwch Dîm Arwain | Teithio | Llety a Chynhaliaeth | Lletygarwch | **2024/25 Cyfanswm** | 2023/24 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | **£** | £ |
| Nadine Beaton | 940 | 1,115 | - | **2,055** | - |
| Siân Doyle | - | - | - | **-** | 5,953 |
| Manon Edwards-Ahir | 3,067 | 2,434 | 522 | **6,023** | 4,066 |
| Geraint Evans | 7,351 | 5,693 | 784 | **13,828** | 9,532 |
| Llinos Griffin Williams | - | - | - | **-** | 6,628 |
| Llion Iwan | 308 | 374 | - | **682** | - |
| Elin Morris | 2,290 | 371 | - | **2,661** | 3,329 |
| Iestyn Morris | 117 | - | - | **117** | - |
| Geraint Pugh | 371 | 318 | - | **689** | - |
| Sioned Wiliam | 198 | 1,577 | - | **1,775** | - |
| Mali Williams | 233 | 269 | 6 | **508** | - |
| Sharon Winogorski | 431 | - | - | **431** | 99 |
| **Cyfanswm** | 15,306 | 12,151 | 1,312 | **28,769** | 29,607 |

Cynllun cyfraniadau diffiniedig - cyfraniadau S4C

| | **2024/25** | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nadine Beaton | **4** | - |
| Siân Doyle | **-** | 17 |
| Manon Edwards-Ahir | **14** | 11 |
| Geraint Evans | **22** | 19 |
| Llinos Griffin Williams | **-** | 12 |
| Llion Iwan | **1** | - |
| Elin Morris | **31** | 31 |
| Iestyn Morris | **3** | - |
| Geraint Pugh | **4** | - |
| Amanda Rees | **-** | 15 |
| Catrin Whitmore | **6** | 22 |
| Sioned Wiliam | **19** | - |
| Mali Williams | **2** | - |
| Sharon Winogorski | **40** | 33 |

Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei gweithwyr. Mae S4C yn cynnig yr opsiwn i staff gyfnewid cyflog i mewn i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau pensiwn a restrir yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau cyfnewid cyflog yr unigolyn i'r cynllun.

## 6. Trethiant

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw drethiant ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.

| | **2024/25** | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig ar 25% (2024 - 25%) | **-** | - |
| Treth gohiriedig | **-** | - |
| Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod | **-** | - |

| | **2024/25** | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Elw / (colled) ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant | **1,711** | (2,990) |
| Elw / (colled) ar weithgareddau cyffredin wedi'i lluosi â'r gyfradd treth safonol yn y DU o 25% (2024 - 25%) | **428** | (748) |
| Effeithiau: | | |
| Gwahaniaethau asedau diraethol | **-** | - |
| Costau na ellir eu tynnu at ddibenion treth | **131** | 916 |
| Symud mewn treth ohiriedig sydd heb ei gydnabod | **64** | 27 |
| Addasiadau i'r tâl trethiant am gyfnodau blaenorol | **-** | - |
| Incwm nad yw'n drethadwy at ddibenion treth | **(623)** | (195) |
| Enillion / (colledion) cyfalaf | **-** | - |
| Gwahaniaeth yng nghyfradd treth gohiriedig | **-** | - |
| Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod | **-** | - |

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| Grŵp S4C | | Tir ac Adeiladau | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Prydles | Offer a Chyfarpar |
| Cost | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 1,016 | 209 | 807 |
| Ychwanegiadau | 165 | - | 165 |
| Gwerthiannau | (2) | - | (2) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **1,179** | **209** | **970** |
| | | | |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 961 | 209 | 752 |
| Cost am y flwyddyn | 39 | - | 39 |
| Gwerthiannau | (2) | - | (2) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **998** | **209** | **789** |
| | | | |
| Gwerth llyfr net | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **181** | **-** | **181** |
| Ar 31 Mawrth 204 | 55 | - | 55 |

Tir ac adeiladau
Pafiliwn S4C ar faes y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanelwedd yw'r eiddo dan brydles fer.

## 8. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae'r buddsoddiadau asedau sefydlog isod yn cael eu dal yn y grŵp masnachol o gwmnïau.

| Mae cyfanswm buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynnwys: | Buddsoddiadau mewn endidau heb eu rhestru | Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau | Buddsoddiadau mewn cwmniau cyswllt | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 1,047 | 125 | 50 | 1,222 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwerthiannau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 1,047 | 125 | 50 | 1,222 |
| | | | | |
| Lleihad mewn gwerth | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 691 | 125 | - | 816 |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | 50 | 50 |
| Gwerthiannau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 691 | 125 | 50 | 866 |
| | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 356 | - | 50 | 406 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 356 | - | - | 356 |

Yn ogystal â'r buddsoddiadau uchod, buddsoddwyd S4C Rhyngwladol Cyf. £156,613 (2023/24 - £3,550) mewn datblygu cynnwys.

### Buddsoddiadau mewn cyd-fentrai

| | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfranddaliad a ddaliwyd | Canran a ddaliwyd: Gan y prif ymgymeriad | Canran a ddaliwyd: Gan Grŵp S4C | Natur y busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| Media Rocket Ltd | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 50% | 50% | Cwmni buddsoddi |

Symudiadau mewn buddsoddiadau cyd-fenter yn ystod y flwyddyn:

| Cost | £000 |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2024 | 125 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 125 |
| | |
| Lleihad mewn gwerth | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 125 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 125 |
| | |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | - |
| Ar 31 Mawrth 2025 | - |

### Buddsoddiadau mewn cwmniau cyswllt

Mae gan S4C Digital Media Limited fuddsoddiadau yn y cwmniau cyswllt canlynol:

| Enw | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfranddaliad a ddaliwyd | Canran a ddalir |
|---|---|---|---|
| Aria Studios Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 40% |

Ar 31 Mawrth 2025 roedd gan Grŵp S4C gyfranddaliadau ecwiti sylweddol o'r canlynol:

| | Gwlad ymgorffori | Dosbarth y cyfranddaliad a ddaliwyd | Canran a ddaliwyd: Gan y prif ymgymeriad | Canran a ddaliwyd: Gan Grŵp S4C | Natur y busnes |
|---|---|---|---|---|---|
| S4C Masnachol Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | 100% | 100% | Darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol |
| S4C Digital Media Ltd | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Cwmni buddsoddi |
| S4C Rhyngwladol Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Gwerthu gofod hysbysebu a rhaglenni |
| S4C2 Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Darlledu digidol a darparu gwasanaethau darlledu digidol |
| S4C PTG Cyf | Cymru a Lloegr | Cyffredin | - | 100% | Eiddo Buddsoddi |

Yn y flwyddyn 2022/23 gwaredodd S4C PTG Cyf. ar yr eiddo fuddsoddi a ddelir o fewn y cwmni. Yn dilyn y gwerthiant, mae'r cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac felly wedi paratoi ei gyfrifon ei hun ar sail busnes nad yw'n weithredol.

Mae'r is-ymgymeriadau i gyd wedi eu cyfuno yn y Datganiad Ariannol. Maent i gyd yn is-ymgymeriadau yn rhinwedd cyfranddaliadau o 100%. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hawl mynediad llawn i ddatganiadau ariannol holl is-ymgymeriadau Grŵp S4C sydd mewn bodolaeth nawr neu a grëir yn y dyfodol.

## 9. Stoc

Mae'r stoc raglenni heb eu darlledu fel y ganlyn:

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu | **20,136** | 20,064 | **20,136** | 20,064 |
| Rhaglenni a orffennwyd ond eto i'w darlledu | **115** | 19 | **115** | 19 |
| | **20,251** | 20,083 | **20,251** | 20,083 |

## 10. Dyledwyr

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Dyledwyr masnachol | **563** | 320 | **447** | 34 |
| Dyledwyr eraill | **229** | - | **-** | - |
| Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp | **-** | - | **1,446** | 363 |
| Benthyciadau i swyddogion | **1** | 2 | **1** | 2 |
| TAW | **3,007** | 2,959 | **2,932** | 2,901 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | **2,573** | 951 | **2,446** | 749 |
| | **6,373** | 4,232 | **7,272** | 4,049 |

Mae'r benthyciadau i swyddogion o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith.

Symiau dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Rhagdaliadau | **4,315** | 5,227 | **4,315** | 5,227 |
| Dyledwyr eraill | **250** | 402 | **-** | - |
| | **4,565** | 5,629 | **4,315** | 5,227 |

Mae rhagdaliadau'n ymwneud â'r prosiect cydleoli a rhent a ragdalwyd ar gyfer pencadlys S4C yn Yr Egin.

## 11. Buddsoddiadau asedau cyfredol

| Cronfa fuddsoddi: | Grŵp S4C | |
|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 |
| Ar 1 Ebrill | **13,350** | 12,646 |
| Newid yng ngwerth marchnadol y buddsoddiad | **171** | 779 |
| Costau rheoli | **(78)** | (75) |
| Ar 31 Mawrth | **13,443** | 13,350 |

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol hefyd yn cynnwys cyd-gynhyrchu a buddsoddiadau digidol gwerth £dim (2023/24 - £dim).

Mae'r gronfa fuddsoddi yn cynnwys portffolio o ecwitïau, bondiau, arian ac asedau eraill a reolir ar ran S4C Digital Media Ltd. gan Sarasin & Partners LLP. Mesurir y buddsoddiad ar werth teg drwy'r elw a cholled lle mae prisiad y gronfa ar 31 Mawrth 2025 trwy bris y farchnad a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

Caiff y gronfa fuddsoddi ei hamlygu i risg y farchnad yn unig a lliniarir hyn trwy ddefnyddio rheolwr y gronfa.

Mae'r gronfa fuddsoddi wedi'i dosbarthu fel ased cyfredol gan fod y gallu gan S4C i dynnu allan o'r gronfa a chau'r gronfa ar fyr rybudd.

## 12. Credydwyr

| Symiau credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Credydwyr masnachol | **214** | 433 | **212** | 278 |
| Credydwyr rhaglenni | **1,159** | 1,187 | **1,159** | 1,187 |
| Credydwyr eraill | **183** | 163 | **183** | 163 |
| Incwm rhagdaledig ac incwm gohiriedig | **182** | 173 | **-** | - |
| Blaendal Cymorth Grant | **109** | 2,240 | **109** | 2,240 |
| Symiau cronedig | **12,714** | 13,204 | **12,590** | 13,090 |
| | **14,561** | 17,400 | **14,253** | 16,958 |

| Symiau credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | Grŵp S4C | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Blaendal Cymorth Grant | **2,212** | 2,321 | **2,212** | 2,321 |
| | **2,212** | 2,321 | **2,212** | 2,321 |

Darparodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Cymorth Grant ymlaen llaw i S4C i ariannu'r prosiect cydleoli gyda BBC Cymru ac adleoli pencadlys S4C i Yr Egin, Caerfyrddin. Mae ad-daliadau i'w gwneud yn unol ag amserlen dalu y cytunwyd arni.

## 13. Cronfeydd

Cronfeydd wrth gefn Grŵp S4C a ddangosir isod yw'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer S4C, y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus, a chronfeydd wrth gefn y cwmnïau masnachol, y Gronfa Gyffredinol. Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys dyledwyr, buddsoddiadau, arian parod llai credydwyr. Caiff cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol eu defnyddio ar gyfer buddsoddiadau a phrosiectau i wella gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus S4C, wrth geisio adenillion masnachol hefyd. Caiff unrhyw adenillion masnachol eu talu fel difidendau i S4C i'w defnyddio yn ei wasanaethau cyhoeddus.

| Cronfeydd Grŵp S4C | Cronfa'r Gwasanaeth ———————Cyhoeddus—————— | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau Sefydlog | Stoc | Eraill | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 55 | 20,083 | (4,348) | 19,839 | **35,629** |
| Gwarged y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod | - | - | - | 241 | **241** |
| Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled | 126 | 168 | 1,276 | - | **1,570** |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | - | - | 750 | (750) | **-** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **181** | **20,251** | **(2,322)** | **19,330** | **37,440** |

Cronfeydd S4C

Dangosir cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2024 ar wahân isod:

| | Cronfa'r Gwasanaeth ———————Cyhoeddus—————— | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau Sefydlog | Stoc | Eraill | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 55 | 20,083 | (4,348) | - | **15,790** |
| Trosglwyddiad y Gronfa Gyffredinol am y cyfnod | - | - | - | 750 | **750** |
| Trosglwyddiad Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled | 126 | 168 | 1,276 | - | **1,570** |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus | - | - | 750 | (750) | **-** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **181** | **20,251** | **(2,322)** | **-** | **18,110** |

Mae cyfanswm o £2.320m wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus o'r cyfrif elw a cholled yn 2024/25 (2023/24 - £3.658m o'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus). Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiad o £0.750m (2023/24 - £0.720m) o'r Gronfa Gyffredinol, y trosglwyddiad Gwasanaeth Cyhoeddus o £1.570m (2023/24 - £4.378m) a nodir uchod.

## 14. Ymrwymiadau prydlesi gweithredol

Mae taliadau prydles lleiaf Grŵp S4C yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu fel a ganlyn:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| Tir ac Adeiladau | **£000** | £000 |
| Llai nag un flwyddyn | **199** | 195 |
| Hwyrach nag un flwyddyn, ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **765** | 739 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **2,052** | 2,098 |
| | **3,016** | 3,032 |

## 15. Ymrwymiadau ariannol

Ar 31 Mawrth 2025 roedd gan Grŵp S4C ymrwymiadau ariannol gwerth £600,000 yn berthnasol i fenthyciadau ad-daliadwy o fewn S4C Rhyngwladol Cyf. Nid oedd gan Grŵp S4C nac S4C unrhyw ymrwymiadau ariannol ar 31 Mawrth 2024.

## 16. Ymrwymiadau rhaglenni

Ar 31 Mawrth, yr oedd Grŵp S4C ac S4C wedi ymrwymo'n gytundebol i wario'r symiau a ganlyn ar raglenni:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Ymrwymiadau rhaglenni | **17,837** | 23,116 |

## 17. Offerynnau ariannol

| | S4C Group | | S4C | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Asedau ariannol | **26,376** | 28,626 | **7,381** | 8,955 |
| Asedau ariannol | **26,376** | 28,626 | **7,381** | 8,955 |
| Rhwymedigaethau ariannol | **(14,269)** | (14,987) | **(14,145)** | (14,718) |
| Rhwymedigaethau ariannol | **(14,269)** | (14,987) | **(14,145)** | (14,718) |

Mae asedau ariannol yn cynnwys cronfeydd buddsoddi wedi eu mesur ar werth teg drwy'r cyfrif elw a cholled ac arian parod, dyledwyr masnach (gan gynnwys TAW), symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp a dyledwyr eraill a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio llai unrhyw leihad mewn gwerth.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys credydwyr masnach, symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau grŵp a chroniadau a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio.

## 18. Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

| | Ar 01/04/24 | Llifarian | Arian parod heb eu gwireddu | Ar 31/03/25 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11,592 | (2,708) | - | 8,884 |
| Adnoddau parod eraill | 13,350 | - | 93 | 13,443 |
| | 24,942 | (2,708) | 93 | 22,327 |

## 19. Cynllun pensiwn

### Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig er budd gweithwyr.

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun pensiwn lle mae'r Grŵp S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfeydd unigol sy'n annibynnol o rai S4C. Cafwyd tâl pensiwn o £978,931 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 - £1,094,295).

### Cynllun budd diffiniedig

Mae'r Grŵp S4C yn gweithredu cynllun budd diffiniedig, sydd yn rhan o gynllun Pensiwn Staff Ofcom (CTA gynt). Ar 31 Mai 2011, caewyd y cynllun budd diffiniedig i groniad yn y dyfodol. Trosglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae asedau'r cynllun yn cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr mewn cronfa sy'n annibynnol o rai Grŵp S4C.

Mae cynllun buddion diffiniedig wedi nodi'r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae'r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydnabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion diffiniedig yw cynllun pensiwn nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig. Mae Grŵp S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio'r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i'r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau'r dyfodol ('y gyfradd ddisgowntio').

Mesurir gwerth teg asedau'r cynlluniau yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r cwmni ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir neu ddebydir yr enillion a'r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau 'eiddo parod', ar ôl tynnu'r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan 'Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig (net)'.

Mae'r pensiwn net sydd dros ben yn cael ei gydnabod fel naill ai gall yr asedau gael eu hadennill gan y cynllun neu gall arwain at gyfraniadau is yn y dyfodol. Mewn achos pan nad yw'r amodau hyn yn bodoli nid yw'r cyfanswm net sydd dros ben yn cael ei gynnwys ar y Fantolen fel sydd ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2024.

Seilir costau a rhwymedigaethau'r cynllun ar brisiad actiwaraidd. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2024 gan actwari annibynnol cymwys.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | Ar 31/03/23 |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant | **3.1%** | 3.2% | 3.3% |
| Chwyddiant | **RPI llai 0.9% cyn 2030/ RPI llai 0.2% ar ôl 2030** | RPI llai 0.9% cyn 2030/ RPI llai 0.2% ar ôl 2030 | RPI llai 1.0% cyn 2030/ RPI llai 0.1% ar ôl 2030 |
| Cyfradd disgownt rhwymedigaethau'r cynllun | **5.7%** | 4.8% | 4.8% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau cysylltiedig yn llawn a'r mynegai pris manwerthu | **3.2%** | 3.3% | 3.3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sydd â mynegai pris cyfyng | **3.0%** | 3.1% | 3.1% |
| Disgwyliad oes dynion / menywod 60 oed ar ddyddiad cyfrifyddu | **26.7/29.5** | 26.1/29.0 | 26.5/29.4 |
| Disgwyliad oes dynion / menywod 60 oed, 20 mlynedd o'r dyddiad cyfrifyddu | **28.3/31.0** | 27.6/30.4 | 28/30.8 |

Mae'r swm sy'n gynwysedig yn y Fantolen yn tarddu o oblygiadau'r Grŵp S4C i'r cynllun fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/25 Gwerth** | Ar 31/03/24 Gwerth | Ar 31/03/23 Gwerth |
|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 |
| Bondiau Llywodraeth | **700** | 800 | 800 |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | **23,900** | 26,400 | 26,400 |
| Arian | **200** | 400 | 500 |

Ar ôl cwblhau pryniant ar gyfer y rhwymedigaethau anyswiriedig gweddilliol yn yr Adran S4C ym mis Mai 2019, delir y mwyafrif helaeth o asedau'r Adran mewn polisïau blwydd-dal sy'n symud yn unol â rhwymedigaethau'r Adran. Mae gweddill asedau'r Adran wedi'u buddsoddi mewn arian parod a giltiau indecs-gysylltiedig i dalu am gostau rhedeg ac unrhyw dreuliau ychwanegol a allai godi o'r pryniant. Mae Bwrdd S4C yn ymwybodol o achos yn ymwneud â Virgin Media ac NTL Pension Trustees, a allai o bosibl arwain at rwymedigaethau ychwanegol i rai cynlluniau pensiwn a noddwyr, gan gynnwys (os yw'n berthnasol) Bwrdd S4C. Mae'r achos hwn yn destun apêl ac nid yw'r effaith (os o gwbl) yn hysbys a bydd yn cael ei asesu fel un perthnasol yn y dyfodol.

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | Ar 31/03/23 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 |
| Cyfanswm gwerth marchnadol yr asedau | **24,800** | 27,600 | 27,700 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **(23,900)** | (26,500) | (26,500) |
| Ased pensiwn net | **900** | 1,100 | 1,200 |
| Ased pensiwn heb ei gydnabod | **(900)** | (1,100) | (1,200) |
| Sefyllfa mantolen net | **-** | - | - |

Yn unol ag FRS 102, dangosir y cynllun ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2025 fel ased net o £dim (ar 31 Mawrth 2024 - £dim).

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cost gwasanaeth presennol | | |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **(1,300)** | (1,300) |
| Costau rhedeg | **100** | 100 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1,200** | 1,200 |
| Llog ar nenfwd asedau | **100** | 100 |
| Cyfanswm costau gweithredol | **100** | 100 |

Cynhwysir y symiau a godwyd neu a gredydwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn yr incwm a thaliadau gweithredol ac o fewn llog taladwy.

Mae newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig | **26,500** | 26,500 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **1,200** | 1,200 |
| Buddion a dalwyd | **(1,700)** | (1,300) |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau | **(2,100)** | 100 |
| Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig | **23,900** | 26,500 |

Mae newidiadau yng ngwerth marchnadol asedau'r cynllun fel â ganlyn:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod | **27,600** | 27,700 |
| Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun | **1,300** | 1,300 |
| Costau rhedeg | **(100)** | (100) |
| Buddion a dalwyd | **(1,700)** | (1,300) |
| Colledion actiwaraidd ar asedau | **(2,300)** | - |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod | **24,800** | 27,600 |

Prif gategorïau buddsoddiadau asedau'r cynllun, fel % o gyfanswm asedau'r cynllun:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| Bondiau Llywodraeth | **3%** | 3% |
| Arian | **1%** | 1% |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | **96%** | 96% |

Gwir enillion asedau'r cynllun:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun | **1,300** | 1,300 |
| Colledion actiwaraidd ar asedau | **-** | - |
| Gwir enillion ar asedau'r cynllun | **1,300** | 1,300 |

Enillion o £0.1m (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 - enillion o £0.1m) yw'r cyfanswm a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Arall ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Dadansoddiad hanesyddol o werthoedd asedau, rhwymedigaethau'r cynllun a gwarged cyffredinol:

| | **Ar 31/03/25** | Ar 31/03/24 | Ar 31/03/23 | Ar 31/03/22 | Ar 31/03/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwerth marchnadol asedau'r cynllun | **24,800** | 27,600 | 27,700 | 36,200 | 37,200 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(23,900)** | (26,500) | (26,500) | (34,900) | (35,900) |
| Gweddill yn y cynllun | **900** | 1,100 | 1,200 | 1,300 | 1,300 |

## 20. Rhwymedigaethau amodol – Grŵp S4C ac S4C

Mae S4C wedi derbyn nifer o hawliadau cyfreithiol yn ymwneud â digwyddiadau o fewn blwyddyn ariannol 2023/24. Ar 31 Mawrth 2025, oherwydd y cam yn y broses gyfreithiol, mae'n anymarferol asesu'r hawliadau fel y maent wedi'u pledio a chaiff y rhain eu cydnabod fel rhwymedigaeth amodol (ar 31 Mawrth 2024 - £dim).

## 21. Trafodion partïon cysylltiol

Partïon cysylltiol S4C yw ei his-gwmnïau masnachol sy'n eiddo'n llwyr iddi, cyd-fentrau, aelodau'r Bwrdd, aelodau'r Uwch Dîm Arwain, a'r rhai a drafodir isod.

Yn ystod y cyfnod ymgymerodd y cwmni â'r trafodion canlynol gyda chwmnïau cyswllt y tu allan i'r grŵp sy'n gymwys fel partïon cysylltiol:

| | **2024/25** | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Incwm yn gysylltiedig ag Aria Studios Cyf | **24,817** | 6,000 |

Yn ystod 2022/23 rhoddodd y cwmni fenthyciad, sy'n ad-daliadwy mewn arian parod, i Aria Studios Cyf ac roedd balans o £467,351 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2024: £457,367). Mae darpariaeth yn erbyn adennill y benthyciad hwn wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol. Y llog a godwyd yn ystod y cyfnod oedd £28,678 (2024: £34,256).

Datgelir cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain yn nodyn 5.

Yn ystod y flwyddyn, prynodd S4C nwyddau gwerth £432,701 gan dri pharti cysylltiol (2023/24 £556,440 gan dri barti cysylltiol). Nid oes unrhyw falansau heb eu talu. Mae aelod o Uwch Dîm Arwain S4C yn dal swydd cyfarwyddwr yn un o'r partïon, mae aelod arall o'r Uwch Dîm Arwain yn aelod anweithredol o Fwrdd parti arall, ac mae aelod agos o deulu un o aelodau Uwch Dîm Arwain S4C yn Gadeirydd ar y llall.

Mae'r holl drafodion a balansau gydag is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i S4C wedi'u dileu yn y broses gyfuno. Mae S4C wedi manteisio ar yr esemptiad o dan Safonau Adrodd Ariannol 102 rhag datgelu trafodion gydag unrhyw gwmni grŵp arall.

## 22. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd gan Grŵp S4C nac S4C unrhyw igwyddiadau ard ôl y cyfnod adrodd 31 Mawrth 2025.

E03350866
ISBN 978-1-5286-5681-8